



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)

The National Assembly for Wales
(The Official Record)

Dydd Mawrth 5 Mehefin 2001

Tuesday 5 June 2001

Cynnwys *Contents*

- 3 Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru
Questions to the First Minister
- 21 Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd
Questions to the Deputy First Minister and Minister for Economic Development
- 29 Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Questions on Finance to the Minister for Finance, Local Government and Communities
- 36 Datganiad Busnes
Business Statetment
- 39 Cymeradwyo Rheoliadau Cyngor Gofal Cymru (Penodi, Aelodaeth a Gweithdrefnau)
2001
*Approval of the Care Council for Wales (Appointment, Membership and Procedure)
Regulations 2001*
- 45 Cymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol
Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2001
Approval of the NHS (General Dental Services) (Amendment) Wales Regulations 2001
- 50 Strategaethau Cymunedol
Communities Strategies
- 79 Dadl Fer: NHS sydd wedi'i Gyllido'n Ddigonol
Short Debate: A Well-funded NHS

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

*In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been
included.*

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru Questions to the First Minister

Cymorth Cymdeithasol ac Economaidd i Gymunedau Social and Economic Assistance for Communities

Q1 Janet Ryder: In his role as policy development co-ordinator, what steps can the First Minister take to ensure that the communities that most need social and economic assistance are receiving it? (OAQ11753)

The First Minister (Rhodri Morgan): The Assembly's groundbreaking Communities First programme will ensure that funding is directed at those communities in greatest social and economic need. Once the most deprived communities in Wales have been identified, they will receive targeted funding from a range of Assembly programmes, with the Communities First programme acting as a passport to other programmes, such as the health inequalities fund.

Janet Ryder: Providing high quality jobs is the most important social and economic assistance that we can offer to deprived communities. In the past, significant job creation announcements have often coincided with announcements of job losses. Job creation promises have sometimes proven fruitless, with the jobs never materialising, as has occurred with the jobs that British Telecommunications plc promised to create at Nantgarw. How will you ensure that promises are delivered for deprived communities, so that they benefit from the social and economic gains of the promised jobs?

The First Minister: It is sad news that BT is not proceeding with the plans to open a call centre at Nantgarw that I had the pleasure of co-announcing with BT over a year ago. Although I have no definite news, I have been in recent contact with another call centre operator. It is desperate to find premises in south Wales and has expressed a

C1 Janet Ryder: Yn rhinwedd ei rôl fel cydlynnydd datblygu polisi, pa gamau y gall Prif Weinidog Cymru eu cymryd i sicrhau bod y cymunedau sydd fwyaf angen cymorth cymdeithasol ac economaidd yn derbyn y cymorth hwnnw? (OAQ11753)

Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan): Bydd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, sef rhaglen arloesol y Cynulliad yn sicrhau y caiff arian ei sianelu i'r cymunedau hynny sydd â'r anghenion cymdeithasol ac economaidd mwyaf. Unwaith y dynodir y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, cânt arian wedi ei dargedu o amrywiaeth o raglenni'r Cynulliad, gyda'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn gweithredu fel pasbort i raglenni eraill, megis y gronfa anghydraddoldebau iechyd.

Janet Ryder: Darparu swyddi o ansawdd uchel yw'r cymorth cymdeithasol ac economaidd pwysicaf y gallwn ei gynnig i gymunedau difreintiedig. Yn y gorffennol, cyhoeddwyd bod nifer o swyddi newydd wedi eu creu yr un pryd â chyhoeddi colli swyddi yn aml. Yr oedd addewidion o greu swyddi weithiau yn ofer, pan na ddaeth y swyddi i fodolaeth, fel y digwyddodd gyda'r swyddi yr addawodd British Telecommunications plc eu creu yn Nantgarw. Sut y gwnewch chi sicrhau y caiff addewidion i gymunedau difreintiedig eu cadw, fel y gallant elwa ar yr enillion cymdeithasol ac economaidd sydd yn deillio o'r addewidion o swyddi?

Prif Weinidog Cymru: Mae'n newyddion trist nad yw BT yn parhau â'r cynlluniau i agor canolfan alwadau yn Nantgarw—rhywbeth y cefais y pleser o'i gyhoeddi gyda BT dros flwyddyn yn ôl. Er nad oes gennyf newyddion pendant, bùm mewn cysylltiad yn ddiweddar â gweithredydd canolfan alwadau arall. Mae'n chwilio'n daer am leoliad yn ne

strong interest in the Nantgarw site. If we can bridge the gap between the departing company, BT, and the incoming company, we remain hopeful that we can address the job gap fairly quickly.

Alun Pugh: Although the Peulwys estate in Colwyn Bay is a deprived community, this is not apparent at ward level because of the averaging effects. Will this be taken into account in Communities First? The estate is currently included in the People in Communities scheme.

The First Minister: That is a matter for the Minister for Finance, Local Government and Communities, Edwina Hart. She is responsible for the Communities First programme. I am sure that she is anxious to bring the lengthy consultation on the programme to an end. The consultation period has been lengthy because of the reason that Alun adumbrated. When compiling a list of the hundred most deprived wards and communities in Wales, there will be marginal cases of communities that should be included but are not included because of ward boundaries. The consultation period will try to resolve issues involving such areas around the edge of those Communities First wards that are easy to define. The consultation period will come to an end fairly soon and I am sure that Edwina will make an announcement on this issue.

Y Llywydd: Galwaf ar Dai Lloyd i ofyn cwestiwn 2.

Dafydd Wigley: Hear, hear.

Cymru ac wedi dangos diddordeb gwirioneddol yn safle Nantgarw. Os gallwn gau'r bwloch rhwng y cwmni sydd yn gadael, sef BT, a'r cwmni sydd yn dod i mewn, yr ydym yn dal yn obeithiol y gallwn ddatrys y bwloch mewn swyddi yn weddol gyflym.

Alun Pugh: Er bod ystad Peulwys ym Mae Colwyn yn gymuned ddifreintiedig, nid yw hyn yn amlwg ar lefel ward oherwydd effeithiau cyfartaleddu. A ystyrir hyn yn y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? Cynhwysir yr ystad yn y cynllun Pobl mewn Cymunedau ar hyn o bryd.

Prif Weinidog Cymru: Mater i Edwina Hart y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau fydd hynny. Hi sydd â chyfrifoldeb dros raglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Yr wyf yn sicr ei bod yn awyddus i ddod â'r ymgynghoriad hir ar y rhaglen i ben. Bu'r cyfnod ymgynghori yn hir am y rheswm yr awgrymodd Alun. Wrth lunio rhestr o'r cant o wardiau a chymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, fe fydd achosion myllo o gymunedau y dylid eu cynnwys ond na chaiff eu cynnwys oherwydd ffiniau wardiau. Bydd y cyfnod ymgynghori yn ceisio datrys materion sydd yn ymwneud ag ardaloedd ar ymylon wardiau Rhoi Cymunedau'n Gyntaf sydd yn hawdd eu diffinio. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben yn weddol fuan ac yr wyf yn sicr y gwnaiff Edwina ddatganiad ar y mater hwn.

The Presiding Officer: I call on Dai Lloyd to ask question 2.

Dafydd Wigley: Clyweh, clyweh.

Llywodraeth Agored (Monitro'r Cabinet) Open Government (Monitoring the Cabinet)

C2 David Lloyd: Sut mae Prif Weinidog Cymru yn monitro cyfraniad ei gyd-Aelodau yn y Cabinet at greu dull agored a hygyrch o lywodraethu? (OAQ11790)

Prif Weinidog Cymru: Diolch i Dafydd Wigley am y gymeradwyaeth cyn i Dai hyd yn oed ofyn ei gwestiwn.

Gallwn ymfalchïo yn ein record yn y maes hwn. Yr ydym yn cyhoeddi cofnodion

Q2 David Lloyd: How does the First Minister monitor the contribution of his Cabinet colleagues in creating an open and accessible style of government? (OAQ11790)

The First Minister: I thank Dafydd Wigley for his applause before Dai had even asked his question.

We can be proud of our record in this area. We publish the minutes of Cabinet meetings

cyfarfodydd y Cabinet chwe wythnos wedi pob cyfarfod.

David Lloyd: Gadawodd Huw Lewis Gabinet Llywodraeth Cymru yn ddiweddar. Pam na chafwyd datganiad yn y Cynulliad yn egluro'r rhesymau dros ei ymadawiad?

Prif Weinidog Cymru: Nid gadael y Cabinet a wnaeth Huw Lewis ond, yn hytrach, y garfan o Is-weinidogion sydd oddi allan i'r Cabinet. Ni chofiaf pam na wnaeth Huw ddatganiad ar adael ei swydd.

Peter Black: As part of the open and accessible government that we are trying to achieve in Wales, will you consider publishing papers that go to the Cabinet along with the minutes after the requisite period following the meeting has passed?

The First Minister: I will consider that.

The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): Given that you are trying to create an open and accessible style of government, will you confirm that, compared with four years ago, less people were treated in the health service in Wales this year, secondary school class sizes have increased and less money has been spent on roads?

The First Minister: I cannot comment on individual issues without having seen the statistics. This body only came into existence half way through the four years to which you refer. We are clear, as a Cabinet and administration, about our expectation of continued expansion in key public services, in health and education in particular, as well as in transport and environmental issues. We are confident that we can deliver the kind of programme that the people of Wales so urgently want.

Nick Bourne: Given that you signalled education as being of such importance, will you tell us when will the delayed rural schools policy be brought forward, and when will the delayed report on student hardship and tuition fees be published? I know that the Minister for Education and Lifelong Learning does not know, as I have asked her those

six weeks after each meeting.

David Lloyd: Huw Lewis recently left the Cabinet of the Government of Wales. Why was a statement not made in the Assembly to explain the reasons for his departure?

The First Minister: Huw Lewis did not leave the Cabinet but, rather, the group of Deputy Ministers outwith the Cabinet. I do not recall why Huw did not make a statement on leaving his post.

Peter Black: Fel rhan o'r llywodraeth agored a hygyrch y ceisiwn ei chyflawni yng Nghymru, a wnewch chi ystyried cyhoeddi'r papurau a aiff i'r Cabinet ynghyd â'r cofnodion wedi i'r cyfnod angenrheidiol yn dilyn y cyfarfod fynd heibio?

Prif Weinidog Cymru: Yr wyf yn fodlon ystyried hynny.

Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): O ystyried y ceiswch greu dull agored a hygyrch o lywodraeth, a wnewch chi gadarnhau, o'i gymharu â phedair blynedd yn ôl, y cafodd llai o bobl driniaeth gan y gwasanaeth iechyd yng Nghymru eleni, bod maint dosbarthiadau ysgolion uwchradd wedi cynyddu a bod llai o arian wedi'i wario ar ffyrdd?

Prif Weinidog Cymru: Ni allaf roi sylwadau ar faterion unigol heb weld yr ystadegau. Dim ond hanner ffordd drwy'r pedair blynedd y cyfeiriwch atynt y daeth y corff hwn i fodolaeth. Yr ydym, fel Cabinet a gweinyddiaeth, yn glir ynglŷn â'n disgwyliad o ehangu parhaus mewn gwasanaethau cyhoeddus allweddol, yn arbennig iechyd ac addysg, yn ogystal â materion yn ymwneud â thrafnidiaeth a'r amgylchedd. Yr ydym yn hyderus y gallwn ddarparu'r math o raglen y mae pobl Cymru mor daer am ei chael.

Nick Bourne: Gan gofio eich bod wedi nodi bod addysg mor bwysig, a wnewch chi ddweud wrthym pryd y caiff y polisi gohiredig ar ysgolion gwledig ei ddwyn ymlaen, a phryd y caiff yr adroddiad gohiredig ar galedi myfyrwyr a ffioedd hyfforddiant ei gyhoeddi? Gwn nad yw'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

questions.

yn gwybod, gan imi ofyn y cwestiynau hynny iddi.

The First Minister: I am not sure about the publication date of the rural schools policy. The student hardship report will be published on 14 June. You were right to say that it has been delayed, but it was not delayed by the Assembly administration.

Prif Weinidog Cymru: Nid wyf yn sicr beth yw dyddiad cyhoeddi'r polisi ysgolion gwledig. Caiff yr adroddiad ar galedi myfyrwyr ei gyhoeddi ar 14 Mehefin. Yr oeddech yn iawn i ddweud iddo gael ei ohirio, ond nid gan weinyddiaeth y Cynulliad y cafodd ei ohirio.

Hyrwyddo Llywodraeth Agored a Hygyrch Promoting Open and Accessible Government

Q3 Jocelyn Davies: How does the Assembly Cabinet promote open and accessible government? (OAQ11791)

C3 Jocelyn Davies: Sut y mae Cabinet y Cynulliad yn hyrwyddo llywodraeth agored a hygyrch? (OAQ11791)

The First Minister: In addition to the point I made earlier about the publication of Cabinet minutes six weeks after a meeting, press briefings and, in a wider sense, the Assembly's Record of Proceedings, are available on the internet. We in Wales have taken a lead and are probably the most open administration in western Europe. However, if you know of an administration that is more open, we will gladly consider any ways in which it is more open to see whether they can be adopted by the Assembly.

Prif Weinidog Cymru: Yn ychwanegol at y pwynt a wneuthum yn gynharach ynglŷn â chyhoeddi cofnodion y Cabinet chwe wythnos ar ôl cyfarfod, mae'r briffiadau i'r wasg, ac i raddau ehangach, y Cofnod o Drafodion y Cynulliad, ar gael ar y rhyngwyd. Yr ydym ni yng Nghymru wedi cymryd yr awenau ac mae'n debyg mai ni yw'r weinyddiaeth fwyaf agored yng ngorllewin Ewrop. Fodd bynnag, os y gwyddoch am unrhyw weinyddiaeth sydd yn fwy agored, byddwn yn falch o ystyried unrhyw ffyrdd y mae'n fwy agored i weld a ellir eu mabwysiadu gan y Cynulliad.

Jocelyn Davies: In February, the Cabinet decided to make greater use of statements to introduce policy to Plenary. As statements avoid debates and votes, do they promote accessible government and are they democratic?

Jocelyn Davies: Ym mis Chwefror, penderfynodd y Cabinet wneud mwy o ddefnydd o ddatganiadau i gyflwyno polisiau i'r Cyfarfod Llawn. Gan fod datganiadau yn osgoi dadleuon a phleidleisiau, a ydynt yn hyrwyddo llywodraeth hygyrch ac a ydynt yn ddemocrataidd?

The First Minister: They can be very democratic because when a new policy or change of policy is announced by means of a statement, every Assembly Member has the opportunity to question a Minister. You seem to think that only debate elicits information about policies and involves the full accountability of a Minister to the Assembly. Anyone would accept that statements are appropriate sometimes and debates are appropriate at other times. You cannot say that debates are invariably in some way better, as if statements are like an ace that could be trumped with a debate. That is an

Prif Weinidog Cymru: Gallant fod yn ddemocrataidd iawn oherwydd pan gyhoeddir polisi newydd neu newid polisi drwy gyfrwng datganiad, caiff pob Aelod o'r Cynulliad gyfle i holi Gweinidog. Ymddengys eich bod o'r farn mai dadl yn unig sydd yn ennyn gwybodaeth ynglŷn â pholisiau ac yn cynnwys atebolrwydd llawn Gweinidog y Cynulliad. Byddai unrhyw un yn derbyn bod datganiadau yn briodol ar adegau a bod dadleuon yn briodol ar adegau eraill. Ni allwch ddweud bod dadleuon bob amser yn well, fel pe bai dadleuon â mwy o rym na datganiadau. Mae hynny yn syniad

absurd and inappropriate proposition.

afresymol ac amhriodol.

Glyn Davies: During the last two and a half months or so, Britain has been in a state of crisis as a result of foot and mouth disease. Openness and accessibility is often one of the first casualties at such a time. The Prime Minister has refused point blank to hold a public inquiry. Will you agree to hold an inquiry in Wales if we do not have one in Britain as a whole?

Glyn Davies: Yn ystod y deufis a hanner diwethaf, bu Prydain mewn cyflwr o argyfwng o ganlyniad i glwy'r traed a'r genau. Bod yn agored a hygyrch yn aml iawn yw un o'r pethau cyntaf i ddioddef ar adeg o'r fath. Mae'r Prif Weinidog wedi gwrthod cynnal ymchwiliad cyhoeddus. A wnewch chi gytuno i gynnal ymchwiliad yng Nghymru, os na chawn un ar draws Prydain gyfan?

The First Minister: There were several preambles to that question with which I am not sure that I would agree. I do not recall the Prime Minister saying that there will not be a public inquiry. My memory is—and I approve of this sentiment—that the right time to take a decision on a public inquiry is when the disease has been eradicated. I would be surprised were a public inquiry not set up at that time. The right time to take the decision is when the disease has been eradicated, not when you are half way or three quarters of the way through, because it is only after the disease has been eradicated that you will know at what stage the disease was at a certain time.

Prif Weinidog Cymru: Yr oedd nifer o raglithoedd i'r cwestiwn hwnnw ac nid wyf yn sicr a gytunaf â hwy. Ni chofiaf i'r Prif Weinidog ddweud na chynhelir ymchwiliad cyhoeddus. Yr hyn a gofiaf i yw—ac yr wyf yn cymeradwyo'r farn hon—mai'r adeg iawn i wneud penderfyniad ar ymchwiliad cyhoeddus yw pan fydd y clwyf wedi ei ddileu. Byddwn yn synnu pe na chynhelir ymchwiliad cyhoeddus ar yr adeg honno. Yr amser iawn i wneud penderfyniad yw pan fydd y clwyf wedi ei ddileu, nid pan fyddwch hanner neu dri chwarter y ffordd drwyddo, gan mai dim ond ar ôl i'r clwyf gael ei ddileu y byddwch yn gwybod beth oedd sefyllfa'r clwyf ar amser penodol.

Rod Richards: The First Minister claims to be open and accessible. However, a few moments ago, he had the cheek to tell the Assembly that he does not know what the statistics are, compared with 1997, for hospital waiting lists and the numbers of pupils in secondary school classes. That is outrageous, as it is the First Minister's business to be aware of current statistics in Wales. It is no surprise to those of us who monitor the situation that there is drift in the health and education services because the First Minister will not pull his finger out and find out what is going on.

Rod Richards: Mae Prif Weinidog Cymru yn honni bod yn agored a hygyrch. Fodd bynnag, rai eiliadau yn ôl, yr oedd ganddo'r hyfdra i ddweud wrth y Cynulliad nad yw'n gwybod beth yw'r ystadegau ar gyfer rhestrau aros ysbytai a niferoedd y disgyblion mewn dosbarthiadau ysgolion uwchradd o'u cymharu â 1997. Mae hynny'n gywilyddus, gan mai busnes Prif Weinidog Cymru yw bod yn ymwybodol o'r ystadegau cyfredol yng Nghymru. Nid yw'n syndod i'r rhai hynny ohonom sydd yn monitro'r sefyllfa bod problemau yn y gwasanaethau iechyd ac addysg am na wnaiff y Prif Weinidog weithredu a chanfod beth sydd yn digwydd.

2:10 p.m.

The First Minister: Rod obviously did not hear Nick Bourne's question, but I know that they have a close, warm and trusting relationship. Nick Bourne's question was not about waiting lists but about the numbers of patients treated, as I think Nick will confirm. The point that I made was that two of the four

Prif Weinidog Cymru: Mae'n amlwg na chlywodd Rod gwestiwn Nick Bourne, ond gwn fod ganddynt berthynas agos, gynnes ac ymddiriedus. Nid cwestiwn am restrau aros oedd gan Nick Bourne ond am y niferoedd o gleifion sydd yn derbyn triniaeth, fel y credaf y byddai Nick yn ei gadarnhau. Y pwynt a

years that were referred to predated the Assembly's existence, a period for which I and this administration cannot be held in any way responsible.

wneuthum oedd nad oedd y Cynulliad yn bodoli yn ystod dwy o'r pedair blynedd y cyfeiriwyd atynt, sydd yn gyfnod na allaf fi na'r weinyddiaeth hon fod yn gyfrifol amdano.

Fframwaith Polisi y Cabinet The Cabinet's Policy Framework

Q4 David Melding: Has the Assembly Cabinet's policy framework altered since the publication of 'Putting Wales First'? (OAQ11821)

C4 David Melding: A yw fframwaith polisi Cabinet y Cynulliad wedi newid ers cyhoeddi 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'? (OAQ11821)

The First Minister: 'Putting Wales First', together with the earlier 'Betterwales.com' document, provides the Cabinet's strategic framework for action. Some small technical adjustments have occurred in turning 'Putting Wales First' into action. That is inevitable with such a document. Apart from the fact that we are one-third of the way through the period over which we said that 'Putting Wales First' would be implemented—through to the Assembly elections in May 2003, or just before that in April 2003—the document remains the basis for the Cabinet's policies. Shortly, we plan to produce a strategic plan that will take our commitments forward.

Prif Weinidog Cymru: Mae 'Rhoi Cymru'n Gyntaf', ynghyd â'r ddogfen gynharach 'Gwellcymru.com', yn rhoi fframwaith strategol y Cabinet ar gyfer gweithredu. Digwyddodd rhai newidiadau technegol bychain wrth weithredu 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'. Mae hynny'n anochel gyda dogfen o'r fath. Ar wahân i'r ffaith ein bod draean o'r ffordd drwy'r cyfnod y dywedasom y byddai 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' yn cael ei gweithredu—tan etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2003, neu ychydig cyn hynny ym mis Ebrill 2003—mae'r ddogfen yn parhau'n sail i bolisiâu'r Cabinet. Cyn bo hir, bwriadwn gynhyrchu cynllun strategol a fydd yn datblygu ein hymrwymiaidau.

David Melding: Will the First Minister confirm that NHS activity rates published by his own administration record that fewer people now receive treatment in the NHS than when the Assembly assumed its powers, and fewer patients receive treatment in the NHS than when he assumed his office as First Secretary? Are these activity rates acceptable?

David Melding: A wnaiff Prif Weinidog Cymru gadarnhau bod cyfraddau gweithgaredd yr NHS a gyhoeddwyd gan ei weinyddiaeth ei hun yn cofnodi bod llai o bobl bellach yn derbyn triniaeth gan yr NHS na phan dderbyniodd y Cynulliad ei bwerau, a bod llai o gleifion yn derbyn triniaeth gan yr NHS na phan ddaeth i'w swydd fel Prif Weinidog Cymru? A yw'r cyfraddau gweithgaredd hyn yn dderbyniol?

The First Minister: Are you referring to inpatient treatments?

Prif Weinidog Cymru: A ydych yn cyfeirio at driniaethau cleifion mewn ysbyty?

David Melding: Yes.

David Melding: Ydwyf.

The First Minister: Certainly for the calendar year 2000, but I am not aware of any figures that would support David Melding's statement about the period since I came to office, because I do not think it covers the period to which David referred. I do not think there is any basis for your statement.

Prif Weinidog Cymru: Yn sicr ar gyfer y flwyddyn galendr 2000, ond nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ffigurau a fyddai'n ategu datganiad David Melding ar gyfer y cyfnod ers i mi ddod i'm swydd, gan na chredaf ei fod yn cwmpasu'r cyfnod y cyfeiriodd David ato. Ni chredaf fod unrhyw sail i'ch datganiad.

David Melding: They are Government figures.

The First Minister: The Government figures do not relate to the same time period to which David referred.

The Presiding Officer: Order. David, you have had one supplementary. You are not yet the leader of the Welsh Conservative Party.

Cynog Dafis: A wnaiff y Prif Weinidog sylwadau ar yr ymrwymiad yn nogfen y glymblaid i gynnal cynllun peilot o'r fagloriaeth Gymreig? A yw'n sylweddoli bod Sefydliad y Fagloriaeth Ryngwladol (IBO) wedi penderfynu peidio â thendro ar gyfer y cynllun peilot oherwydd sylwadau negyddol Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru ar fodel y Sefydliad Materion Cymreig a oedd ynghlwm wrth y ddogfen dendro, a'i fod yn credu mai bwriad y weinyddiaeth yw cefnu ar fodel y fagloriaeth Gymreig? A wnaiff y Prif Weinidog ymyrryd yn effeithiol i rwystro hynny rhag digwydd?

Prif Weinidog Cymru: Nid yw'r sefyllfa yn union fel y'i disgrifiwyd gan Cynog. I raddau helaeth, disgrifiodd Cynog y sefyllfa yn eithaf gwrthrychol, ond credaf fod yr IBO yn fodlon helpu. Mae'n helpu yn y broses, er na allwn fod yn sicr y bydd yn llwyddiannus. Mae'r IBO wedi penderfynu peidio â thendro ond y mae'n fodlon helpu.

David Melding: Ffigurau'r Llywodraeth ydynt.

Prif Weinidog Cymru: Nid yw ffigurau'r Llywodraeth yn ymwneud â'r un cyfnod y cyfeiriodd David ato.

Y Llywydd: Trefn. David, yr ydych wedi gofyn un cwestiwn atodol. Nid ydych yn arweinydd Plaid Geidwadol Cymru eto.

Cynog Dafis: Will the First Minister comment on the commitment in the partnership document to hold a pilot scheme of the Welsh baccalaureate? Does he realise that the International Baccalaureate Organisation has decided not to tender for the pilot scheme because of the negative comments made by the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales on the Institute of Welsh Affairs's model, which was attached to the tender document, and that it believes that this administration intends to turn its back on the Welsh baccalaureate? Will the First Minister intervene effectively to stop that from happening?

The First Minister: The situation is not exactly as Cynog described it. To a considerable extent, Cynog described the situation quite objectively, but I believe that the IBO is willing to assist. The IBO is helping in the process, although we cannot be sure that it will be a success. The IBO has decided not to tender but is willing to help.

Adolygiad o Bwerau'r Cynulliad Review of Assembly Powers

Q5 Kirsty Williams: What preparations have been made toward establishing the review into the Assembly's powers as promised in the partnership agreement? (OAQ11756)

The First Minister: 'Putting Wales First' stated that we would establish the commission before the 2003 elections. I remain committed to that. I would guess, although no final decision has been taken, that we would want to see an independent commission starting its work about this time next year and that it would report some

C5 Kirsty Williams: Pa gamau a gymerwyd ar gyfer llunio'r adolygiad o bwerau'r Cynulliad fel yr addawyd yn y cytundeb partneriaeth? (OAQ11756)

Prif Weinidog Cymru: Nododd 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' y byddem yn sefydlu'r comisiwn cyn etholiadau 2003. Yr wyf dal yn ymrwymedig i hynny. Byddwn yn dyfalu, er na wnaethpwyd unrhyw benderfyniad terfynol, y byddem am gael gweld comisiwn annibynnol yn cychwyn ar ei waith tua'r adeg hon y flwyddyn nesaf ac y byddai'n

months after the first re-elections to the Assembly, around September or October 2003. That would be well before the intergovernmental conference on the charter of competencies for the European nation state at the regional tier of governments throughout Europe, which will take place, I think, in spring 2004.

Kirsty Williams: I welcome your continued commitment to that review. When we finally get to the end of the foot and mouth disease crisis, will you and your Minister for Rural Affairs reflect on whether you had adequate powers to deal effectively with this crisis in a Welsh context?

The First Minister: That could be part of the evidence put to an independent commission. I emphasise the point—which applies to the local government commission, the student hardship commission and to this commission when we set it up this time next year—that if you set up an independent commission, you want to have the best people of independent mind on it. Thereafter it is for people throughout Wales and beyond to present evidence and for the commission to consider the evidence. It is not up to me to ask the commission to consider how Carwyn and I have handled the foot and mouth disease crisis in Wales; it is up to other people outside the Assembly to give evidence to the Commission. It will then report to us in late summer or autumn of 2003, after the elections, when the Cabinet and the Assembly can consider its conclusions.

Jocelyn Davies: The Assembly's powers are found in primary legislation. In December, the Assembly unanimously passed a resolution calling on you to publish a detailed account of the procedures by which we can influence primary legislation. Have you published that account and if so where can I find it?

The First Minister: I do not have the answer to that question at the moment, but I will write to you. The key issue is that we have no inhibitions on this. The election will be followed by the exciting period of a run-up to the new Queen's Speech. Whichever party is

cyflwyno adroddiad rai misoedd ar ôl yr ailethol cyntaf i'r Cynulliad, tua mis Medi neu Hydref 2003. Byddai hynny ymhell cyn y gynhadledd rynglywodraethol ar y siarter galluoedd ar gyfer y genedl-wladwriaeth Ewropeaidd ar haen ranbarthol llywodraethau drwy Ewrop, a gynhelir, mi gredaf, yn ystod gwanwyn 2004.

Kirsty Williams: Croesawaf eich ymrwymiad parhaus i'r adolygiad hwnnw. Pan ddown i ddiwedd argyfwng clwy'r traed a'r genau, a fyddwch chi a'ch Gweinidog dros Faterion Gwledig yn ystyried a oedd gennyhch bwerau digonol i ymdrin yn effeithiol â'r argyfwng hwn mewn cydestun Cymreig?

Prif Weinidog Cymru: Gallai hynny fod yn rhan o'r dystiolaeth i'w chyflwyno i gomisiwn annibynnol. Yr wyf am bwysleisio'r pwynt—sydd yn berthnasol i'r comisiwn llywodraeth leol, y comisiwn caledi myfyrwyr ac i'r comisiwn hwn ar ôl inni ei sefydlu yr adeg hon y flwyddyn nesaf—y byddwch, wrth sefydlu comisiwn annibynnol, am gael y bobl orau o farn annibynnol arno. Wedi hynny, lle pobl drwy Gymru a thu hwnt fydd cyflwyno tystiolaeth, a lle'r comisiwn fydd ystyried y dystiolaeth. Nid fy lle i yw gofyn i'r comisiwn ystyried sut y mae Carwyn a minnau wedi ymdrin ag argyfwng clwy'r traed a'r genau yng Nghymru; lle pobl eraill y tu allan i'r Cynulliad yw cyflwyno tystiolaeth i'r Comisiwn. Wedyn, bydd yn cyflwyno adroddiad inni ddiwedd yr haf neu hydref 2003, ar ôl yr etholiadau, pan fydd y Cabinet a'r Cynulliad yn gallu ystyried eu casgliadau.

Jocelyn Davies: Daw pwerau'r Cynulliad o ddeddfwriaeth sylfaenol. Ym mis Rhagfyr, derbyniodd y Cynulliad yn unfrydol gynnig i alw arnoch i gyhoeddi cyfrif manwl o'r gweithdrefnau y gallwn ddylanwadu ar ddeddfwriaeth sylfaenol drwyddynt. A ydych wedi cyhoeddi'r dadansoddiad hwnnw ac os felly, ymhle y gallaf ddod o hyd iddo?

Prif Weinidog Cymru: Nid oes gennyf yr ateb i'r cwestiwn hwnnw ar hyn o bryd, ond ysgrifennaf atoch. Y mater allweddol yw nad oes gennym unrhyw ataliad ar hyn. Caiff yr etholiad ei ddilyn gan gyfnod cyffrous wrth ddynesu at Araith newydd y Frenhines. Pa

in Government, there will be a raft of legislation, some of which may be in place because the Assembly asked for it, and some in which we have asked for powers to be included by way of clauses. There will be other pieces of legislation from which we have requested to be exempt. We will have to see how successful we have been. However, negotiations between the Assembly and Whitehall and Westminster at official and ministerial levels are currently taking place at a feverish pace in anticipation of the Queen's Speech on 20 June 2001.

blaid bynnag fydd wrth y llyw, ceir llawer o ddeddfwriaeth, gyda rhywfaint mewn grym oherwydd i'r Cynulliad ofyn amdanynt, a rhywfaint lle y bu inni ofyn am i bwerau gael eu cynnwys drwy gymalau. Bydd darnau eraill o ddeddfwriaeth yr ydym wedi gwneud cais inni gael ein heithrio ohonynt. Bydd yn rhaid inni weld pa mor llwyddiannus y buom. Fodd bynnag, mae negodiadau rhwng y Cynulliad a Whitehall a San Steffan, gyda swyddogion a Gweinidogion, yn cael eu cynnal ar gyflymder gwyllt ar hyn o bryd wrth ddisgwyl Araith y Frenhines ar 20 Mehefin 2001.

The Presiding Officer: Question 6 has been withdrawn.

Y Llywydd: Tynnwyd Cwestiwn 6 yn ôl.

Ymweliadau Swyddogol Tramor gan Weinidogion Ministers' Official Trips Abroad

Q7 Pauline Jarman: What are the provisions for Assembly Cabinet Ministers to report back to the Assembly after travelling abroad on official business? (OAQ11798)

C7 Pauline Jarman: Pa ddarpariaeth sydd i Weinidogion Cabinet y Cynulliad adrodd yn ôl i'r Cynulliad ar ôl teithio dramor ar fusnes swyddogol? (OAQ11798)

Q10 Dafydd Wigley: How does the First Minister monitor the effectiveness of the work of his Cabinet colleagues on official Assembly visits abroad? (OAQ11795)

C10 Dafydd Wigley: Sut mae Prif Weinidog Cymru yn monitro pa mor effeithiol yw gwaith ei gyd-Aelodau yn y Cabinet ar eu hymweliadau swyddogol dramor ar ran y Cynulliad? (OAQ11795)

The First Minister: Llywydd, with your prior agreement, I have grouped the answers to questions 7 and 10 together as they are closely related. Officials gave Pauline and Dafydd prior warning last week of my intention to do that.

Prif Weinidog Cymru: Lywydd, gyda'ch caniatâd ymlaen llaw, yr wyf wedi grwpio'r atebion i gwestiynau 7 a 10 ynghyd gan eu bod wedi'u cysylltu'n agos. Rhoddodd swyddogion rybudd ymlaen llaw i Pauline a Dafydd o'm bwriad i wneud hynny.

There is no formal mechanism in place for Cabinet Ministers to report back to the Assembly after travelling abroad on official business. There is nothing to prevent Assembly Members from asking Cabinet members for feedback on their visits either by informal means or via Assembly questions or during their reports to Subject Committees. That is the normal practice whereby such questions arise or material is included. I sanction all overseas visits that are made by my Cabinet and I am fully briefed by my colleagues on their return.

Nid oes proses ffurfiol mewn grym i Weinidogion y Cabinet adrodd yn ôl i'r Cynulliad ar ôl teithio dramor ar fusnes swyddogol. Nid oes unrhyw beth i atal Aelodau'r Cynulliad rhag gofyn i aelodau'r Cabinet am adborth ar eu hymweliadau naill ai mewn modd anffurfiol neu drwy gwestiynau yn y Cynulliad neu yn ystod eu hadroddiadau i Bwyllgorau Pwnc. Dyna'r arfer gyffredin pan fydd cwestiynau o'r fath yn codi neu ddeunydd yn cael ei gynnwys. Awdurdodaf bob ymweliad dramor a wneir gan fy Nghabinet a chaf fy mriffio'n llawn gan fy nghyd-Aelodau wedi iddynt ddychwelyd.

Pauline Jarman: I can imagine that Cabinet members are meticulous in their preparations for official business abroad—cases packed, documents checked, corporate credit cards charged—but I cannot find mention of any reports of such visits in the published minutes of Cabinet meetings neither can I recall any ministerial statements on such visits during Plenary Sessions. If these visits have any importance to Wales, when will we obtain details of them through those formal procedures?

The First Minister: You are wrong, Pauline. I have made three oral statements in Plenary on my visits to Rhone-Alpes on 24 May 2000, to New South Wales on 14 June 2000 and to Japan on 14 September 2000. Therefore, do more research in future please.

David Davies: We welcome your openness on this First Minister, but do you agree that there should be a formal procedure whereby Ministers should provide a full written report on when visits are arranged, why they are being undertaken and what, if anything, has been achieved by them. By doing so, we will overcome the no doubt unwarranted suspicion in some people's minds that these visits are used as an excuse to get rid of Ministers at embarrassing moments.

The First Minister: That is an absurd allegation, which I am sure that you would not wish to spread around Wales. You are merely reporting back the words of cynics that I am sure you quash effectively at all times as you go around your constituency—

David Davies: You no doubt will be; you have read the reports.

The First Minister: You will be doing so as well and I am pleased to hear it.

Some Subject Committees may prefer Ministers' statements to be made to them and, on other occasions, oral statements are

Pauline Jarman: Gallaf ddychmygu bod aelodau'r Cabinet yn drwyadl wrth baratoi ar gyfer busnes swyddogol dramor—wedi pacio eu bagiau, wedi gwirio eu dogfennau, wedi llwytho eu cardiau credyd corfforaethol—ond ni allaf weld sôn am unrhyw adroddiadau o ymweliadau o'r fath yng nghofnodion cyhoeddiedig cyfarfodydd y Cabinet ac ni allaf ychwaith gofio gweld unrhyw ddatganiadau gweinidogol ar ymweliadau o'r fath yn ystod Cyfarfodydd Llawn. Os yw'r ymweliadau hyn o bwys o gwbl i Gymru, yna pryd y cawn fanylion amdanynt drwy'r gweithdrefnau ffurfiol hynny?

Prif Weinidog Cymru: Yr ydych yn anghywir, Pauline. Gwneuthum dri datganiad llafar mewn Cyfarfodydd Llawn ar fy ymweliadau i Rhone-Alpes ar 24 Mai 2000, i New South Wales ar 14 Mehefin 2000 ac i Siapan ar 14 Medi 2000. Felly, gwnewch fwy o waith ymchwil yn y dyfodol os gwelwch yn dda.

David Davies: Croesawn eich gonestrwydd ar hyn Brif Weinidog, ond a gytunwch y dylid cael gweithdrefn ffurfiol lle gallai Gweinidogion ddarparu adroddiad ysgrifenedig llawn ar pa bryd y trefnir ymweliadau, pam y cânt eu cynnal a beth a gyflawnwyd ganddynt, os unrhyw beth. Drwy wneud hynny, byddwn yn goresgyn yr amheuaeth ddireswm ym meddwl rhai pobl y defnyddir yr ymweliadau hyn fel esgus i gael gwared ar Weinidogion ar adegau chwithig.

Prif Weinidog Cymru: Mae hynny'n honiad hurt, yr wyf yn sicr na fyddech yn dymuno ei ledaenu o amgylch Cymru. Y cyfan a wnewch yw ailadrodd geiriau sinigiaid yr wyf yn sicr y byddwch yn eu dileu yn effeithiol bob tro wrth ichi fynd o amgylch eich etholaeth—

David Davies: Mae'n siŵr y byddwch yn gwneud hynny; yr ydych wedi darllen yr adroddiadau.

Prif Weinidog Cymru: Byddwch chi'n gwneud hynny hefyd ac yr wyf yn falch o glywed hynny.

Efallai y byddai'n well gan rai Pwyllgorau Pwnc i ddatganiadau Gweinidogion gael eu gwneud iddynt hwy ac, ar adegau eraill,

made in Plenary or posted to the internet. There have been several recent visits: Jane Hutt attended the World Health Assembly in Geneva. She also co-represented Wales with Tessa Blackstone, the UK Government's representative in Brussels, if I can put it that way, on 29 May at the Young People/STORM Conference in Brussels. Andrew Davies attended the E-Mobility 2001 Conference in Gothenburg and Mike German has been in Canada and Brussels during the past few weeks.

It is possible for you to pose questions about these visits in the Subject Committees or to individual Cabinet members during Assembly questions. I am sure that they would be only too delighted to fill in those gaps to help you quash any cynicism on the streets of Monmouth.

2:20 p.m.

Dafydd Wigley: A dderbyniwch, ym myd llywodraeth leol a'r cwangos yng Nghymru, mai un cwyn a gofid cyson dros y blynyddoedd yw'r posibilrwydd bod swyddogion yn jolihotio dramor neu i gynadleddau ar draul y trethdalwyr? Dan amgylchiadau o'r fath, onid yw'n gyfrifoldeb arnom ni fel Cynulliad, ac arnoch chi fel Prif Weinidog Cymru, i sicrhau trefn agored ac atebolrwydd clir, wedi'i werthuso i sicrhau bod pob ceiniog a werir ar y triapiau hyn o les i Gymru?

Prif Weinidog Cymru: Yr wyf yn siŵr, Dafydd, na fyddech yn hapus i wasanaethu mewn Cynulliad ble nad oedd gan yr un Gweinidog yr hawl i fynd dramor i wasanaethu a chynrychioli Cymru mewn cynadleddau neu gyfarfodydd o Gyngor Gweinidogion yr Undeb Ewropeaidd. Pe bai Cymru yn wlad annibynnol byddai ganddi sedd barhaol yn y Cenhedloedd Unedig yn Efrog Newydd, gyda gwydraid o ddŵr, a darn o blastig â 'Chymru' ar ei flaen. Byddai'r un peth yn wir ar Gyngor y Gweinidogion. Hefyd, byddai 10 gwaith cymaint o Weinidogion dramor drwy'r amser yn cynrychioli Cymru a llysgenhadaeth ym mhob gwlad bwysig yn y byd hefyd. Felly, nid wyf yn gweld pwrpas eich cwestiwn, ar wahân i ennill ambell bleidlais rad ar

gwneir datganiadau llafar mewn Cyfarfod Llawr neu cânt eu gosod ar y fewnrwyd. Cafwyd sawl ymweliad diweddar: mynychodd Jane Hutt Gynhadledd Iechyd y Byd yng Ngenefa. Hefyd cyd-gynrychiolodd Gymru gyda Tessa Blackstone, cynrychiolydd Llywodraeth y DU ym Mrwsel, os gallaf ei roi fel hynny, ar 29 Mai yn y Gynhadledd Pobl Ifanc/STORM ym Mrwsel. Mynychodd Andrew Davies Gynhadledd E-Mobility 2001 yn Gothenburg a bu Mike German yng Nghanaada a Brwsel yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf.

Mae'n bosibl ichi ofyn cwestiynau am yr ymweliadau hyn yn y Pwyllgorau Pwnc neu i aelodau unigol y Cabinet yn ystod cwestiynau'r Cynulliad. Yr wyf yn sicr y byddent yn fwy na pharod i lenwi'r bylchau hynny i'ch helpu i ddileu unrhyw sinigiaeth ar strydoedd Trefynwy.

Dafydd Wigley: Do you accept that, in local government and quangos in Wales, one consistent complaint and concern over the years has been the possibility that officers are going on junkets abroad or to conferences at the taxpayers' expense? In such circumstances, is it not our responsibility as an Assembly, and yours as First Minister, to ensure a transparent procedure and clear accountability, which is scrutinised to ensure that every penny spent on these trips is of benefit to Wales?

The First Minister: I am sure, Dafydd, that you would not be happy to serve in an Assembly where no Minister had the right to go abroad to serve and represent Wales at conferences or in meetings of the Council of Ministers of the European Union. If Wales were an independent country it would have a permanent seat in the United Nations in New York, with a glass of water and a piece of plastic with 'Wales' on the front. The same would be true of the Council of Ministers. There would also be 10 times as many Ministers abroad all the time representing Wales, and an embassy in every important country in the world. Therefore, I do not understand the purpose of your question, apart from gaining a few cheap votes on a day that will soon be upon us.

ddiwrnod sydd i ddod cyn bo hir.

Alun Cairns: If there are no reports in Cabinet minutes about these visits abroad, how do you reassure yourself that, when Ministers travel abroad, they are on Assembly business, and not travelling to Vienna or wherever else? [ASSEMBLY MEMBERS: 'You went to Bermuda.']

The First Minister: That is another failed and cheap attempt at a smear. You have been on a few trips, I believe, Alun. You were proposing to accompany the Deputy First Minister and Minister for Economic Development to the cohesion forum—and were happy to do so until you changed your mind late on; you will have to explain to us why you did that. I do not think that you have any objections to overseas travel in principle. Pauline's earlier point was not that there were no reports from these visits, but that she had not seen any formal reporting to the Cabinet in Cabinet minutes. That does not mean that reports are not made to me and to fellow Cabinet members. They are made, but they are not recorded in Cabinet minutes. That was Pauline's point. You obviously did not notice the importance of what she was saying.

The Presiding Officer: Question 8 has been withdrawn.

Alun Cairns: Os na cheir adroddiadau yng nghofnodion y Cabinet am yr ymweliadau hyn dramor, sut y gallwch sicrhau eich hun, pan fydd Gweinidogion yn teithio dramor, eu bod ar fusnes y Cynulliad, ac nid yn teithio i Fienna neu rywle arall? [AELODAU'R CYNULLIAD: 'Fe aethoch chi i Fermwda.']

Prif Weinidog Cymru: Dyna ymdrech aflwyddiannus a rhad arall i ddifenwi. Buoch chi ar rai teithiau, mi gredaf, Alun. Yr oeddech yn bwriadu mynd gyda Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd i'r fforwm cydlyniant—ac yn barod i wneud hynny tan ichi newid eich meddwl yn hwyr yn y dydd; bydd yn rhaid ichi esbonio inni pam y gwnaethoch hynny. Ni chredaf eich bod yn gwrthwynebu'r egwyddor o deithio dramor. Nid oedd pwynt cynharach Pauline yn sôn am y ffaith na chafwyd unrhyw adroddiadau o'r ymweliadau hyn, ond nad oedd wedi gweld unrhyw adroddiadau ffurfiol i'r Cabinet yng nghofnodion y Cabinet. Nid yw hynny'n golygu na chyflwynir adroddiadau i mi a chyd-Aelodau'r Cabinet. Cânt eu gwneud, ond ni chânt eu cofnodi yng nghofnodion y Cabinet. Dyna oedd pwynt Pauline. Mae'n amlwg na wnaethoch sylwi ar bwysigrwydd yr hyn yr oedd yn ei ddweud.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 8 yn ôl.

Cynrychiolaeth Cymru yn Senedd Ewrop Representation of Wales in the European Parliament

Q9 Phil Williams: What steps has the First Minister taken to ensure that in any debate on the formation of a second chamber of the European Parliament, the case for direct representation of Wales will be made? (OAQ11800)

The First Minister: That decision will be made at the right time, which is probably in about two years' time, about a year before the inter-governmental conference in spring 2004. A lively debate is going on in Europe about this at present. This has been commenced, to some extent, by the Prime Minister, Tony Blair, when he made his speech about this idea to the Warsaw stock

C9 Phil Williams: Pa gamau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cymryd i sicrhau yr eir i'r afael â'r achos dros gynrychiolaeth uniongyrchol o Gymru mewn unrhyw drafodaeth ar ffurfio ail siambr Senedd Ewrop? (OAQ11800)

Prif Weinidog Cymru: Gwneir y penderfyniad hwnnw ar yr adeg gywir, sef mae'n debyg mewn tua dwy flynedd, tua blwyddyn cyn y gynhadledd rynglywodraethol yng ngwanwyn 2004. Mae dadl fywiog yn mynd yn ei blaen yn Ewrop ynghylch hyn ar hyn o bryd. Dechreuwyd hyn, i ryw raddau, gan y Prif Weinidog, Tony Blair, pan wnaeth ei araith am y syniad hwn i

exchange—a wonderful turn of phrase—in October 2000. However, other countries have different views. Regarding the Welsh contribution, we would want to ensure that that would be initiated by the Cabinet. I would then report to the Assembly. If the Assembly agrees with the Cabinet's view, we would want to ensure that that view was pressed into the UK view ready for spring 2004, and also horizontally with our Scots and Northern Ireland opposite numbers, as well as with other big time regional tier players, such as the governments of Catalunya and Baden-Württemberg, and so on. We would thus ensure that we are able to get our view across to all the other regional tier governments of Europe in that run-up period, which will be, roughly, from autumn 2003 to spring 2004.

Phil Williams: Do you understand my disappointment with that answer? I asked why Wales, unlike Scotland, was not included in the list of regional governments, which, in an important statement issued in Brussels on 28 May, made the case for involvement in the preparations for the inter-governmental conference that will discuss possible revisions of the constitution. Does Wales's absence on this important initiative mean that you have missed the first opportunity to put the case for Wales?

The First Minister: You are two years premature. I am not sure to what body you refer. You may be referring to the body led by the prime minister of one of the Belgian regions. However, until you give me the precise details, I cannot say. You may wish to supply me with that list.

The only reason that I can think of why we may not have been invited to a conference is that there is concern among some European regions about the extent of the Assembly's legislative competence, in comparison with the Scottish Parliament. They may believe that, without primary legislative powers, Wales should not be included. The attitude at the conference in Barcelona that I attended last year was that there may be doubts about the Assembly's legislative competence, but that its overall power—when you consider budgetary, as well as legislative,

gyfnewidfa stoc Warsaw—ymadrodd ardderchog—ym mis Hydref 2000. Fodd bynnag, mae gan wledydd eraill farn wahanol. O ran y cyfraniad Cymreig, byddem am sicrhau y cychwynnwyd ar hynny gan y Cabinet. Byddwn wedyn yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad. Os bydd y Cynulliad yn cytuno â barn y Cabinet, byddem am sicrhau y daw'r farn honno yn rhan o farn y DU yn barod ar gyfer gwanwyn 2004, a hefyd gyda'n cyfoedion yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn ogystal â chwaraewyr haen ranbarthol pwysig eraill, fel llywodraethau Catalunya a Baden-Württemberg, ac ati. Byddem felly yn sicrhau ein bod yn gallu cyfleu ein barn i holl lywodraethau haen ranbarthol eraill Ewrop yn y cyfnod sydd yn arwain at hynny, yn fras o hydref 2003 i wanwyn 2004.

Phil Williams: A ydych yn deall fy siom â'r ateb hwnnw? Gofynnais pam na chafodd Cymru, yn wahanol i'r Alban, ei chynnwys ar y rhestr o lywodraethau rhanbarthol, a gyflwynodd achos, mewn datganiad pwysig a gyhoeddwyd ym Mrwsel ar 28 Mai, i gael ei chynnwys yn y paratoadau ar gyfer y gynhadledd ryng-lywodraethol fydd yn trafod adolygiadau posibl o'r cyfansoddiad. A yw absenoldeb Cymru ar y fenter bwysig hon yn golygu eich bod wedi colli'r cyfle cyntaf i gyflwyno'r achos dros Gymru?

Prif Weinidog Cymru: Yr ydych ddwy flynedd o flaen eich amser. Nid wyf yn sicr at ba gorff yr ydych yn cyfeirio. Gallech fod yn cyfeirio at y corff a arweiniwyd gan brif weinidog un o ranbarthau Gwlad Belg. Fodd bynnag, tan ichi roi'r union fanylion imi, ni allaf ddweud. Efallai yr hoffech roi'r rhestr honno i mi.

Yr unig reswm y gallaf feddwl amdano pam na chawsom ein gwahodd i gynhadledd yw bod pryder ymysg rhai rhanbarthau Ewropeaidd a allu deddfwriaethol y Cynulliad, o gymharu â Senedd yr Alban. Efallai eu bod yn credu, heb bwerau deddfwriaethol sylfaenol, na ddylid cynnwys Cymru. Yr agwedd yn y gynhadledd yn Barcelona a fynychais y llynedd oedd y gallai fod amheuan am allu deddfwriaethol y Cynulliad, ond bod ei bŵer cyffredinol—pan ystyriwch allu cyllidebol, yn ogystal â deddfwriaethol—yn gwneud Cymru'n

competence—makes Wales a big time player, whatever the technicalities about legislative competence. There was no proposal then to omit Wales, but there may be another relevant area of which we are not aware and, therefore, we may be missing an opportunity. There are still two years to go before you need to put a view to the Assembly, ask for its approval of that view and ensure that it goes horizontally to the other regional tier players and upwards to the UK Government.

chwaraewr pwysig, beth bynnag fo'r manylion am allu deddfwriaethol. Ni chafwyd cynnig bryd hynny i hepgor Cymru, ond efallai fod maes perthnasol arall nad ydym yn ymwybodol ohono ac, felly, efallai ein bod yn colli cyfle. Mae dwy flynedd i fynd o hyd cyn bod angen ichi roi barn i'r Cynulliad, gofyn iddo gymeradwyo'r farn honno a sicrhau ei bod yn mynd ar draws i'r chwaraewyr haen ranbarthol eraill ac i fyny i Lywodraeth y DU.

Perthynas y Cynulliad â'r Undeb Ewropeaidd The Assembly's Relationship with the European Union

Q11 David Davies: Will the First Minister make a statement on the Assembly's relationship with the European Union? (OAQ11743)

C11 David Davies: A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar berthynas y Cynulliad a'r Undeb Ewropeaidd? (OAQ11743)

The First Minister: The Assembly's relationship with the European Union continues to develop within the overall framework provided by the UK Government's membership of the EU and the provisions of the concordat on co-ordination of European Union policy issues agreed between the Assembly and the UK Government. The Assembly is consulted on, and has an input to, UK policy development on issues relating to the EU, and participates directly—now more than previously—through the attendance of Assembly Cabinet Ministers at Council of Ministers meetings. During the last four weeks, as no UK Government Ministers have been available to attend Council of Ministers meetings, Scottish and Welsh Ministers have been asked to attend in their place to represent the UK.

Prif Weinidog Cymru: Mae perthynas y Cynulliad â'r Undeb Ewropeaidd yn parhau i ddatblygu o fewn y fframwaith cyffredinol a ddarperir gan aelodaeth Llywodraeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd a darpariaethau'r cytundeb ar gydlynu materion polisïau'r Undeb Ewropeaidd y cytunwyd arnynt gan y Cynulliad a Llywodraeth y DU. Ymgynghorir â'r Cynulliad, a chaiff fewnbnw i ddatblygu polisïau'r DU ar faterion yn ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd, ac mae'n cymryd rhan uniongyrchol—yn awr yn fwy nag o'r blaen—drwy bresenoldeb Gweinidogion Cabinet y Cynulliad mewn cyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion. Yn ystod y pedair wythnos ddiwethaf, gan nad oedd unrhyw Weinidogion o Lywodraeth y DU ar gael i fynychu cyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion, gofynnwyd i Weinidogion o Gymru a'r Alban fynychu yn eu lle i gynrychioli'r DU.

David Davies: Does the First Minister agree that that relationship will inevitably decline as a result of the decision taken in Brussels and, sadly, supported by Labour in Westminster, to prevent people in Wales and in the rest of Britain from displaying *y ddraig goch* or the union jack on their car number plates?

David Davies: A gytuna'r Prif Weinidog y bydd y berthynas honno'n dirywio'n anochel o ganlyniad i'r penderfyniad a wnaethpwyd ym Mrwsel ac, yn anffodus, a gefnogwyd gan Lafur yn San Steffan, i atal pobl yng Nghymru a gweddill Prydain rhag arddangos y ddraig goch neu jac yr undeb ar blât rhifau eu ceir?

The First Minister: That decision on car number plates was regrettable. We were not properly consulted on it. There is dispute as to why that happened, but that decision does

Prif Weinidog Cymru: Yr oedd y penderfyniad hwnnw ar blatiau rhifau ceir yn anffodus. Nid ymgynghorwyd yn briodol â ni. Ceir anghytundeb ar pam y digwyddodd

not prevent you from displaying *y ddraig goch* on your car. It relates only to the formal GB slogan that you display when travelling abroad. The informal use of *y ddraig goch* slogans, 'Cym' for *Cymru* or anything else that you want to display is not discouraged.

hynny, ond nid yw'r penderfyniad hwnnw yn eich atal rhag arddangos y ddraig goch ar eich car. Mae ond yn ymwneud â slogan ffurfiol Prydain Fawr y byddwch yn ei arddangos wrth deithio dramor. Nid anogir peidio â defnyddio sloganau'r ddraig goch, 'Cym' ar gyfer Cymru nag unrhyw beth arall yr hoffech ei arddangos.

Mick Bates: Good relations mean a two-way communication process. What steps have you taken to ensure that the Assembly's views on keeping Wales free from genetically modified crops are taken to the heart of Europe?

Mick Bates: Mae perthynas dda yn golygu proses gyfathrebu ddwy ffordd. Pa gamau a gymerwyd gennych i sicrhau y caiff safbwyntiau'r Cynulliad ar gadw Cymru'n rhydd o gnydau a addaswyd yn enetig eu dwyn i galon Ewrop?

The First Minister: There is no question that we have made major strides in this area. It is because of the initiative taken by Carwyn Jones, our Minister for Rural Affairs, in this regard that the Assembly's view will be taken to the heart of Europe. The key issue of analysing the safe distance between an organic farm and a GM farm, or a farm that is proposing to plant a GM crop, has been put on the European agenda by the Assembly, its administration and Carwyn Jones. I am proud of that and we should all share in that pride.

Prif Weinidog Cymru: Heb os, yr ydym wedi cymryd camau breision yn y maes hwn. Oherwydd blaengaredd Carwyn Jones, ein Gweinidog dros Faterion Gwledig, yn yr achos hwn, eir â barn y Cynulliad i galon Ewrop. Rhoddwyd y mater allweddol o ddadansoddi'r pellter diogel rhwng fferm organig a fferm addasu genetig, neu fferm sydd yn bwriadu plannu cnwd a addaswyd yn enetig, ar yr agenda Ewropeaidd gan y Cynulliad, ei weinyddiaeth a Carwyn Jones. Yr wyf yn falch o hynny a dylem oll rannu'r balchder hwnnw.

Rhodri Glyn Thomas: Yng nghyd-destun yr ymgynghoriad cyfredol ynglŷn â datblygiadau a newidiadau yn Ewrop, fe gofiwch i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd fynegi dymuniad i Gymru gael mewnbwn cynhwysfawr i'r trafodaethau hynny. Pa gamau a gymerwyd i sicrhau hynny?

Rhodri Glyn Thomas: In the context of the current consultation regarding development and change in Europe, you will remember that the Committee on European Affairs expressed a wish for Wales to have a comprehensive input to those discussions. What steps have been taken to secure that?

Prif Weinidog Cymru: Nid oes unrhyw beth i'n rhwystro rhag cael mewnbwn. Yr ydym eisoes wedi cael mewnbwn drwy fy nghyfraniad i i gyfarfodydd Cydbwyllgor y Gweinidogion. Mae ein sylwadau a'n safiad a'r hyn sydd o les i Gymru—weithiau mae'r hyn sydd o les i Gymru yn wahanol i'r hyn sydd o les i Brydain Fawr yn y darlun ehangach—wedi eu rhoi gerbron Cydbwyllgor y Gweinidogion. Byddwn yn parhau i wneud hynny tra bo'r mater hwn ar yr agenda.

The First Minister: There is nothing to prevent us from having an input. We have already had an input through my contribution to the Joint Ministerial Committee meetings. Our views and stance and what is of benefit to Wales—what is of benefit to Wales differs occasionally from what is of benefit to Great Britain in the bigger picture—have been presented to the Joint Ministerial Committee. We will continue to do that while this issue is on the agenda.

O ran cyfarfodydd, gobeithiwn y bydd Llywydd yr Undeb Ewropeaidd yn dod i Gymru ac y byddwn yn gallu cynnal

On meetings, we hope that the President of the European Union will come to Wales and that we will be able to have direct discussions

trafodaeth uniongyrchol gydag ef o fewn y flwyddyn. with him in the next year.

The Presiding Officer: Question 12 has been withdrawn. **Y Llywydd:** Tynnwyd Cwestiwn 12 yn ôl.

Llywodraeth Agored Open Government

C13 Cynog Dafis: Beth y mae Prif Weinidog Cymru wedi'i wneud er mwyn cyflawni ei ymrwymiad i sefydlu Llywodraeth agored a hygyrch? (OAQ11792)

Q13 Cynog Dafis: What has the First Minister done to fulfil his commitment to establish an open and accessible Government? (OAQ11792)

2:30 p.m.

Prif Weinidog Cymru: Ar 8 Mai 2001—bedair wythnos yn ôl i heddiw a bod yn fanwl—mabwysiadodd y Cynulliad y gwelliannau i'r cod rhyddid gwybodaeth gwreiddiol a gynigiais gerbron y Cynulliad. Yr oeddwn yn falch o gael cefnogaeth y pedair plaid a gynrychiolir yn y Cynulliad ar y diwrnod hanesyddol hwnnw bedair wythnos yn ôl. Mae'r cod yn gosod yr egwyddorion sydd yn dangos fy ymrwymiad personol fel Prif Weinidog, ymrwymiad y Cabinet a chefnogaeth y Cynulliad i gyd, i hyrwyddo llywodraeth agored.

The First Minister: On 8 May 2001—four weeks ago to the day to be exact—the Assembly adopted the amendments to the original freedom of information code, which I had proposed to the Assembly. I was pleased to receive cross-party support from the four parties represented in the Assembly on that historic day four weeks ago. The code establishes the principles, which demonstrate my personal commitment as First Minister, the commitment of the Cabinet and the support of the whole Assembly, to promoting open government.

Cynog Dafis: Da yw hynny. Mae'r llyfr nodiadau enwog a ddaeth i'n dwylo ni—llyfr nodiadau ymgynghorydd arbenigol—yn datgan bod y Cabinet Llafur yn cwrdd cyn cyfarfodydd Cabinet y glymblaid. Gan fod yr Aelodau Llafur yn fwyafrif yn y Cabinet arall, mae'r penderfyniadau a gymerir yn y Cabinet Llafur siŵr o fod yn ddylanwadol ac o ddiddordeb i'r cyhoedd. A fydddech yn fodlon trefnu bod cofnodion cyfarfodydd y Cabinet Llafur yn cael eu cyhoeddi?

Cynog Dafis: That is good. The infamous notebook that fell into our hands—the notebook of a special adviser—states that the Labour Cabinet meets prior to the meetings of the coalition Cabinet. As the Labour Members are a majority in the other Cabinet, the decisions taken in the Labour Cabinet are probably influential and of interest to the public. Are you willing to arrange for the minutes of the Labour Cabinet's meetings to be published?

Prif Weinidog Cymru: Un cyfarfod o'r fath a fu, a hwnnw ar gychwyn ymgyrch yr etholiad cyffredinol. Ni chafwyd cofnod swyddogol gan nad oedd yn gyfarfod swyddogol y Cabinet, neu is-bwyllgor y Cabinet. Byddai'n afresymol disgwyl cyhoeddi cofnodion yn y fath gyd-destun.

The First Minister: There was only one such meeting, at the beginning of the general election campaign. There were no official minutes since it was not an official Cabinet meeting, nor a Cabinet sub-committee. It would be unreasonable to expect the publication of the minutes in that context.

William Graham: First Minister, will you direct—and if not, why not—the attention of local authorities in Wales to the Audit Commission's publication, 'Councils' Accounts: Your Rights'?

William Graham: Brif Weinidog, a wnewch chi dynnu sylw'r awdurdodau lleol yng Nghymru at gyhoeddiad y Comisiwn Archwilio, 'Cyfrifon Cynghorau: Eich Hawliau', ac os na wnewch chi, pam hynny?

The First Minister: I am unaware of its content, therefore I cannot say whether or not I would direct it to the attention of local authorities. It sounds a perfectly reasonable document to me, but I am unsure how access to this document is currently being denied. If you would write to me, saying how you would like the document further promoted, I would give it favourable consideration.

Prif Weinidog Cymru: Nid wyf yn ymwybodol o'i gynnwys, felly ni allaf ddweud a fyddwn yn tynnu sylw awdurdodau lleol ato ai peidio. Mae'n swnio fel dogfen hollol resymol i mi, ond nid wyf yn sicr sut y gwrthodir i bobl gael gafael ar y ddogfen hon ar hyn o bryd. Os hoffech ysgrifennu ataf, gan ddweud sut yr hoffech i'r ddogfen hon gael ei hyrwyddo ymhellach, byddwn yn ei ystyried yn deg.

Y Cytundeb Partneriaeth (Cyflawni'r Amcanion) Partnership Agreement (Meeting Objectives)

Q14 John Griffiths: Will the First Minister make a statement on the progress made in meeting the objectives set out in the partnership agreement? (OAQ11831)

C14 John Griffiths: A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar gynnydd y gwaith o gyflawni'r amcanion a bennwyd yn y cytundeb partneriaeth? (OAQ11831)

The First Minister: A statement on the progress of the partnership agreement commitments was made to Plenary on 20 March 2001. I am pleased to say that since then, we have introduced free dental checks and prescriptions for young people under the age of 25.

Prif Weinidog Cymru: Gwnaed datganiad ar ddatblygiadau ymrwymadau'r cytundeb partneriaeth i'r Cyfarfod Llawn ar 20 Mawrth 2001. Mae'n bleser gennyf ddweud ein bod, ers hynny, wedi cyflwyno archwiliadau deintyddol a phresgripsiynau am ddim i bobl ifanc o dan 25 oed.

John Griffiths: Do you agree with me, Rhodri, that the standing of the Assembly in Wales has increased markedly in recent times as a result of the partnership agreement? One policy that has particularly captured the imagination of the people of Wales is free entry to the National Museums and Galleries of Wales, which has had a tremendous impact.

John Griffiths: A gytunwch â mi, Rhodri, fod sefyllfa'r Cynulliad yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol yn ddiweddar o ganlyniad i'r cytundeb partneriaeth? Un polisi a daniodd ddychymyg pobl Cymru yn arbennig yw mynediad am ddim i Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, a gafodd effaith enfawr.

The First Minister: I agree with you. Free access to the eight sites of the National Museums and Galleries of Wales, stretching from Caernarfon to Cardiff, via Blaenavon, has probably had a huge impact in terms of the immediate perception of the Assembly's ability. It has helped to refloat the Welsh tourism industry during an incredibly difficult time, due to the foot and mouth disease. We are also around seven months ahead of England, since I believe that England is introducing free access to museums on 1 December. We did so on 1 April.

Prif Weinidog Cymru: Cytunaf â chi. Mae mynediad am ddim i wyth safle Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, yn ymestyn o Gaernarfon i Gaerdydd, a thrwy Flaenafon, fwy na thebyg wedi cael effaith anferth o ran canfyddiad uniongyrchol o allu'r Cynulliad. Mae wedi helpu i ailryddhau diwydiant twristiaeth Cymru yn ystod cyfnod anodd iawn, oherwydd clwy'r traed a'r genau. Yr ydym hefyd tua saith mis o flaen Lloegr, oherwydd credaf fod Lloegr yn cyflwyno mynediad am ddim i amgueddfeydd ar 1 Rhagfyr. Gwnaethom ni hynny ar 1 Ebrill.

I would not say that that policy stands alone in its impact. It depends on the condition of

Ni ddywedwn fod y polisi hwnnw'n unigryw o ran ei effaith. Mae'n dibynnu ar ansawdd y

life that you have. If you are recovering from an operation, then you will be interested in the six weeks of free home care. If you are a child in a children's home, it will probably be the Children's Commissioner Bill. The setting up of Finance Wales will be of most interest if you run a small or medium-sized enterprise. The Objective 1 roll-out has reached 16 per cent and remains miles ahead of the three Objective 1 areas in England. Likewise, free school milk for five to seven year-olds will be considered our best policy if you are five, six, or seven years' old, or a parent.

Owen John Thomas: Yn sgîl beirmiadaeth lem o bolisi eich plaid yn ddiweddar gan rai Democratiaid Rhyddfrydol dauwynebog, faint o wir ystyr sydd i'r bartneriaeth?

Prif Weinidog Cymru: Nid oes problem o gwbl. Credaf eich bod wedi drysu, Owen John, rhwng yr etholiad cyffredinol y tu allan i'r Cynulliad, a pholisiau'r Cabinet sydd wedi'u seilio ar bartneriaeth y tu mewn i'r Cynulliad. Y mae'n bwysig ceisio cofio nad ydym yn gyfrifol am ddigwyddiadau y tu allan i'r Cynulliad. Ceir ffraeo, ymgyrchu, a phleidiau yn ymgyrchu yn erbyn ei gilydd am amryw seddau. Fodd bynnag, nid oes problem yn y Cynulliad. Mae'r Llywodraeth bartneriaeth yn parhau yn unedig.

Glyn Davies: The partnership agreement refers to the abolition of tuition fees. The way that it was used to launch the Lib/Lab partnership seemed a bit of a fudge. Will you, as John Griffiths put it, try to capture the imagination of the people of Wales and show some leadership by making a commitment to abolish tuition fees?

The First Minister: That would be an absurd proposition to entertain today. The independent commission that we set up to make recommendations will publish its recommendations on 14 June. What is the point of setting up an independent commission if eight or nine days before it reports, you take the matter out of its hands? That suggests that the commission need not have bothered to do its work. I have no idea

bywyd sydd gennych. Os ydych yn gwella yn dilyn llawdriniaeth, yna bydd gennych ddiddordeb mewn cael chwe wythnos o ofal cartref am ddim. Os ydych yn blentyn mewn cartref i blant, mae'n debyg mai ym Mesur y Comisiynydd Plant y bydd gennych ddiddordeb. Sefydlu Cyllid Cymru fydd o ddiddordeb mwyaf os ydych yn rhedeg busnes bach neu ganolig ei faint. Mae cyflwyno Amcan 1 wedi cyrraedd 16 y cant ac mae'n parhau i fod filltiroedd o flaen y tair ardal Amcan 1 yn Lloegr. Yn yr un modd, byddwch yn ystyried mai llaeth am ddim yn yr ysgol i blant pump i saith oed yw ein polisi gorau os ydych yn blentyn pum, chwe, neu saith mlwydd oed, neu'n rhiant.

Owen John Thomas: In light of recent harsh criticism of your party's policy from some two-faced Liberal Democrats, how meaningful is your partnership?

The First Minister: There is no problem at all. I believe that you are confusing, Owen John, the general election outside this Assembly, and the Cabinet policies that are based on the partnership within the Assembly. It is important to try to remember that we are not responsible for what goes on outside the Assembly. There is arguing, campaigning and parties campaigning against each other for numerous seats. However, there is no problem in the Assembly. The partnership Government remains unified.

Glyn Davies: Mae'r cytundeb partneriaeth yn cyfeirio at ddileu ffioedd hyfforddi. Ymddengys bod y ffordd y defnyddiwyd hynny i lansio partneriaeth y Democratiaid Rhyddfrydol a Llafur yn dipyn o lanestr. A wnewch chi geisio, yng ngeiriau John Griffiths, danio dychymyg pobl Cymru a dangos arweiniad drwy wneud ymrwymiad i ddileu ffioedd hyfforddi?

Prif Weinidog Cymru: Byddai hynny'n gynnig hurt i'w ystyried heddiw. Bydd y comisiwn annibynnol a sefydlwyd gennym i gyflwyno argymhellion yn cyhoeddi ei argymhellion ar 14 Mehefin. Beth yw diben sefydlu comisiwn annibynnol os byddwch yn cymryd y mater oddi wrtho wyth neu naw diwrnod cyn iddo gyflwyno ei adroddiad? Awgryma hynny na ddylai'r comisiwn fod wedi trafferthu gwneud ei waith. Nid oes

what is contained in its recommendations. The commission closely guards them and you will be notified when those recommendations are published to Jane Davidson and other members of the Cabinet and the Assembly. That timetable was agreed with Cynog Dafis as Chair of the Education and Lifelong Learning Committee. The Committee also has rights in this matter. Teresa Rees, the Chair of the commission has agreed that revised timetable with Cynog. I would have thought that you could contain your patience on this matter for a few more days.

gennyf syniad beth gaiff ei gynnwys yn ei argymhellion. Mae'r comisiwn yn eu gwarchod yn fanwl a rhoddir gwybod ichi pan gyhoeddir yr argymhellion hynny i Jane Davidson ac aelodau eraill y Cabinet a'r Cynulliad. Cytunwyd ar yr amserlen honno gyda Cynog Davies fel Cadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Mae gan y Pwyllgor hefyd hawliau yn y mater hwn. Cytunodd Teresa Rees, Cadeirydd y comisiwn ar yr amserlen ddiwygiedig honno gyda Cynog. Byddwn wedi meddwl y gallech fod yn amyneddgar ynghylch y mater hwn am ychydig ddyddiau eto.

Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

Questions to the Deputy First Minister and Minister for Economic Development

Cysylltiad Awdurdod Datblygu Cymru â'r Gwaith Adfywio ym Mhorthcawl Welsh Development Agency's Involvement in Regeneration of Porthcawl

Q1 Peter Black: What discussions has the Minister had with Bridgend County Borough Council regarding the Welsh Development Agency's involvement in the regeneration of Porthcawl? (OAQ11738)

C1 Peter Black: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o safbwynt cysylltiad Awdurdod Datblygu Cymru â'r gwaith adfywio ym Mhorthcawl? (OAQ11738)

The Deputy First Minister and Minister for Economic Development (Michael German): To date, I have had no discussions with Bridgend County Borough Council. However, during a recent Plenary debate about the Welsh Development Agency, I accepted your invitation to visit Porthcawl and meet with the key players involved in the town's regeneration. I fully support the efforts to regenerate Porthcawl. However, I am aware that local residents and members of the council are concerned about that regeneration. I look forward to hearing those concerns when I visit the town.

Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Michael German): Hyd yma, nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Fodd bynnag, yn ystod dadl mewn Cyfarfod Llawn diweddar ar Awdurdod Datblygu Cymru, derbyniais eich gwahoddiad i ymweld â Phorthcawl a chwrdd â'r bobl allweddol sydd ynghlwm â'r gwaith adfywio yn y dref. Cefnogaf yr ymdrechion i adfywio Porthcawl yn llawn. Fodd bynnag, yr wyf yn ymwybodol bod trigolion lleol ac aelodau'r cyngor yn pryderu am y gwaith adfywio hwnnw. Edrychaf ymlaen at glywed y pryderon hynny pan ymwelaf â'r dref.

Peter Black: I am pleased that you have made the commitment to visit Porthcawl. Do you accept that the residents of Porthcawl are concerned about the democratic deficit of Bridgend County Borough Council selling land to the WDA and the fact that the accountability of this scheme will be lacking because of that?

Peter Black: Yr wyf yn falch eich bod wedi gwneud yr ymrwymiad i ymweld â Phorthcawl. A dderbyniwch fod trigolion Porthcawl yn pryderu am ddiffyg democrataidd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gwerthu tir i'r WDA a'r ffaith y bydd diffyg yn atebolrwydd y cynllun hwn oherwydd hynny?

Michael German: It is important that local communities feel comfortable with decisions that have been taken about their areas. The aim of my visit is to try to alleviate any fears that the community may have by ensuring that there is constructive dialogue and that the facts are laid before everyone so that we can understand their position.

David Lloyd: Pa fesurau penodol y mae'r Gweindog wedi'u trafod gyda'r WDA o ran sicrhau adfywiad trefol mewn ardaloedd Amcan 1, megis Porthcawl?

Michael German: A general dialogue between the WDA and myself continues. It is important that the WDA is seen as a key player in ensuring urban regeneration. That is particularly the case in areas that have suffered from Corus's decision to axe many of their employees' jobs. However, each case must be considered on its merit and must fit in to the local strategies that exist in each area. Fitting those together with local community interests is predominantly important. I want to ensure that that happens wherever the WDA is involved.

Alun Cairns: There is concern in Porthcawl that the transfer of assets from Bridgend County Borough Council to the WDA is making the consultation process more remote. What representation will you make to the WDA to ensure that active consultation takes place with key interested parties, such as the residents association, chambers of trade and so on in relation to the redevelopment of Porthcawl and that the redevelopment suits the needs of the people of Porthcawl? Furthermore, what discussions have you had with the leader of Bridgend County Borough Council to ensure that the WDA and the council are working to the best benefit of the people of Porthcawl?

2:40 p.m.

Michael German: I indicated in my answer to Peter Black that I have had no discussions with Bridgend County Borough Council. However, to ensure that I understand the situation before issuing any views to the

Michael German: Mae'n bwysig bod cymunedau lleol yn teimlo'n gyfforddus â phenderfyniadau a wnaethpwyd ynghylch eu hardaloedd. Nod fy ymweliad yw ceisio lleddfu unrhyw ofnau a allai fod gan y gymuned drwy sicrhau y ceir dialog adeiladol ac y caiff y ffeithiau eu gosod gerbron pawb fel y gallwn ddeall eu sefyllfa.

David Lloyd: What specific measures has the Minister discussed with the WDA in terms of ensuring urban regeneration in Objective 1 areas, such as Porthcawl?

Michael German: Mae deialog gyffredinol yn parhau rhwng y WDA a minnau. Mae'n bwysig y gwelir y WDA fel chwaraewr allweddol wrth sicrhau adfywiad trefol. Mae hynny'n arbennig o berthnasol mewn ardaloedd sydd wedi dioddef yn sgîl penderfyniad Corus i ddileu llawer o swyddi eu gweithwyr. Fodd bynnag, rhaid ystyried pob achos yn unigol a rhaid iddynt gyfateb â'r strategaethau lleol sydd yn bodoli ym mhob ardal. Mae cyfateb y rhain â buddiannau cymunedau lleol yn hynod bwysig. Yr wyf am sicrhau bod hynny'n digwydd lle bynnag y mae'r WDA yn cymryd rhan.

Alun Cairns: Ceir pryder ym Mhorthcawl bod trosglwyddo asedau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'r WDA yn gwneud y broses ymgynghori yn un fwy ynysig. Pa sylwadau a wnewch i'r WDA i sicrhau y cynhelir ymgynghoriad gweithredol â phartïon allweddol â diddordeb, megis cymdeithas y trigolion, y siambrau masnach ac ati mewn perthynas ag ailddatblygu Porthcawl, a bod yr ailddatblygu yn cyd-fynd ag anghenion pobl Porthcawl? At hynny, pa drafodaethau a gawsoch ag arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i sicrhau bod y WDA a'r cyngor yn gweithio er lles gorau pobl Porthcawl?

Michael German: Nodais yn fy ateb i Peter Black na chefais unrhyw drafodaethau â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau fy mod yn deall y sefyllfa cyn cyhoeddi unrhyw farn

WDA, it is important that I know what the local community feels. I will do that.

i'r WDA, mae'n bwysig fy mod yn gwybod beth yw teimladau'r gymuned leol. Gwnaf hynny.

Datblygu Economaidd ym Mae Caerdydd Economic Development in Cardiff Bay

Q2 David Melding: Will the Minister make a statement on opportunities for economic development in Cardiff Bay? (OAQ11741)

C2 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyfleoedd ar gyfer datblygu economaidd ym Mae Caerdydd? (OAQ11741)

Michael German: As the Cardiff Bay Development Corporation was dissolved on 1 April 2000, responsibility for taking forward the regeneration of its former area has now passed to successor bodies, namely the relevant local authorities and the Welsh Development Agency. The Assembly is providing funding to successor bodies to enable them to discharge their functions and obligations in this regard. Cardiff City and County Council's proposals for future development of the Bay are set out in the Harbour Authority's business plan that will be published next month.

Michael German: Oherwydd bod Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd wedi cael ei diddymu ar 1 Ebrill 2000, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros ddatblygu'r gwaith o adfywio yr ardal bellach i gyrff olynol, sef yr awdurdodau lleol perthnasol ac Awdurdod Datblygu Cymru. Mae'r Cynulliad yn darparu arian i gyrff olynol i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau a'u rhwymedigaethau yn hyn o beth. Nodir cynigion Cyngor Dinas a Sir Caerdydd ar gyfer datblygu'r Bae yn y dyfodol yng nghynllun busnes yr Awdurdod Harbwr a gyhoeddir fis nesaf.

David Melding: Does the Minister agree with the Lord Mayor of Cardiff and myself that the future of Cardiff Bay rests largely on building an eastern distributor road so that we can take advantage of the opportunities for economic development?

David Melding: A gytuna'r Gweinidog ag Arglwydd Faer Caerdydd a minnau bod dyfodol Bae Caerdydd yn dibynnu'n bennaf ar adeiladu ffordd ddosbarthu ddwyreiniol er mwyn inni allu manteisio ar y cyfleoedd ar gyfer datblygu economaidd?

Michael German: Transport and highways are matters for the Minister for Environment and I will ensure that she knows about your views.

Michael German: Mater i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd yw trafnidiaeth a phriffyrdd a byddaf yn sicrhau ei bod yn cael gwybod am eich barn.

Owen John Thomas: Cardiff council seem to be in a rush to develop many housing sites in the Bay without due consideration to the overall needs of the area. Residents and the business community are concerned. I am pleased to see that my local authority is making money, but is it ethical for the local council to determine planning applications in the Bay where it stands to gain as landowner?

Owen John Thomas: Ymddengys fod cyngor Caerdydd ar frys i ddatblygu sawl safle tai yn y Bae heb roi ystyriaeth haeddiannol i anghenion cyffredinol yr ardal. Mae'r trigolion a'r gymuned fusnes yn bryderus. Yr wyf yn falch o weld bod fy awdurdod lleol yn gwneud arian, ond a yw'n foesegol i'r cyngor lleol bennu ceisiadau cynllunio yn y Bae mewn achosion lle y gall fod ar ei ennill fel tirlfeddiannwr?

Michael German: Planning policy is a matter for the Minister for Environment and I will pass your views to her. However I have

Michael German: Mater i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd yw polisi cynllunio a byddaf yn trosglwyddo eich sylwadau iddi hi. Fodd

raised the issue of where the responsibility for making these decisions lies. You are right to say that that responsibility now lies with Cardiff City and County Council. Its responsibility was passed in the section 165 agreements, the hundreds of pages of which I am sure that you have read. You will know that the council's responsibility is clear in this matter and, therefore, it is not appropriate or realistic for this Assembly to intervene in the context of that agreement.

bynag, yr wyf wedi codi'r mater o bwy sydd yn gyfrifol am wneud y penderfyniadau hyn. Yr ydych yn llygad eich lle wrth ddweud mai Cyngor Dinas a Sir Caerdydd sydd bellach yn gyfrifol am hynny. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb iddo yn y cytundebau adran 165, ac yr wyf yn sicr eich bod wedi darllen pob un o'r cannoedd o dudalennau ohonynt. Gwyddoch fod cyfrifoldeb y cyngor yn glir yn y mater hwn ac, felly, nid yw'n briodol nac yn realistig i'r Cynulliad hwn ymyrryd yng nghyd-destun y cytundeb hwnnw.

Comisiwn Ewropeaidd (Pecyn Toriadau mewn Swyddi) European Commission (Job Cuts Package)

Q3 Janet Davies: Will the Minister report on any discussions he has had with the European Commission regarding its recently announced package to reduce the social impact of major job cuts? (OAQ11773)

C3 Janet Davies: A wnaiff y Gweinidog adrodd am unrhyw drafodaethau a gafodd gyda'r Comisiwn Ewropeaidd o safbwynt y pecyn a gyhoeddwyd ganddo yn ddiweddar i leihau'r effaith gymdeithasol o ganlyniad i doriadau sylweddol mewn swyddi? (OAQ11773)

Michael German: The National Assembly has maintained close contact with the Department of Trade and Industry during its formal application to the EC for approval of aid in relation to the iron and steel employees re-adaptation benefits scheme under Article 56 of the European Coal and Steel Communities Treaty. The National Assembly and the UK Government are continuing to work in partnership in discussions about the aid scheme to ensure that it provides maximum benefit for those affected by the steel job losses.

Michael German: Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cadw cysylltiad agos â'r Adran Masnach a Diwydiant yn ystod ei gais ffurfiol i'r Comisiwn Ewropeaidd i gymeradwyo cymorth mewn perthynas â chynllun budd-daliadau ailaddasu gweithwyr y diwydiant haearn a dur o dan Erthygl 56 Cytundeb Cymunedau Glo a Dur Ewrop. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth y DU yn parhau i weithio mewn partneriaeth mewn trafodaethau ynghylch y cynllun cymorth i sicrhau ei fod yn darparu'r budd gorau posibl i'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan y colli swyddi yn y diwydiant dur.

Janet Davies: You will be aware of the job losses at GE in Nantgarw and the loss of promised jobs at BT in Nantgarw, and the effect of those losses on Pontypridd and Caerphilly. When the First Minister welcomed the announcement of a BT call centre in March 2000, he referred to a purple patch of setting up call centres. Before the National Assembly invests in purple patches, will you ensure that you will investigate the viability of the firms that ask for assistance, bearing in mind that financial experts have been raising questions for some time over BT?

Janet Davies: Byddwch yn ymwybodol o'r colli swyddi yn GE yn Nantgarw a cholli'r swyddi a addawyd yn BT yn Nantgarw, ac effaith y colledion hynny ar Bontypridd a Chaerffili. Pan groesawodd Prif Weinidog Cymru gyhoeddi canolfan galwadau BT ym mis Mawrth 2000, cyfeiriodd at gyfnod o ffyniant mewn sefydlu canolfannau gal. Cyn i'r Cynulliad Cenedlaethol fuddsoddi mewn cyfnodau o ffyniant, a sicrhewch y byddwch yn archwilio i ymarferoldeb y cwmnïau sydd yn gofyn am gymorth, o ystyried y bu arbenigwyr ariannol yn holi cwestiynau ers peth amser ynghylch BT?

Michael German: It is my understanding

Michael German: O'r hyn a ddeallaf i, nid

that BT has not made an application for regional selective assistance. In any case, RSA is only paid out on results and not application. I am hopeful that other employers will address the position on the number of job losses in the near future. However, the use of the building is being considered at present, which, as you know, was established by BT. It is a matter of regret. I am sure that we all understand the major restructuring that is taking place within BT and the hardship that it is suffering because of its poor economic performance. There are a number of reasons for that. There is increasing concern about the restructuring that will take place between its wholesale and retail businesses.

Peter Law: Will you assure me that you will intervene to offer full support to the management and trades unions at Bosal Industries Limited in Tredegar, which is in my constituency? Only last week we received the sad news of 153 redundancies, which comes on top of the Corus redundancies in Blaenau Gwent. Will you further assure me that you will do all that you can to encourage more inward investment in the Valleys communities and that you will not support the theory that they should become dormitory areas where people have to travel to the coastal plain for work?

Michael German: The news of Bosal Industries Limited at Tredegar was sad. This news is a hammer blow to a community that is already suffering dramatically as a result of Corus's decision. I assure you that the agencies that must pick up the pieces are doing all that they can to ensure that the workforce receives all the necessary assistance in this matter.

In respect of the wider issue of the situation in Ebbw Vale, it is the view of the council and its economic development department that diversification of employment opportunities in the town is crucial. Also, the area must be opened up for travel in both directions so that people can access Blaenau Gwent, the Heads of the Valleys and the southern coastal areas equally. All those strategies are important to ensure an appropriate mix of employment. One major concern for the inhabitants of Blaenau Gwent

yw BT wedi gwneud cais am gymorth dethol rhanbarthol. Beth bynnag, ar ganlyniadau yn unig ac nid ar gais y telir y cymorth hwn. Yr wyf yn ffyddiog y bydd cyflogwyr eraill yn mynd i'r afael â'r sefyllfa ar nifer y swyddi a gollwyd yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, mae'r defnydd a wneir o'r adeilad a sefydlwyd gan BT, fel y gwyddoch, yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Mae'n drueni. Yr wyf yn sicr ein bod i gyd yn deall yr ailstrwythuro mawr sydd yn digwydd o fewn BT a'r caledi a ddioddefir oherwydd ei berfformiad economaidd gwael. Mae sawl rheswm dros hynny. Ceir pryder cynyddol am yr ailstrwythuro fydd yn digwydd rhwng ei fusnesau cyfanwerthu a manwerthu.

Peter Law: A roddwch sicrwydd i mi y byddwch yn ymyrryd i gynnig cymorth llawn i'r rheolwyr a'r undebau llafur yn Bosal Industries Limited yn Nhredeggar, sydd yn fy etholaeth? Cawsom y newyddion trist o 153 o ddiswyddiadau yr wythnos diwethaf, sydd yn ogystal â diswyddiadau Corus ym Mlaenau Gwent. A roddwch sicrwydd pellach i mi y gwnewch bopeth o fewn eich gallu i annog mwy o fewnfuddsoddi yng nghymunedau'r Cymoedd ac na fyddwch yn cefnogi'r ddamcaniaeth y dylent fynd yn ardaloedd noswyllo lle mae'n rhaid i bobl deithio i wastatir yr arfordir i gael gwaith?

Michael German: Yr oedd newyddion Bosal Industries Limited yn Nhredeggar yn drist. Mae'r newyddion hyn yn ergyd drom i gymuned sydd yn dioddef yn enbyd eisoes o ganlyniad i benderfyniad Corus. Gallaf eich sicrhau bod yr asiantaethau sydd yn gorfod delio â'r sefyllfa yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod y gweithlu'n derbyn yr holl gymorth angenrheidiol yn y mater hwn.

O ran mater ehangach y sefyllfa yng Nglynebwy, barn y cyngor a'i adran datblygu economaidd yw bod amrywio cyfleoedd cyflogaeth yn y dref yn hanfodol. Hefyd, rhaid i'r ardal fod ar agor i deithio yn y ddau gyfeiriad fel y gall pobl gael mynediad i Flaenau Gwent, Blaenau'r Cymoedd ac ardaloedd arfordirol y de yn gyfartal. Mae'r strategaethau hyn i gyd yn bwysig i sicrhau cymysgedd priodol o gyflogaeth. Un pryder mawr i drigolion Blaenau Gwent yw y bu dibyniaeth anferth ar un cyflogwr, a brofodd

is that there has been a huge dependency on a single employer, which has now proved to be of no assistance to the community in the longer term.

bellach i fod o ddim cymorth i'r gymuned yn y tymor hwy.

Y Gyfarwydddeb Ewropeaidd ar Ymgynghori â Gweithwyr European Directive on Consulting Workers

Q4 Janet Davies: Once again, what discussions has the Minister had with the Secretary of State for Wales regarding the European Directive on the information and consultation of workers? (OAQ11772)

C4 Janet Davies: Unwaith eto, pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru o safbwynt y Gyfarwydddeb Ewropeaidd ar roi gwybodaeth i weithwyr ac ymgynghori â hwy? (OAQ11772)

Michael German: Thank you Janet, for the second time. On 18 January 2001 the Secretary of State for Trade and Industry, Stephen Byers, announced a review of our domestic laws on consultation, particularly in the context of our existing provisions on collective redundancies and European works councils. There are concerns about the lack of consultation. The Assembly shares those concerns, particularly in relation to redundancies that are suddenly announced in the media. This review will address those concerns and focus on how multinationals can improve their operations in redundancy cases. It is envisaged that the review will take four to five months to complete. During that period, interested parties, including the CBI and the TUC, will be involved in the consultation.

Michael German: Diolch, Janet, am yr eildro. Ar 18 Ionawr 2001 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant, Stephen Byers, adolygiad o'n cyfreithiau domestig ar ymgynghori, yn enwedig yng nghyd-destun ein darpariaethau presennol ar ddiswyddiadau torfol a chynghorau gwaith Ewropeaidd. Ceir pryderon am y diffyg ymgynghori. Mae'r Cynulliad yn rhannu'r pryderon hyn, yn enwedig mewn perthynas â diswyddiadau a gyhoeddir yn ddisymwth yn y cyfryngau. Bydd yr adolygiad hwn yn ymdrin â'r pryderon hynny ac yn canolbwyntio ar sut y gall cwmnïau rhyngwladol wella eu gweithrediadau mewn achosion o ddiswyddo. Rhagwelir y cymerir pedwar i bum mis i gwblhau'r adolygiad. Yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd y rheini sydd â buddiant, gan gynnwys y CBI a'r TUC, yn cymryd rhan yn y ymgynghoriad.

Janet Davies: Despite Mr Byers's actions, I understand that the New Labour UK Government has not signed up to the European Directive on consultation and information for workers. What does the Liberal/New Labour partnership here intend to do to ensure proper consultation of such workers?

Janet Davies: Er gwaethaf gweithredoedd Mr Byers, deallaf nad yw Llywodraeth Llafur Newydd y DU wedi llofnodi'r Gyfarwydddeb Ewropeaidd ar ymgynghori â gweithwyr a rhoi gwybodaeth iddynt. Beth y mae'r bartneriaeth Democratiaid Rhyddfrydol /Llafur Newydd yn bwriadu ei wneud i sicrhau ymgynghori priodol gyda gweithwyr o'r fath?

Michael German: First, I am afraid, Janet, that your facts are a little behind the times. The discussion on the Directive is still to be held and the meeting of the Employment and Social Policy Council, which will debate and discuss this matter, will take place on 11 June. That is next week. There is general support in the Assembly for the issues that

Michael German: I ddechrau, mae arnaf ofn, Janet, bod eich ffeithiau braidd ar ei hôl hi. Nid yw'r drafodaeth ar y Gyfarwydddeb wedi'i chynnal eto a chynhelir cyfarfod y Cyngor Cyflogaeth a Pholisi Cymdeithasol, fydd yn dadlau ac yn trafod y mater hwn, ar 11 Mehefin. Mae hynny wythnos nesaf. Ceir cefnogaeth gyffredinol yn y Cynulliad i'r

were in the earlier draft version of that Directive in some cases. Those views have been commended to Stephen Byers. However, during this election period it is not easy to communicate with ministers whose jobs may not exist after the election. There may be a different person to communicate with after the election. However, I will ensure that those views are communicated to the appropriate Minister in time for the ESPC meeting on 11 June. There must be an agreement of all the member states. It is likely that an agreement will be reached on that date, which will then proceed to the following European Council. It is important that our viewpoint is known in that respect.

Jonathan Morgan: Over the past year, thousands of jobs have been lost in Wales in the manufacturing sector. One of the reasons for these job losses is the excess of regulations and burdens that are placed on businesses, not only by Westminster, but also by the European Union. What are you doing, as Minister for Economic Development, to lobby EU officials to ensure that we in Wales get fewer regulations and not more?

Michael German: You clearly hold the view that questions whether there should be safeguards for people whose jobs are declared redundant; a different view perhaps to the remainder of Assembly Members who share a common view that peoples' rights need to be protected. I believe that there is general support in the Assembly for that form of protection. As you know, as a result of the European Council, towards the end of this month, it is likely that that will become the view of the European Union and will therefore become a part of the law of this land.

In respect of business regulation, which is a separate issue, you will know of our efforts to try to reduce the financial burdens on business. Those efforts are still subject to debate and discussion, and I hope that we will be able to continue that dialogue once the new London Government is formed.

materion a oedd yn fersiwn ddrafft gynharach y Gyfarwydddeb honno mewn rhai achosion. Cymeradwywyd y sylwadau hynny i Stephen Byers. Fodd bynnag, yn ystod cyfnod yr etholiad hwn nid yw'n hawdd cyfathrebu â gweinidogion efallai na fydd eu swyddi'n bodoli ar ôl yr etholiad. Efallai y bydd person gwahanol i gyfathrebu ag ef wedi'r etholiad. Fodd bynnag, byddaf yn sicrhau y caiff y sylwadau hynny eu cyfleu i'r Gweinidog priodol mewn pryd ar gyfer cyfarfod y Cyngor Cyflogaeth a Pholisi Cymdeithasol ar 11 Mehefin. Rhaid i'r holl aelod wladwriaethau gytuno. Mae'n debygol y deuir i gytundeb ar y dyddiad hwnnw, a fydd wedyn yn mynd ymlaen i'r Cyngor Ewropeaidd canlynol. Mae'n bwysig bod ein safbwynt yn hysbys yn y cyswllt hwnnw.

Jonathan Morgan: Dros y flwyddyn ddiwethaf, collwyd miloedd o swyddi yng Nghymru yn y sector gweithgynhyrchu. Un o'r rhesymau pam y collwyd y swyddi hyn yw'r gormodedd o reoliadau a beichiau a roddir ar fusnesau, nid yn unig gan San Steffan, ond hefyd gan yr Undeb Ewropeaidd. Beth a wnewch chi, fel Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, i lobïo swyddogion yr UE i sicrhau ein bod ni yng Nghymru yn cael llai o reoliadau yn hytrach na mwy ohonynt?

Michael German: Mae'n amlwg eich bod o'r farn sydd yn cwstiyntu a ddylid cael camau diogelu ar gyfer pobl a gaiff eu diswyddo; safbwynt gwahanol efallai i weddill Aelodau'r Cynulliad sydd yn rhannu barn gyffredin bod angen diogelu hawliau pobl. Credaf fod cefnogaeth gyffredinol yn y Cynulliad ar gyfer y math hwnnw o ddiogelwch. Fel y gwyddoch, o ganlyniad i'r Cyngor Ewropeaidd, tua diwedd y mis hwn, mae'n debygol mai dyna fydd barn yr Undeb Ewropeaidd ac felly daw yn rhan o gyfraith y wlad hon.

O ran rheoliadau busnes, sydd yn fater ar wahân, byddwch yn gwybod am ein hymdrechion i geisio lleihau'r beichiau ariannol ar fusnesau. Mae'r ymdrechion hynny yn dal yn agored i ddadl a thrafodaeth, a gobeithio y gallwn barhau â'r ddialog honno unwaith y bydd Llywodraeth Llundain newydd wedi'i ffurfio.

2:50 p.m.

Canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Polisiâu Cyflogaeth
European Commission Guidelines for Employment Policies

C5 Cynog Dafis: Pryd y cafodd y Gweinidog y wybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer polisiâu cyflogaeth? (OAQ11788)

Michael German: The European Union's 2001 employment guidelines were agreed at the Nice council last December. They are the basis for the UK's 2001 national action plan for employment, which received UK Government clearance on 4 May, and which has been submitted to the European Commission. The Commission will evaluate it and draft a joint employment report for adoption by the council this autumn.

Cynog Dafis: Pa gyswllt a fu rhwng y weinyddiaeth yng Nghymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig am Gyngor Ewropeaidd Stockholm ar gyflogaeth a gynhaliwyd ym mis Mawrth eleni? Yng ngoleuni ymrwymiad y Cynulliad i ddatblygu cynaliadwy, oni ddylem fod yn pwysu ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod cynnal yr amgylchedd yn ystyriaeth allweddol mewn cynghorau ar gyflogaeth yn y dyfodol? A yw Dirprwy Brif Weinidog Cymru yn fodlon ymrwymo i wneud hynny?

Michael German: I am not certain within whose portfolio this matter falls, because Department for Education and Employment matters are obviously the responsibility of the Secretary of State for Education and Employment. Powers in respect of employment legislation are not transferred to us, but Assembly officials continue to work closely with DfEE officials to take the lead in this matter for the UK national action plan for employment, which must take on board the European Union's activity. The UK action plan for 2001 sets out how the UK is meeting the 2001 guidelines for EU member states' employment practices.

Eleanor Burnham: Will the Deputy First Minister assure me that he will place great

Q5 Cynog Dafis: When did the Minister last receive an update on European Commission guidelines for employment policies? (OAQ11788)

Michael German: Cytunwyd ar ganllawiau cyflogaeth 2001 yr Undeb Ewropeaidd yng nghyngor Nice fis Rhagfyr diwethaf. Maent yn sail i gynllun gweithredu cenedlaethol 2001 y DU ar gyfer cyflogaeth, a gafodd sêl bendith Llywodraeth y DU ar 4 Mai, ac a gyflwynwyd i'r Comisiwn Ewropeaidd. Bydd y Comisiwn yn ei werthuso ac yn drafftio adroddiad cyflogaeth ar y cyd er mwyn i'r cyngor ei fabwysiadu yn yr hydref eleni.

Cynog Dafis: What liaison has there been between the administration in Wales and the United Kingdom Government regarding the Stockholm European Council on employment held in March this year? In light of the Assembly's commitment to sustainable development, should we not bring pressure to bear on the United Kingdom Government to ensure that sustaining the environment is a key consideration in future employment councils? Is the Deputy First Minister willing to commit himself to do that?

Michael German: Nid wyf yn sicr ym mha bortffolio y mae'r mater hwn, gan fod materion yr Adran Addysg a Chyflogaeth yn amlwg yn gyfrifoldeb i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth. Ni chaiff pwerau o ran deddfwriaeth cyflogaeth eu trosglwyddo inni, ond mae swyddogion y Cynulliad yn parhau i weithio'n agos gyda swyddogion yr Adran Addysg a Chyflogaeth er mwyn cymryd yr awenau yn y mater hwn o ran cynllun gweithredu cenedlaethol y DU ar gyfer cyflogaeth, ac mae'n rhaid iddo ystyried gweithgarwch yr Undeb Ewropeaidd. Mae cynllun gweithredu y DU ar gyfer 2001 yn nodi'r modd y mae'r DU yn bodloni canllawiau 2001 ar gyfer arferion cyflogaeth aelod wladwriaethau'r UE.

Eleanor Burnham: A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog roi sicrwydd imi y bydd yn rhoi

importance on tackling discrimination in the workplace, and that that will be a key feature of the Assembly's employment policy?

Michael German: I give you that assurance. The Cabinet is united on that matter, particularly in respect of the opportunities available to people, irrespective of gender and race. I believe that the Assembly has already taken a lead; the Cabinet is well-balanced in terms of men and women, and the Assembly has already taken the clear decision that there should be a broad reflection of the community of Wales. I hope that we can act as a beacon in that respect in all our policies.

Glyn Davies: The European Union has a great effect on employment policies in Wales through imposing extra regulatory burdens. Jonathan Morgan was right earlier about the negative impact of measures such as the working time Directive. What mechanisms do you have to measure the negative impact on manufacturing business in Wales? I suggest that there are many such negative impacts at the moment. Although you do not have power over them, you surely have mechanisms to measure them: what are they?

Michael German: The Assembly's Statistical Directorate collates the responses from the Office of National Statistics. The National Assembly also invested extra money in the Office of National Statistics in order to collect more data for Wales. We need to know more about what happens in Wales, and the Cabinet and the Economic Development Committee seek to address that issue. We must know more about what is happening and to do that we will have to commission extra research.

pwyslais mawr ar fynd i'r afael â chamwahaniaethu yn y gweithle, ac y bydd hynny'n nodwedd allweddol o bolisi cyflogaeth y Cynulliad?

Michael German: Rhoddaf y sicrwydd hwnnw ichi. Mae'r Cabinet yn unfarn ar y mater hwnnw, yn arbennig o ran y cyfleoedd sydd ar gael i bobl, waeth beth fo'u rhyw a'u hil. Credaf i'r Cynulliad ddangos arweiniad eisoes; ceir cydbwysedd da yn y Cabinet o ran dynion a merched, a phenderfynodd y Cynulliad yn bendant eisoes y dylai bod adlewyrchiad eang o gymuned Cymru. Gobeithiaf y gallwn weithredu fel esiampl yn hynny o beth yn ein polisiau i gyd.

Glyn Davies: Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi cael effaith fawr ar bolisiau cyflogaeth yng Nghymru, drwy osod beichiau rheoliadol ychwanegol. Yr oedd Jonathan Morgan yn llygad ei le yn gynharach ynglŷn ag effaith negyddol mesurau megis y Gyfarwydddeb amser gweithio. Pa fecanweithiau sydd gennych i fesur yr effaith negyddol ar weithgynhyrchu yng Nghymru? Awgrymaf fod sawl effaith negyddol o'r fath ar hyn o bryd. Er nad oes gennych bŵer drostynt, mae'n sicr gennyf bod gennych fecanweithiau i'w mesur: beth ydynt?

Michael German: Mae Cyfarwyddiaeth Ystadegau'r Cynulliad yn coladu'r ymatebion o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Buddsoddodd y Cynulliad Cenedlaethol arian ychwanegol hefyd yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn casglu mwy o ddata ar gyfer Cymru. Mae angen inni wybod mwy am yr hyn sydd yn digwydd yng Nghymru, ac mae'r Cabinet a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn ceisio ymdrin â'r mater hwnnw. Rhaid inni wybod mwy am yr hyn sydd yn digwydd a bydd yn rhaid inni gomisiynu ymchwil ychwanegol er mwyn gwneud hynny.

Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Questions on Finance to the Minister for Finance, Local Government and Communities

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 1 yn ôl.

The Presiding Officer: Question 1 has been withdrawn.

Tendrau a Chontractau i Fusnesau Cymreig
Tender and Contract to Welsh Business

Q2 Christine Chapman: Can the Minister make a statement regarding the proportion of their products and services Assembly sponsored public bodies tender and contract to Welsh business? (OAQ11761)

C2 Christine Chapman: A all y Gweinidog wneud datganiad ynghylch y gyfran o gynhyrchion a gwasanaethau'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad y rhoddir tendrau a chontractau ar eu cyfer i fusnesau Cymreig? (OAQ11761)

Edwina Hart: There is currently no available data on the proportion of the Assembly sponsored public bodies' contracts that are let to Welsh businesses.

Edwina Hart: Nid oes data ar gael ar hyn o bryd o ran y gyfran o gontractau cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad a roddwyd i fusnesau yng Nghymru.

Public sector procurement policy, to which ASPBs adhere, is based on obtaining the best value for money. The Assembly's policy is to make the maximum use of quality Welsh products and services within the procedures set down in the European regulations on procurement. Our particular wish on the policy steering group for the new Assembly building is that we use Welsh products in that building.

Mae polisi caffael y sector cyhoeddus, y mae CCNC yn ymlynu ato, yn seiliedig ar gael y gwerth gorau am arian. Polisi'r Cynulliad yw gwneud y defnydd mwyaf posibl o gynnyrch a gwasanaethau Cymreig o safon o fewn y gweithdrefnau a nodwyd yn y rheoliadau Ewropeaidd ar gaffael. Ein dymuniad arbennig ar y grŵp llywio polisi ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad yw ein bod yn defnyddio cynnyrch Cymreig yn yr adeilad hwnnw.

Christine Chapman: After speaking to small businesses, and on the back of our sustained promotion of Welsh business and the 'made in Wales' brand—we are aware of how successful the Assembly has been in that—what further encouragement can we give to ASPBs, such as the WDA, to ensure that all businesses in Wales, big or small, are kept fully aware of new contracts issued for tender by the WDA?

Christine Chapman: Ar ôl siarad â busnesau bach, ac ar gefn ein hymgyrch barhaus i hybu busnesau o Gymru a'r brand 'gwnaethpwyd yng Nghymru'—yr ydym yn ymwybodol pa mor llwyddiannus y bu'r Cynulliad yn hynny o beth—pa anogaeth bellach y gallwn ei rhoi i gyrff, megis y WDA, er mwyn sicrhau bod pob busnes yng Nghymru, boed yn fach neu'n fawr, yn cael eu hysbysu'n llawn am y contractau newydd a roddir allan ar gyfer tendr gan y WDA?

Edwina Hart: All public bodies in Wales will have initiatives to help local suppliers. For example, the Assembly is currently undertaking a review of procurement across the public sector in Wales. Among other things, the review is addressing how we can best assist our small and medium-sized enterprises to successfully compete for publicly-funded business. This review will benefit the WDA.

Edwina Hart: Bydd gan bob corff cyhoeddus yng Nghymru fentrau er mwyn helpu cyflenwyr lleol. Er enghraifft, mae'r Cynulliad yn cynnal adolygiad o gaffael ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru ar hyn o bryd. Ymysg pethau eraill, mae'r adolygiad yn ymdrin â'r ffordd orau o helpu ein busnesau bach a chanolig eu maint i gystadlu'n llwyddiannus am fusnes a noddir gan arian cyhoeddus. Bydd yr adolygiad hwn o fudd i'r WDA.

Brian Hancock: South-east Wales has seen an explosion in job losses. Residents in my constituency, Islwyn, were employed at Dewhirst Ladieswear Limited and Gossard.

Brian Hancock: Gwelodd de-ddwyrain Cymru nifer fawr o ddiswyddiadau. Cyflogwyd trigolion yn fy etholaeth i, sef Islwyn, yn Dewhirst Ladieswear Limited a

Some are currently employed, but under notice, at Solectron, at the Corus plant in Ebbw Vale, at Bosal Industries Limited in Tredegar and at other plants. What objectives and controls are set for ASPBs, such as the WDA, to support the 153,335 micro and small businesses in Wales that support those large businesses which are deserting Wales but could give employment in the Welsh Valleys?

Edwina Hart: The original question addressed procurement and, on that issue, we try to make the maximum use of Welsh expertise within the procedures set down in European regulations on public procurement. We are restricted by the regulations, as they state that there should be no discrimination for or against a particular nation's products or services. That is the position set in the Directives on public procurement policy. On the wider point raised in Brian's question, there is concern about the firms that supply the large companies that have announced redundancies or plant closures in Wales. This is an issue for the WDA and the Deputy First Minister and Minister for Economic Development to address.

Nick Bourne: Welsh businesses, particularly small and medium-sized businesses, need to be in a stronger position to compete for ASPB tenders. What is the Minister and the administration doing to streamline requirements so that they face less, rather than more, regulation than English businesses?

Edwina Hart: We are investing heavily in developing Welsh firms to be more competitive and in enhancing the skills of the local workforce. There are various initiatives in Wales, such as the WDA's Source Wales scheme, which aims to increase the profitability, competitiveness and growth of Welsh businesses. We must concentrate on those areas to ensure that small and medium-sized enterprises in Wales can compete.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 3 yn ôl.

Gossard. Mae rhai yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd, ond o dan rybudd diswyddo, yn Solectron, yn ffatri Corus yng Nglynebwy, yn Bosal Industries Limited yn Nhrefgar ac mewn ffatrioedd eraill. Pa amcanion a rheoliadau a nodir ar gyfer CCNC, megis y WDA, i gynnal y 153,335 o fusnesau meicro a bach sydd yn cefnogi'r busnesau mawr hynny sydd yn troi'u cefnau ar Gymru ond a allai ddod â chyflogaeth i Gymoedd Cymru?

Edwina Hart: Ymdriniodd y cwestiwn gwreiddiol â chaffael, ac, ar y mater hwnnw, yr ydym yn ceisio gwneud y defnydd mwyaf posibl o arbenigedd Cymreig o fewn y gweithdrefnau a nodwyd o fewn y rheoliadau Ewropeaidd ar gaffael cyhoeddus. Fe'n cyfyngir gan y rheoliadau, gan eu bod yn nodi na ddylid gwahaniaethu o blaid neu yn erbyn cynnyrch neu wasanaethau gan genedl arbennig. Dyna'r sefyllfa a nodir yn y Cyfarwyddebau ar bolisi caffael cyhoeddus. O ran y pwynt ehangach a godwyd yng ngwestiwn Brian, mae pryder am y busnesau sydd yn cyflenwi'r cwmnïau mawr a gyhoeddodd ddiswyddiadau neu a gyhoeddodd eu bod yn cau ffatrioedd yng Nghymru. Mater i'r WDA a'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd i ymdrin ag ef yw hwn.

Nick Bourne: Mae angen i fusnesau o Gymru, yn arbennig busnesau bach a chanolig eu maint, fod mewn sefyllfa gryfach er mwyn cystadlu am dendrau cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Beth mae'r Gweinidog a'r weinyddiaeth yn ei wneud i symleiddio'r gofynion fel eu bod yn wynebu llai, yn hytrach na mwy, o reoleiddio na busnesau o Loegr?

Edwina Hart: Yr ydym yn buddsoddi'n helaeth er mwyn sicrhau bod busnesau yng Nghymru yn fwy cystadleuol ac er mwyn gwella sgiliau'r gweithlu lleol. Mae amryw o fentrau yng Nghymru, megis cynllun Ffynhonnell Cymru y WDA, sydd yn anelu at gynyddu proffidoldeb, gallu cystadleuol a thwf busnesau Cymreig. Rhaid inni ganolbwyntio ar y meysydd hynny er mwyn sicrhau y gall busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru gystadlu.

The Presiding Officer: Question 3 has been withdrawn.

Newidiadau i'r System Drethi Changes to the Taxation System

C4 Rhodri Glyn Thomas: A yw'r Gweinidog wedi cael trafodaethau â'r Canghellor ynghylch newidiadau i'r system drethi a'r modd y byddant yn effeithio ar Gymru? (OAQ11803)

Edwina Hart: Prior to the UK budget, discussions take place within the UK Government about proposed changes. Representations about the impact of changes in Wales are made by the Secretary of State for Wales, in consultation with Assembly Ministers, including myself. The tax changes introduced at the most recent UK budget had a range of beneficial effects in Wales. One example is the introduction of the children's tax credit, which is aimed at supporting families and tackling child poverty.

Rhodri Glyn Thomas: Diolchaf i Edwina am esbonio'r broses. A wnaiff ymdrin â'r pryder a fynegir mewn nifer o feysydd ynglŷn ag addewid y Llywodraeth Lafur, os caiff ei hail-ethol, i beidio â chynyddu treth bersonol ac effaith hynny ar safon a chyflwyniad gwasanaethau angenrheidiol yng Nghymru?

Edwina Hart: Services in Wales are paid for out of the block grant under the Barnett formula. That has nothing to do with the UK taxation policy.

Peter Rogers: Have you expressed your concern to the Chancellor that, under this Government, the poor have got poorer—the opposite of what happened under the previous Conservative Government—*[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order.

Peter Rogers: What does spending more than £30 million on a new debating chamber say to taxpayers about the redistribution of wealth? That money could well have been spent on a children's hospital?

Q4 Rhodri Glyn Thomas: Has the Minister had any discussions with the Chancellor about changes to the taxation system and how they will impact upon Wales? (OAQ11803)

Edwina Hart: Cyn cyllideb y DU, cynhelir trafodaethau o fewn Llywodraeth y DU ar y newidiadau arfaethedig. Cyflwynir sylwadau ar effaith y newidiadau yng Nghymru gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn dilyn ymgynghori â Gweinidogion y Cynulliad, gan gynnwys fi fy hun. Yr oedd gan y newidiadau treth a gyflwynwyd yng nghyllideb ddiweddaraf y DU amrywiaeth o effeithiau buddiol yng Nghymru. Un enghraifft yw cyflwyno'r credyd treth i blant, sydd wedi'i anelu at gefnogi teuluoedd a mynd i'r afael â thlodi plant.

Rhodri Glyn Thomas: I thank Edwina for explaining the process. Will she address the concern expressed in several areas regarding the Labour Government's pledge, if re-elected, not to increase personal taxes, and the effect of that on the standard and delivery of essential services in Wales?

Edwina Hart: Telir am wasanaethau yng Nghymru o'r grant bloc o dan fformiwla Barnett. Nid oes a wnelo hynny â pholisi trethiannol y DU.

Peter Rogers: A fynegasoch eich pryder i'r Canghellor bod y tlawd, o dan y Llywodraeth hon, wedi mynd yn dlotach—sydd yn groes i'r hyn a ddigwyddodd o dan y Llywodraeth Geidwadol flaenorol—*[Ymyriad]*

Y Llywydd: Trefn.

Peter Rogers: Pa neges y mae gwario mwy na £30 miliwn ar siambr ddadlau newydd yn ei roi i'r trethdalwyr ynglŷn ag aildosbarthu cyfoeth? Gellid fod wedi gwario'r arian hwnnw ar ysbyty plant?

Edwina Hart: As he is a representative of a party that has always sought to make the rich even richer, I find Peter's question ironic. It is pathetic to bring the issue of spending £30 million on a new democratic structure in Wales into this debate.

Edwina Hart: Gan ei fod yn cynrychioli plaid sydd bob amser wedi ceisio gwneud y cyfoethog yn gyfoethocach fyth, ystyriaif fod cwestiwn Peter yn eironig. Mae'n beth truenus i godi'r mater o wario £30 miliwn ar strwythur democrataidd newydd yng Nghymru yn y ddadl hon.

Clwy'r Traed a'r Genau (Cymorth Ariannol) Foot and Mouth Disease (Financial Support)

Q5 William Graham: Will the Minister make an assessment of the financial support needed by the Assembly to address the impact of foot and mouth disease in Wales? (OAQ11827)

C5 William Graham: A wnaiff y Gweinidog asesiad o'r cymorth ariannol y bydd ei angen ar y Cynulliad i fynd i'r afael ag effaith clwy'r traed a'r genau yng Nghymru? (OAQ11827)

Edwina Hart: We have set up a task and finish group under the rural partnership, supported by the agri-food sector, to assess the economic impact of foot and mouth disease on the rural economy and to bring forward proposals for long-term recovery. I await the group's recommendations. Under the chairmanship of the Minister for Rural Affairs, the Farming Futures group is finalising a report on the options for the farming industry in Wales and its future direction in the next few years. Once I have received those reports, I will be in a better position to respond.

Edwina Hart: Yr ydym wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen o dan y bartneriaeth wledig, a gefnogir gan y sector bwyd-amaeth, er mwyn asesu effaith economaidd clwy'r traed a'r genau ar yr economi wledig a datblygu cynigion ar gyfer adfer yn yr hirdymor. Disgwyliaf am argymhellion y grŵp. O dan gadeiryddiaeth y Gweinidog dros Faterion Gwledig, mae'r grŵp Dyfodol Ffermio yn gorffen adroddiad ar yr opsiynau i'r diwydiant ffermio yng Nghymru a'i gyfeiriad yn ystod y blynyddoedd nesaf. Byddaf mewn gwell sefyllfa i ymateb ar ôl derbyn yr adroddiadau hynny.

3:00 p.m.

William Graham: Will you confirm that the indigenous business base has been severely affected by the impact of foot and mouth disease and that it will require intensive support to promote recovery and future development? Will you indicate that you are minded to include continuing financial assistance in the Assembly budget until 2002-03?

William Graham: A wnewch chi gadarnhau bod clwy'r traed a'r genau wedi cael effaith ddifrifol ar y sylfaen busnes brodorol ac y bydd angen cymorth dwys er mwyn hybu ei adferiad a'i ddatblygiad yn y dyfodol? A wnewch chi ddynodi eich bod yn bwriadu cynnwys cymorth ariannol parhaus yng nghyllideb y Cynulliad tan 2002-03?

Edwina Hart: We are now entering the annual budget discussions, and I am sure that all Committees will be mindful of the rural economy's situation when making their bids. It is important that we restore confidence, particularly in the farming and tourism sector in Wales, because it must deliver positive sustainable, economic, social and cultural benefits to Wales. It is also important to continue our support for traditional farming in Wales, based on family farms and not on

Edwina Hart: Yr ydym yn awr yn cychwyn y trafodaethau cyllideb blynyddol, ac yr wyf yn sicr y bydd pob Pwyllgor yn cadw sefyllfa'r economi wledig mewn cof wrth wneud eu cynigion. Mae'n bwysig ein bod yn adfer hyder, yn arbennig yn y sector ffermio a thwrystiaeth yng Nghymru, gan bod yn rhaid iddo gyflwyno manteision cynaliadwy, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol positif i Gymru. Mae hefyd yn bwysig inni barhau i gefnogi ffermio traddodiadol yng

large-scale ranching. Those are some key issues that we must consider during the forthcoming year.

Karen Sinclair: Do you share my concern that the Minister for Culture, Sport and the Welsh Language has not seen fit to underwrite the Llangollen International Musical Eisteddfod in the same way that she has underwritten the National Eisteddfod, given that both rely heavily on the use of agricultural land and will be held in the same local authority area this year? Are you aware that the eisteddfod at Llangollen contributes £6.1 million to the economy of my constituency?

Edwina Hart: You have raised the important issue of what support we can give, and we have indicated that we have given support to various organisations affected by foot and mouth disease. It would be appropriate for you to raise this matter with the Minister for Culture, but I am mindful of the eisteddfod's contribution to the local economy.

Janet Ryder: The tourist industry is also facing severe problems. Despite the recent fine weather that brought a greater number of visitors to Wales over the past week, tourist businesses could face severe hardship by the end of the summer and as we enter into autumn and winter. What consideration have you given to offering them support during the autumn and winter?

Edwina Hart: I will always give consideration to any requests I receive, particularly in light of the impact of foot and mouth disease on the tourist industry and other related industries. The primary responsibility for this lies with the Deputy First Minister and Minister for Economic Development and I am sure that I will receive the necessary and appropriate requests in due course.

‘Rhoi Cymru’n Gyntaf’ ‘Putting Wales First’

Q6 Nick Bourne: Will the Minister make a progress report on achieving the financial commitments contained in ‘Putting Wales

Nghymru, yn seiliedig ar ffermydd teulu ac nid ar ffermio ar raddfa eang. Dyna rai o’r materion allweddol y mae’n rhaid inni eu hystyried yn y flwyddyn sydd i ddod.

Karen Sinclair: A rannwch fy mhryder nad yw’r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a’r Gymraeg yn credu ei bod yn addas i roi nawdd i Eisteddfod Gerddorol Gyd-wladol Llangollen yn yr un modd ag y rhoddodd nawdd i’r Eisteddfod Genedlaethol, o gofio bod y ddwy yn dibynnu’n helaeth ar ddefnyddio tir amaethyddol ac yn cael eu cynnal yn ardal yr un awdurdod lleol eleni? A ydych yn ymwybodol bod yr eisteddfod yn Llangollen yn cyfrannu £6.1 miliwn i economi fy etholaeth?

Edwina Hart: Codwyd mater pwysig gennych o ran pa gymorth y gallwn ei roi, ac yr ydym wedi dynodi ein bod wedi rhoi cymorth i amryw o sefydliadau yr effeithwyd arnynt gan glwy’r traed a’r genau. Byddai’n briodol ichi godi’r mater hwn gyda’r Gweinidog dros Ddiwylliant, ond yr wyf yn ymwybodol o gyfraniad yr eisteddfod i’r economi leol.

Janet Ryder: Mae’r diwydiant twristiaeth yn wynebu problemau difrifol hefyd. Er gwaethaf y tywydd braf a ddenodd nifer fwy o ymwelwyr i Gymru yn ystod yr wythnos diwethaf, gallai busnesau twristiaeth wynebu caledi difrifol erbyn diwedd yr haf ac erbyn yr hydref a’r gaeaf. Pa ystyriaeth a roddasoch i gynnig cymorth iddynt yn ystod yr hydref a’r gaeaf?

Edwina Hart: Byddaf bob amser yn rhoi ystyriaeth i unrhyw geisiadau a dderbyniaf, yn arbennig yng ngoleuni effaith clwy’r traed a’r genau ar y diwydiant twristiaeth a diwydiannau cysylltiedig eraill. Y Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd sydd â’r prif gyfrifoldeb am hyn ac yr wyf yn sicr y byddaf yn derbyn y geisiadau angenrheidiol a phriodol cyn bo hir.

C6 Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad yn nodi pa gynnydd sydd wedi’i wneud o ran cyflawni’r ymrwymadau

First'? (OAQ11819)

ariannol a gynhwyswyd yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'? (OAQ11819)

Edwina Hart: The budget adopted by the Assembly on 29 March 2001 made significant steps to fulfil the financial commitments given in 'Putting Wales First'. I continue to keep this matter under review and will make a full statement to the Assembly before the summer recess.

Edwina Hart: Cymerodd y gyllideb a fabwysiadwyd gan y Cynulliad ar 29 Mawrth 2001 gamau sylweddol tuag at gyflawni'r ymrwymadau ariannol a wnaethpwyd yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'. Parhaf i adolygu'r mater hwn a gwnaf ddatganiad llawn i'r Cynulliad cyn toriad yr haf.

Nick Bourne: Will the Minister make funds available for road improvements and for a road safety unit, as proposed by the Conservative group, to take traffic out of towns and villages such as Builth Wells and Rhayader and to set sensible speed limits for each stretch of road in Wales?

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ryddhau arian ar gyfer gwelliannau i ffordd ac ar gyfer sefydlu uned diogelwch y ffordd, fel a gynigwyd gan grŵp y Ceidwadwyr, er mwyn cael gwared o draffig mewn trefi a phentrefi megis Llanfair-ym-Muallt a Rhaeadr Gwy ac er mwyn gosod cyfyngiadau cyflymder synhwyrol ar gyfer pob darn o ffordd yng Nghymru?

Edwina Hart: I will consider your request in my discussions with Sue Essex.

Edwina Hart: Byddaf yn ystyried eich cais yn fy nhrafodaethau â Sue Essex.

The Presiding Officer: Question 7 has been withdrawn.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 7 yn ôl.

Gwasanaethau Cyhoeddus a Ddarperir gan Gwmnïau Preifat Delivery of Public Services by Private Companies

Q8 Janet Ryder: Has the Minister had any discussions with representatives from other Government departments regarding the financial implications for Wales of the delivery of public services by private companies? (OAQ11801)

C8 Janet Ryder: A yw'r Gweinidog wedi cael trafodaethau â chynrychiolwyr adrannau eraill o'r Llywodraeth ynghylch y goblygiadau ariannol i Gymru pan fo gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu gan gwmnïau preifat? (OAQ11801)

Edwina Hart: The financial consequences of the letting of any contract for the delivery of public services and its affordability are key factors in reaching a decision. I am fully aware of the financial implications for Wales in pursuing the delivery of public services by private companies.

Edwina Hart: Mae canlyniadau ariannol gosod unrhyw gontract ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus a pha mor fforddiadwy ydyw yn ffactorau allweddol wrth ddod i benderfyniad. Yr wyf yn llwyr ymwybodol o'r goblygiadau ariannol i Gymru wrth fynd ar drywydd y mater o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gan gwmnïau preifat.

Janet Ryder: I am sure that you are aware that, whenever a hospital is provided through a private finance initiative project, invariably the number of beds in that hospital is reduced. How, in discussion with Cabinet colleagues, will you provide an adequate health service in Wales when the number of hospital beds will be reduced?

Janet Ryder: Yr wyf yn sicr eich bod yn ymwybodol y bydd y nifer o welyau ysbyty yn gostwng pan fo ysbyty yn cael ei hariannu drwy brosiect menter cyllid preifat. Wrth drafod hyn gyda'ch cyd-Aelodau yn y Cabinet, sut y byddwch yn darparu gwasanaeth iechyd digonol yng Nghymru pan fydd nifer y gwelyau ysbyty yn cael eu

gostwng?

Edwina Hart: We are providing an adequate health service in Wales. The Minister for Health and Social Services has taken the necessary steps to make the necessary improvements to the health service in Wales. It was always going to take time to turn the situation around and we have started to do so. Hospitals are being built, a commitment has been made for a medical school and we are now seeing the light at the end of the tunnel.

Edwina Hart: Yr ydym yn darparu gwasanaeth iechyd digonol yng Nghymru. Cymerodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y camau angenrheidiol i wneud y gwelliannau angenrheidiol i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Gwyddem ers y cychwyn y byddai'n cymryd amser i newid y sefyllfa ac yr ydym wedi cychwyn gwneud hynny. Mae ysbytai'n cael eu hadeiladu, gwnaethpwyd ymrwymiad ar gyfer ysgol feddygol ac yr ydym bellach yn gweld goleuni ym mhen draw'r twnel.

Jonathan Morgan: Do you agree that we need to expand investment in the education service in Wales? One way to do that would be through the use of private investment and private finance initiatives, along with the use of church schools and special schools and community involvement. Public services are not just the preserve of government and local authorities. There are many other organisations and people that can contribute.

Jonathan Morgan: A gytunwch fod angen inni ehangu buddsoddi yn y gwasanaeth addysg yng Nghymru? Un ffordd o wneud hynny fyddai defnyddio buddsoddiad preifat a mentrau cyllid preifat, ynghyd â defnyddio ysgolion eglwys ac ysgolion arbennig a chyfranogiad cymunedol. Nid maes ar gyfer llywodraeth ac awdurdodau lleol yn unig yw gwasanaethau cyhoeddus. Mae llawer o sefydliadau a phobl eraill a all gyfrannu.

Edwina Hart: I remain totally committed to the way that we are delivering education in Wales through local education authorities. However, we have been successful when considering private finance initiative in terms of the schools that we have built in Wales and I hope that, if necessary, we will continue along those lines in developing the necessary new schools.

Edwina Hart: Yr wyf yn llwyr ymroddedig o hyd i'r modd yr ydym yn darparu addysg yng Nghymru drwy gyfrwng yr awdurdodau addysg lleol. Fodd bynnag, buom yn llwyddiannus wrth ystyried menter cyllid preifat o ran yr ysgolion a adeiladwyd gennym yng Nghymru a gobeithaf, os bydd angen, y byddwn yn parhau ar y trywydd hwnnw er mwyn datblygu'r ysgolion newydd angenrheidiol.

Datganiad Busnes Business Statement

The Minister for Assembly Business (Andrew Davies): Business for the next three weeks is as follows. On Tuesday 12 June, business will include a motion to establish a planning decision committee and to elect its members in accordance with Standing Order No. 35. There will also be a motion to approve a number of items of legislation and two special grant reports as detailed on the Chamberweb. That will be followed by the main item of business, which will be a statement on the Carers Wales implementation plan, a composite motion to

Y Trefnydd (Andrew Davies): Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel a ganlyn. Ddydd Mawrth 12 Mehefin, bydd y busnes yn cynnwys cynnig i sefydlu pwyllgor penderfyniadau cynllunio ac i ethol ei aelodau yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 35. Bydd cynnig hefyd i gymeradwyo nifer o eitemau o ddeddfwriaeth a dau adroddiad grant arbennig y manylwyd arnynt ar we'r Siambr. Dilynir hynny gan y brif eitem o fusnes, sef datganiad ar gynllun gweithredu Gofalwyr Cymru, cynnig cyfansawdd er mwyn cymeradwyo tair eitem o is-

approve three items of subordinate legislation associated with the implementation plan, a motion to approve the Care Standards Act 2000 (Commencement No. 3) (Wales) Order 2001 and the carers special grant report. That is a new and innovative way of dealing with our business in Plenary. Business on Thursday 14 June will now also include a composite motion to approve three items of subordinate legislation. On Tuesday 19 June, in addition to the business reported in my last statement, there will be a motion to amend the Local Government Finance (Wales) Special Grant Report (No.7) (Wales) 2001, which provides financial assistance for businesses adversely affected by the foot and mouth disease outbreak.

Business on Thursday 21 June is as reported in my last statement. On Tuesday 26 June there will be a debate on the European Union and on Wednesday 27 June, which is a rescheduled Plenary, there will be two debates. The first will be on Wales and the world, which will be led by the First Minister and the second will be a Plaid Cymru debate. On Thursday 28 June, there will be a debate on the lottery in Wales and a debate on the report of the Agriculture and Rural Development Committee on the diversification of the rural economy.

On the advice of the Business Committee this morning, the Deputy Presiding Officer has determined, in accordance with Standing Order No. 22.5, that the following items of subordinate legislation need not be referred to a Subject Committee: the General Teaching Council for Wales (Functions) (Amendment) Regulations 2001; the General Teaching Council for Wales (Additional Functions) (Amendment) Order 2001; the Education (School Day and School Year) (Amendment) (Wales) Regulations 2001 and the Teacher Training Incentive (Further Education) (Wales) Regulations 2001. Arrangements will be made to post a copy of this statement to the internet and the intranet.

Y Llywydd: A oes unrhyw wrthwynebiadau i'r datganiad busnes?

I see that there are none. Are there any comments on the business statement?

ddeddfwriaeth sydd yn gysylltiedig â'r cynllun gweithredu, cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2001 ac adroddiad grant arbennig ar ofalwyr. Mae hynny'n ffordd newydd a dyfeisgar o ymdrin â'n busnes yn y Cyfarfod Llawn. Bellach bydd y busnes ddydd Iau 14 Mehefin hefyd yn cynnwys cynnig cyfansawdd i gymeradwyo tair eitem o is-ddeddfwriaeth. Ddydd Mawrth 19 Mehefin, yn ychwanegol at y busnes a gofnodais yn fy natganiad diwethaf, ceir cynnig i ddiwygio Adroddiad Grant Arbennig Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) (Rhif 7) (Cymru) 2001, sydd yn darparu cymorth ariannol ar gyfer busnesau a effeithwyd yn ddifrifol arnynt gan glwy'r traed a'r genau.

Bydd busnes ddydd Iau Mehefin 21 fel y cofnodwyd yn fy natganiad diwethaf. Ddydd Mawrth 26 Mehefin ceir dadl ar yr Undeb Ewropeaidd a ddydd Mercher 27 Mehefin, sydd yn Gyfarfod Llawn a ail-drefnwyd, bydd dwy ddadl. Bydd y cyntaf ar Gymru a'r byd, a arweinir gan y Prif Weinidog a bydd yr ail yn ddadl Plaid Cymru. Ddydd Iau 28 Mehefin, bydd dadl ar y loteri yng Nghymru a dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar arallgyfeirio'r economi wledig.

Yn dilyn cyngor gan y Pwyllgor Busnes y bore yma, penderfynodd y Dirprwy Lywydd, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.5, nad oes angen cyfeirio'r eitemau canlynol o is-ddeddfwriaeth i Bwyllgor Pwnc: Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2001; Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2001; Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Diwygio) (Cymru) 2001 a'r Rheoliadau Cymhellion Hyfforddi Athrawon (Addysg Bellach) (Cymru) 2001. Gwneir trefniadau er mwyn gosod copi o'r datganiad hwn ar y rhyngwyd a'r fewnrwyd.

The Presiding Officer: Are there any objections to the business statement?

Gwelaf nad oes. A oes unrhyw sylwadau ar y datganiad busnes?

William Graham: I ask the Minister again to bring forward proposals for a debate on the Deputy First Minister's conduct. You will be aware that this is a matter of press comment and public interest. Although we have had regard for sensibilities, given that the general election is being held on Thursday, I ask you to bring forward proposals without further delay.

Alun Pugh: If the Conservatives are elected on Thursday, when will Edwina be making an emergency statement on the Barnett consequential of a £20 billion cut in public expenditure on schools and hospitals in Wales?

Jocelyn Davies: Further to the comments by the Conservative group, we have made similar requests in the past. In view of the sensitivity of the timing, we will not pursue that matter today, although I am sure that, if the situation were reversed, the smaller partner in the coalition would enjoy giving us a good kick. We will no doubt return to the issue at a later date.

Andrew Davies: On Alun Pugh's point, I do not believe that the Minister for Finance is burning the midnight oil in preparing that statement. However, no doubt she will give it due consideration if the ceiling falls in and we have a Tory victory on Thursday. On William Graham's point, most of the press speculation is initiated by members of his own party—[*Interruption.*]

3:10 p.m.

The Presiding Officer: Order. The Minister is replying to the point.

Andrew Davies: Our position has been made clear by the First Minister: this is now a matter for police consideration and further debate or discussion in this Chamber would not expedite it. That remains our position. I am grateful for Jocelyn's initial comment. We take the same view that it is not appropriate to discuss this matter.

William Graham: Gofynnaf i'r Gweinidog eto i ddwyn cynigion gerbron ar gyfer dadl ar ymddygiad y Dirprwy Brif Weinidog. Byddwch yn ymwybodol bod hwn yn fater o sylw i'r wasg ac er budd y cyhoedd. Er y buom yn synhwyrol, o gofio y cynhelir yr etholiad cyffredinol ddydd Iau, gofynnaf ichi osod cynigion gerbron yn ddioed.

Alun Pugh: Os etholir y Ceidwadwyr ddydd Iau, pa bryd y bydd Edwina yn gwneud datganiad brys ar ganlyniadau Barnett o ran toriadau o £20 biliwn mewn gwariant cyhoeddus ar ysgolion ac ysbytai yng Nghymru?

Jocelyn Davies: Ymhellach i'r sylwadau a wnaethpwyd gan y grŵp Ceidwadol, yr ydym wedi gwneud ceisiadau tebyg yn y gorffennol. O ystyried sensitifrwydd yr amseriad, ni fyddwn yn mynd ar drywydd y mater hwnnw heddiw, er, pe byddai'r esgid am y droed arall, yr wyf yn sicr y byddai'r partner llai yn y glymblaidd yn mwynhau rhoi cic dda i ni. Byddwn yn ddiuos yn dychwelyd at y mater yn y dyfodol.

Andrew Davies: O ran pwynt Alun Pugh, ni chredaf fod y Gweinidog dros Gyllid yn colli cwsgr wrth baratoi'r datganiad hwnnw. Fodd bynnag, bydd heb amheuaeth yn rhoi ystyriaeth ofalus iddo os bydd y nenfwd yn dymchwel ac y bydd buddugoliaeth Doriaidd ddydd Iau. O ran pwynt William Graham, mae'r rhan fwyaf o'r straeon yn y wasg wedi eu cychwyn gan aelodau o'i blaid ef ei hun—[*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. Mae'r Gweinidog yn ymateb i'r pwynt.

Andrew Davies: Gwnaethpwyd ein safbwynt yn eglur gan y Prif Weinidog: mae hwn yn fater i'r heddlu ei ystyried bellach ac ni fyddai dadl neu drafodaeth bellach arno yn y Siambr hon yn ei hwyluso. Erys ein safbwynt yr un fath. Yr wyf yn ddiolchgar am sylwadau cychwynnol Jocelyn. Cymerwn yr un safbwynt nad yw'n briodol trafod y mater hwn.

*Derbyniwyd y datganiad busnes.
Business statement adopted.*

**Cymeradwyo Rheoliadau Cyngor Gofal Cymru (Penodi, Aelodaeth a
Gweithdrefnau) 2001**
**Approval of the Care Council for Wales (Appointment, Membership and
Procedure) Regulations 2001**

The Minister for Health and Social Services (Jane Hutt): I propose that

the National Assembly considers the principle of the Care Council for Wales (Appointment, Membership and Procedure) Regulations 2001, laid in the Table Office on 1 May 2001. (NDM673)

I also propose that

the National Assembly

1. considers the report of the Legislation Committee which has not identified under Standing Order No. 11.5 any matters for concern in the draft Order, the Care Council for Wales (Appointment, Membership and Procedure) Regulations 2001, laid in the Table Office on 8 May 2001; and

2. approves that the Order is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 1 May 2001 and the memorandum of corrections laid in the Table Office on 23 May 2001. (NDM674)

I am pleased to present these regulations to you, which deal with the appointment, membership and procedures of the Care Council for Wales. The social services White Paper, 'Building for the Future', described the intention to create a new statutory body called the Care Council for Wales—Cyngor Gofal Cymru, which will regulate the social care workforce and its training. The White Paper was subject to extensive consultation and the proposals received widespread support. The Care Standards Act 2000 provided the necessary primary legislation to establish the council as an Assembly-sponsored public body. The Assembly will appoint the council and hold it accountable for the way it performs. The council will

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt): Cynigïaf fod

y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried egwyddorion Rheoliadau Cyngor Gofal Cymru (Penodi, Aelodau a Gweithdrefn) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mai 2001. (NDM673)

Cynigïaf hefyd fod

y Cynulliad Cenedlaethol

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion o dan Reol Sefydlog Rhif 11.5 sy'n destun pryder yn y Gorchymyn drafft, Rheoliadau Cyngor Gofal Cymru (Penodi, Aelodau a Gweithdrefn) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mai 2001;

2. yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mai 2001 a'r memorandwm cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2001. (NDM674)

Mae'n dda gennyf gyflwyno'r rheoliadau hyn ichi, sydd yn ymdrin â phenodi, aelodaeth a gweithdrefnau Cyngor Gofal Cymru. Disgrifiodd y Papur Gwyn ar wasanaethau cymdeithasol, 'Adeiladu ar gyfer y Dyfodol', y bwriad i greu corff statudol newydd o'r enw Cyngor Gofal Cymru, a fydd yn rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol a'i hyfforddiant. Bu ymgynghoriad eang ar y Papur Gwyn a chafodd y cynigion gryn gefnogaeth. Darparodd Deddf Safonau Gofal 2000 y ddeddfwriaeth sylfaenol yr oedd ei hangen i sefydlu'r cyngor fel corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Y Cynulliad a fydd yn penodi'r cyngor a bydd y cyngor yn atebol iddo am ei berfformiad. Bydd y cyngor yn dechrau ymarfer ei swyddogaeth weithredol o

begin to exercise its executive function from 1 October 2001 and it can undertake preparatory acts and functions before that date. The Care Standards Act 2000 confers the power on the Assembly to make this legislation on the appointment, membership and procedures of the council.

The establishment of the Care Council for Wales is a crucial milestone in our drive to raise standards and modernise social services. It will strengthen public protection and contribute towards the public's confidence in these vital services. Over 70,000 staff work in the social care sector and they are at the heart of our agenda to improve standards. They undertake challenging and demanding jobs, often in difficult circumstances. We are committed to ensuring that they get the training that they need and are put on a more professional footing.

The Care Council for Wales will set standards for, and regulate, this large and growing workforce and ensure that it gets the training that it needs. The council will set up a register of those working in the sector and set the entry requirements for that register. It will also have powers to exclude or suspend individuals from the register in cases of misconduct, bad practice, negligence or abuse, among others. The White Paper made it clear that it was the objective of the UK Government that the social care workers regulatory councils for the constituent parts of the UK would put service users and the public interest first. I agree with that objective and I want the care council to be different from traditional regulatory bodies that are largely run by the professions themselves. Service users, carers and the general public—lay people—will be in the majority on the council and a lay person, Mutale Nyoni, has been appointed to be its chair. The council's other members will represent employers, professional associations, trade unions and education and training interests.

The regulations before you today, which make provisions on the appointment, membership and procedure of the council, are

1 Hydref 2001 a gall ymgymryd â gweithredoedd a swyddogaethau rhagbaratoawl cyn y dyddiad hwnnw. Mae Deddf Safonau Gofal 2000 yn rhoi'r pŵer i'r Cynulliad wneud y ddeddfwriaeth hon ar benodi, aelodaeth a gweithdrefnau'r cyngor.

Mae sefydlu Cyngor Gofal Cymru yn garreg filltir hollbwysig yn ein hymgyrch i godi safonau a moderneiddio'r gwasanaethau cymdeithasol. Bydd yn rhoi mwy o ddiogelwch i'r cyhoedd ac yn codi hyder y cyhoedd yn y gwasanaethau hollbwysig hyn. Mae dros 70,000 o staff yn gweithio yn y sector gofal cymdeithasol a hwy sydd wrth wraidd ein hagenda i wella safonau. Maent yn gwneud gwaith heriol ac ymestynnol, yn aml o dan amgylchiadau anodd. Yr ydym yn ymrwymedig i sicrhau y cânt yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt ac i sicrhau mwy o broffesiynoldeb.

Bydd Cyngor Gofal Cymru yn gosod safonau ar gyfer y gweithlu sylweddol hwn, sydd yn cynyddu, ac yn eu rheoleiddio, gan sicrhau y caiff yr hyfforddiant sydd ei angen arno. Bydd y cyngor yn sefydlu cofrestr o'r rhai sydd yn gweithio yn y sector ac yn pennu gofynion derbyn ar gyfer y gofrestr honno. Bydd ganddo bwerau hefyd i eithrio neu wahardd unigolion o'r gofrestr mewn achosion o gamymddygiad, arfer gwael, esgeulustra neu gam-drin cleifion, ymhlith pethau eraill. Eglurodd y Papur Gwyn mai amcan Llywodraeth y DU oedd y byddai cynghorau rheoleiddio gweithwyr gofal cymdeithasol yng ngwledydd y DU yn rhoi defnyddwyr gwasanaethau a budd y cyhoedd yn gyntaf. Cytunaf â'r amcan hwnnw ac yr wyf am i'r cyngor gofal fod yn wahanol i'r cyrff rheoleiddio traddodiadol a gaiff eu rhedeg yn bennaf gan y proffesiynau eu hunain. Bydd defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a'r cyhoedd—pobl leyg—yn y mwyafrif ar y cyngor a chafodd person lleyg, Mutale Nyoni, ei phenodi'n gadeirydd. Bydd aelodau eraill y cyngor yn cynrychioli cyflogwyr, cymdeithasau proffesiynol, undebau llafur a'r rhai sydd yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant.

Nod y rheoliadau ger eich bron heddiw, sydd yn gwneud darpariaethau ar gyfer penodi, aelodaeth a gweithdrefnau'r cyngor, yw

designed to reflect the spirit of the White Paper. They are an important reflection of our wish to have a regulatory body free from a professional majority, able to make clear decisions that take account of the needs of those vulnerable people who use social care services and which, through its composition and conduct, will build confidence in the sector and strengthen public protection.

Therefore, as well as setting down general provisions on the council's procedures, the regulations also set down definitions of those who cannot be considered as lay people, which will be applied to the majority of members as described in the White Paper. They also set down provisions on the types of people who may not be appointed as members, again with an emphasis on improving public confidence. It will be essential for the council to be regarded as a body with the highest standards and for its members to promote those standards.

In the context of the partnership that exists in the sector, comments were sought on the regulations from January to March this year and were widely welcomed. The responses received have been taken into account in the regulations as they appear today. The regulations are an important step in the setting up of the Care Council for Wales and will allow us to move forward to enable the council to be in operation on 1 October 2001. I urge you to support the motions.

Brian Hancock: We, the Party of Wales, will vote in support—[CONSERVATIVE ASSEMBLY MEMBERS: 'Prince Philip and I—']

The Presiding Officer: Order.

Brian Hancock: I wish I could make a joke at this point, but I do not have the repertoire. I will start again.

Plaid Cymru—The Party of Wales will vote in support of both motions and we welcome the appointment of the chair of the Care Council for Wales, Mutale Nyoni. We wish

adlewyrchu ysbryd y Papur Gwyn. Maent yn adlewyrchiad pwysig o'n dymuniad i gael corff rheoleiddio lle na fydd gweithwyr proffesiynol yn y mwyafrif, sydd yn gallu gwneud penderfyniadau clir a fydd yn ystyried anghenion y bobl ddiameddiffyn hynny sydd yn defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol ac a fydd, drwy ei aelodaeth a'r ffordd y bydd yn gweithredu, yn ennyn hyder yn y sector ac yn rhoi mwy o ddiogelwch i'r cyhoedd.

Felly, yn ogystal â nodi darpariaethau cyffredinol ar gyfer gweithdrefnau'r cyngor, mae'r rheoliadau hefyd yn nodi diffiniadau o'r bobl hynny na ellir eu hystyried yn bobl lleyg, a fydd yn berthnasol i fwyafrif yr aelodau fel y disgrifiwyd yn y Papur Gwyn. Maent hefyd yn nodi darpariaethau ar gyfer y mathau o bobl na ellir eu penodi fel aelodau, gan roi pwyslais unwaith eto ar ennyn hyder y cyhoedd. Bydd yn hanfodol i'r cyngor gael ei ystyried fel corff sydd â'r safonau uchaf ac i'w aelodau hyrwyddo'r safonau hynny.

Yng nghyd-destun y bartneriaeth sydd yn bodoli o fewn y sector, gofynnwyd am sylwadau ar y rheoliadau rhwng mis Ionawr a mis Mawrth eleni ac fe'u croesawyd yn gyffredinol. Ystyriwyd yr atebion a gafwyd wrth lunio'r rheoliadau fel y maent yn ymddangos heddiw. Mae'r rheoliadau yn gam pwysig yn y broses o sefydlu Cyngor Gofal Cymru a byddant yn caniatáu inni symud ymlaen a sicrhau bod y cyngor yn weithredol o 1 Hydref 2001. Apeliaf arnoch i gefnogi'r cynigion.

Brian Hancock: Byddwn ni, Plaid Cymru—The Party of Wales yn pleidleisio dros y cynigion—[AELODAU CEIDWADOL O'R CYNULLIAD: 'Bydd y Tywysog Philip a minnau—]

Y Llywydd: Trefn.

Brian Hancock: Byddai'n dda gennyf pe gallwn wneud jôc ond nid oes llawer o stôr gennyf. Dechreuaf eto.

Bydd Plaid Cymru—The Party of Wales yn pleidleisio dros y ddau gynnig a chroesawn benodiad Mutale Nyoni fel cadeirydd Cyngor Gofal Cymru. Dymunwn bob llwyddiant iddi

her success in this important work.

We strongly welcomed the establishment of the Care Council for Wales when the Health and Social Services Committee first discussed it on 14 September 2000. Although I was not a member of the Committee at that time, I welcome and support it.

It is extremely important that the council regulates the social care workforce throughout Wales and sets codes of practice for employees and employers. It will take over responsibilities for regulating qualifying and post-qualifying social work training and for administering bursaries for postgraduate social work students. It will discharge in Wales the functions of the employer-led national training organisation for personal social services. All these measures will generally improve the standards of social care in Wales.

Membership of the council is to include two representatives of private sector employers, but only one representative from the voluntary sector. I would like to have suggested at the time that there should be equal numbers of representatives from the private and voluntary sectors, because voluntary sector involvement is crucial. How will these representatives be chosen, because there are so many of them?

The Department of Health is proposing to limit registration in England to those who are qualified, who currently make up about 15 per cent of the workforce. However, when the legislation was being prepared, the Plaid Cymru members of the Committee confirmed that we wished for the Assembly to have a more flexible and comprehensive approach, in line with the White Paper. Under the terms of the Care Standards Act 2000, it will fall to the Assembly to make such decisions.

Finally, we will support both motions and we welcome the establishment of the council.

David Melding: The Welsh Conservative Party supports these regulations and wishes

yn y gwaith pwysig hwn.

Croesawyd sefydlu Cyngor Gofal Cymru yn frwd gennym pan y'i trafodwyd yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am y tro cyntaf ar 14 Medi 2000. Er nad oeddwn yn aelod o'r Pwyllgor ar y pryd, yr wyf yn ei groesawi a'i gefnogi.

Mae'n hynod bwysig bod y cyngor yn rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol ledled Cymru ac yn gosod codau ymarfer ar gyfer cyflogeion a chyflogwyr. Bydd yn ymgymryd â'r cyfrifoldebau dros reoleiddio hyfforddiant gwaith cymdeithasol i'r rhai sydd yn cymhwysu ac hyfforddiant gwaith cymdeithasol ôl-gymhwysol a thros weinyddu ysgoloriaethau i ôl-raddedigion mewn gwaith cymdeithasol. Bydd yn cyflawni yng Nghymru swyddogaethau'r sefydliad hyfforddiant cenedlaethol a arweinir gan gyflogwyr ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol personol. Bydd yr holl fesurau hyn yn gwella safonau gofal cymdeithasol yn gyffredinol yng Nghymru.

Bydd aelodau'r cyngor yn cynnwys dau gynrychiolydd o blith cyflogwyr y sector preifat, ond un cynrychiolydd yn unig o'r sector gwirfoddol. Hoffwn fod wedi awgrymu ar y pryd y dylai fod yr un nifer o gynrychiolwyr o'r sector preifat a'r sector gwirfoddol, gan fod cyfranogiad y sector gwirfoddol yn hollbwysig. Sut y caiff y cynrychiolwyr hyn eu dewis, gan fod cymaint ohonynt?

Mae'r Adran Iechyd yn cynnig cyfyngu'r cofrestrriad yn Lloegr i'r rhai sydd â chymwysterau, sef tua 15 y cant o'r gweithlu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, pan baratwyd y ddeddfwriaeth, cadarnhaodd aelodau Plaid Cymru o'r Pwyllgor ein bod am i'r Cynulliad fabwysiadu ymagwedd fwy hyblyg a chynhwysfawr, yn unol â'r Papur Gwyn. O dan amodau Deddf Safonau Gofal 2000, y Cynulliad fydd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau o'r fath.

I gloi, cefnogwn y ddau gynnig a chroesawn sefydlu'r cyngor.

David Melding: Mae Plaid Geidwadol Cymru yn cefnogi'r rheoliadau hyn ac yn

the Care Council for Wales every success in its future work. I am pleased to see the recently-appointed chair of that organisation here, listening to this debate.

I have a couple of questions to ask and I apologise to the Minister for not having given her prior notice of these. However, I would be happy for her to reply to me in writing or in tomorrow's Health and Social Services Committee meeting.

First, does the Executive intend for the care council's proceedings to be public and will its minutes be published and publicly available? Secondly, on the formation of committees and sub-committees, as the situation currently stands, non-members of the council will be able to serve on the committees, and committees could be constituted completely from non-members. That is, not one member of the council necessarily has to be on a committee or a sub-committee. I realise that there must be non-members on these committees—some of them will be of a technical nature—but it is odd that there is not provision for at least one member of the council to be on these technical committees. I would appreciate a response to those questions.

The Minister for Health and Social Services (Jane Hutt): I thank Brian for his support for these regulations. We are driving up standards in the social care workforce, but also giving it the recognition that it needs to achieve its purpose.

On membership, as you know, lay members and users will be in the majority on the council and the chair is a lay member. We are seeking to publicise membership of the council and trying to break new ground yet again with our public appointments process to ensure that we reach out to lay people, who may well be in the voluntary sector, or who may be users in the community. We need to reach out to people who have that kind of experience to offer on to the council. We envisage that this will be a new way of reaching out to bring people forward for

dymuno pob llwyddiant i Gyngor Gofal Cymru yn ei waith yn y dyfodol. Yr wyf yn falch o weld bod cadeirydd newydd-benodedig y sefydliad hwnnw yma, yn gwrandao ar y ddadl hon.

Mae gennyf un neu ddau o gwestiynau i'w gofyn ac ymddiheuraf i'r Gweinidog am fetu â rhoi rhybudd ymlaen llaw iddi. Fodd bynnag, byddwn yn barod i dderbyn ymateb ganddi yn ysgrifenedig neu yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yfory.

Yn gyntaf, a yw'r Weithrediaeth yn bwriadu y bydd trafodion y cyngor gofal yn gyhoeddus ac a fydd ei gofnodion yn cael eu cyhoeddi ac ar gael i'r cyhoedd eu darllen? Yn ail, ynglŷn â ffurfio pwyllgorau ac is-bwyllgorau, fel y saif pethau ar hyn o bryd, gall pobl nad ydynt yn aelodau o'r cyngor fod yn aelodau o'r pwyllgorau, a gallai aelodaeth pwyllgor cyfan gynnwys pobl nad ydynt yn aelodau o'r cyngor. Hynny yw, nid oes rhaid i bwyllgor nac is-bwyllgor gynnwys yr un aelod o'r cyngor. Sylweddolaf fod yn rhaid i bobl nad ydynt yn aelodau fod ar y pwyllgorau hyn—bydd rhai ohonynt o natur dechnegol—ond mae'n rhyfedd nad oes unrhyw ddarpariaeth sydd yn nodi bod yn rhaid i un aelod o'r cyngor o leiaf fod ar y pwyllgorau technegol hyn. Gwerthfawrogn ymateb i'r cwestiynau hynny.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt): Diolchaf i Brian am ei gefnogaeth i'r rheoliadau hyn. Yr ydym yn codi safonau yn y gweithlu gofal cymdeithasol, ond yr ydym hefyd yn rhoi'r gydnabyddiaeth sydd ei hangen arno i gyflawni ei nod.

O ran yr aelodaeth, fel y gwyddoch, bydd aelodau lleyg a defnyddwyr yn y mwyafrif ar y cyngor ac aelod lleyg yw'r cadeirydd. Yr ydym yn ceisio rhoi cyhoeddusrwydd i aelodaeth y cyngor ac yn ceisio torri tir newydd unwaith eto yn ein proses o wneud penodiadau cyhoeddus er mwyn sicrhau ein bod yn apelio at bobl lleyg, a all fod yn y sector gwirfoddol, neu a all fod yn ddefnyddwyr yn y gymuned o bosibl. Mae angen inni apelio at bobl sydd â'r math hwnnw o brofiad i'w gynnig i'r cyngor. Rhagwelwn y bydd hyn yn ffordd newydd o

membership. We will be using Network Wales—the Welsh Council for Voluntary Action newsletter—and will hold meetings to try to reach people to ensure that voluntary, lay voices are well represented.

apelio at bobl a'u darbwyllo i fod yn aelodau. Byddwn yn defnyddio Rhwydwaith Cymru—cylchlythyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru—a byddwn yn cynnal cyfarfodydd i geisio apelio at bobl er mwyn sicrhau y caiff lleisiau lleyg, gwirfoddol gynrychiolaeth dda.

3:20 p.m.

On your points about the terms of reference and the accountability of sub-committees, David, I need to clarify that for you, and will do so, hopefully, by tomorrow. I think that the council, in the spirit of transparency and openness and driving up public accountability, would want to be as open as possible. We can discuss that with the chair and consider whether there are any reasons why that should not be the case. However, I hope and expect that there would be as much openness and transparency as we seek to achieve in this Chamber. It is in the spirit of the Care Council for Wales that it should be so.

Ynglŷn â'ch pwyntiau ar gylch gorchwyl ac atebolrwydd yr is-bwyllgorau, David, mae angen imi geisio egluro hynny ichi, a gwnaf hynny erbyn yfory, gobeithio. Credaf y byddai'r cyngor, yn ysbryd eglurder a bod yn agored ac er mwyn hybu ei atebolrwydd i'r cyhoedd, am fod mor agored â phosibl. Gallwn drafod hynny gyda'r cadeirydd ac ystyried a oes unrhyw resymau pam na ddylai hynny fod. Fodd bynnag, gobeithiaf a disgwyliaf y byddai perthynas yr un mor agored ac eglur ag yr ydym yn anelu ati yn y Siambr hon. Byddai'n gydnaws â meddylfryd Cyngor Gofal Cymru iddo wneud hynny.

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar gymeradwyo egwyddor y rheoliadau.

The Presiding Officer: We will now vote on approving the principle of the regulations.

*Cynnig: O blaid 31, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 31, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Jocelyn
Essex, Sue
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Griffiths, John
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Law, Peter
Lloyd, David
Melding, David
Neagle, Lynne
Pugh, Alun

Richards, Rod
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar **The Presiding Officer:** We will now vote on
gymeradwyo'r rheoliadau. approving the regulations.

*Cynnig: O blaid 32, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 32, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Jocelyn
Essex, Sue
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Griffiths, John
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Melding, David
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Richards, Rod
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

**Cymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau
Deintyddol Cyffredinol)(Diwygio)(Cymru) 2001
Approval of the NHS (General Dental Services)(Amendment) Wales Regulations
2001**

The Minister for Health and Social Services (Jane Hutt): I propose that **Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol (Jane Hutt):** Cynigiaf fod

the National Assembly considers the principle of the NHS (General Dental Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2001, laid in the Table Office on 1 May 2001. (NDM675)

I also propose that

the National Assembly

1. considers the report of the Legislation Committee which has not identified under Standing Order No. 11.5 any matters for concern in the draft Order, the NHS (General Dental Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2001, laid in the Table Office on 8 May 2001; and

2. approves that the Order is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 1 May 2001. (NDM676)

These regulations further amend the NHS (General Dental Services) Regulations 1992, which regulate the terms by which general dental services are provided under the National Health Service Act 1977. They provide, with effect from 1 July 2001, that a list be established for each health authority area of those dentists providing treatment to patients under general anaesthesia as part of a general dental service; that treatment under general anaesthesia as part of general dental services can be provided only by dentists on that list; that dentists on that list must permit inspections of their premises; that the administration of general anaesthesia for the purposes of general dental services should be limited to an appropriately qualified doctor; and that treatment where general anaesthesia is involved must be provided either wholly under the general dental services or wholly as private dentistry. The intended effect of these measures is to implement the recommendations for general dental services, which flow from 'A Conscious Decision', the review of the use of general anaesthesia and conscious sedation in primary dental care.

y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried egwyddorion Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mai 2001. (NDM675)

Cynigiaf hefyd fod

y Cynulliad Cenedlaethol

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion o dan Reol Sefydlog Rhif 11.5 sy'n destun pryder yn y Gorchymyn drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mai 2001;

2. yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mai 2001. (NDM676)

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) 1992 ymhellach. Dyna'r rheoliadau sydd yn rheoleiddio'r amodau y caiff gwasanaethau deintyddol cyffredinol eu darparu yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977. Maent yn darparu, yn weithredol o 1 Gorffennaf 2001, fod yn rhaid i restr o'r deintyddion hynny sydd yn trin cleifion o dan anaesthesia cyffredinol fel rhan o wasanaeth deintyddol cyffredinol gael ei sefydlu ar gyfer pob ardal awdurdod iechyd; mai dim ond deintyddion sydd ar y rhestr honno a all roi triniaeth o dan anaesthesia cyffredinol fel rhan o wasanaethau deintyddol cyffredinol; bod yn rhaid i'r deintyddion ar y rhestr honno ganiatáu i'w deintyddfeydd gael eu harchwilio; mai dim ond meddygon â chymwysterau addas a ddylai roi anaesthesia cyffredinol at ddibenion gwasanaethau deintyddol cyffredinol; a bod yn rhaid i'r driniaeth honno lle y defnyddir anaesthesia cyffredinol gael ei darparu naill ai'n gyfan gwbl o dan y gwasanaethau deintyddol cyffredinol neu'n gyfan gwbl fel deintyddiaeth breifat. Effaith fwriadol y mesurau hyn yw gweithredu'r argymhellion ar gyfer gwasanaethau deintyddol cyffredinol, sydd yn deillio o 'A Conscious

Decision', sef yr adolygiad o'r defnydd o anesthesia a thawelyddu ymwybodol mewn gofal deintyddol sylfaenol.

The main recommendations were: that general anaesthesia should be undertaken only when absolutely necessary and that after 31 December 2001, general anaesthesia for dental treatment should take place only in a hospital setting. In the meantime, the NHS regulations governing the use of general anaesthesia for dental treatment outside hospitals should be strengthened to take account of the higher standards now being applied by the General Dental Council. Modern standards must be implemented and enforced by means of registration and inspection of premises and facilities. The regulations also confer on the Assembly a new duty to determine appeals against the decisions of health authorities that practice premises are not suitable for either the provision of general dental services, or of dental treatment under general anaesthesia.

On a separate issue, the National Health Service (General Dental Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2001 also introduce the obligation for a dentist to ask patients for proof when they claim entitlement to a free dental examination on grounds of age, and to record on the claim form when such evidence has not been shown. Since 1 April 2001 patients in Wales who are either under 25, or have reached the age of 60, do not have to pay for a NHS dental examination. Claimants who are entitled to a free examination are not yet subject to the same anti-fraud measures of point-of-treatment checks, which were introduced on 1 January for those claiming entitlement to free dental treatment. The passage of these regulations will ensure that they are in future.

David Lloyd: Dechreuaf drwy ddatgan fy muddiant arferol fel meddyg teulu. Fel plaid, yr ydym yn croesawu'r mesur hwn, a fydd yn sicrhau diogelwch cleifion sydd o dan driniaeth ddeintyddol. Mae anesthetig cyffredinol yn feddyginiaeth bwerus, fel y gwyddom oll, a dylai'r mesur hwn fod yn ddull effeithiol o fonitro'i defnydd gan ddeintyddion.

Y prif argymhellion oedd: na ddylid rhoi anesthesia cyffredinol oni fydd yn gwbl angenrheidiol ac ar ôl 31 Rhagfyr 2001 mai dim ond mewn ysbyty y dylid rhoi anesthesia cyffredinol ar gyfer triniaeth ddeintyddol. Yn y cyfamser, dylid cryfhau'r rheoliadau NHS sydd yn rheoli'r defnydd o anesthesia y tu allan i ysbytai ar gyfer triniaeth ddeintyddol er mwyn ystyried y safonau uwch a gymhwysir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol erbyn hyn. Rhaid gweithredu a gorfodi safonau modern drwy gofrestru ac arolygu deintyddfeydd a chyfleusterau. Mae'r rheoliadau hefyd yn rhoi dyletswydd newydd i'r Cynulliad sef penderfynu ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau awdurdodau iechyd nad yw deintyddfeydd yn addas naill ai ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol cyffredinol, neu ar gyfer triniaeth ddeintyddol o dan anesthesia cyffredinol.

Ar fater arall, mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2001 hefyd yn cyflwyno'r rhwymedigaeth fod yn rhaid i ddeintyddion ofyn i gleifion am brawf pan fyddant yn hawlio archwiliad deintyddol am ddim ar sail oedran, a chofnodi ar y ffurflen gais pan na roddwyd tystiolaeth o'r fath. Ers 1 Ebrill 2001 nid oes rhaid i gleifion yng Nghymru sydd naill ai o dan 25, neu sydd wedi cyrraedd 60 oed, dalu am archwiliad deintyddol NHS. Nid yw pobl sydd â'r hawl i gael archwiliad am ddim yn agored i'r un gwiriadau wrth roi triniaeth, sef mesurau gwrth-dwyll a gyflwynwyd ar 1 Ionawr, ag y rhai sydd yn hawlio triniaeth ddeintyddol am ddim. Bydd pasio'r rheoliadau hyn yn sicrhau y byddant felly yn y dyfodol.

David Lloyd: I begin by declaring my usual interest as a general practitioner. As a party, we welcome this measure, which will ensure the safety of patients receiving dental treatment. General anaesthetic is a powerful medicine, as we all know, and this measure should be an effective means of monitoring its use by dentists.

Yr ydym yn falch y bydd y mesur hwn yn galluogi pobl Cymru i fod yn hyderus eu bod yn derbyn triniaeth ddeintyddol ddiogel. Yn ogystal, mae'r dull sydd yn galluogi deintyddion i apelio i'r Cynulliad yn erbyn unrhyw benderfyniad yn bwysig er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru.

David Melding: The Welsh Conservative group also supports these regulations. It is important that we have best practice in the use of general anaesthetic. We should not forget that the majority of patients who receive that anaesthetic are children. They are often not of an age to give informed consent themselves. We must ensure that the best procedures are in place to safeguard their lives. There have been one or two tragic cases of children who have lost their lives during dental surgery.

Jane Hutt: Thank you Dai and David for those supportive remarks. General anaesthesia is a procedure that always carries a risk and should only be considered if there is an overriding clinical need and the alternative methods of pain control have been explained.

Thank you, David, for drawing attention to the tragedies that have occurred among children. I am glad that the Assembly seeks to adopt these regulations. Thank you Dai, for recognising that appeals are also important for the dental profession. I hope the Assembly will support the regulations.

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar gymeradwyo egwyddor y Gorchymyn.

We are pleased that this measure will ensure that the people of Wales can be confident that they are receiving safe dental treatment. In addition, the means whereby dentists can appeal to the Assembly against any decision is important to ensure consistency across Wales.

David Melding: Mae grŵp Ceidwadwyr Cymru hefyd yn cefnogi'r rheoliadau hyn. Mae'n bwysig inni gael yr arfer gorau wrth ddefnyddio anesthetig cyffredinol. Ni ddylem anghofio mai plant yw'r mwyafrif o'r cleifion sydd yn cael anesthetig. Maent yn aml heb gyrraedd oedran i roi caniatâd hyddysg eu hunain. Rhaid inni sicrhau bod y gweithdrefnau gorau ar waith er mwyn diogelu eu bywydau. Bu un neu ddau o achosion trist iawn pan fu farw plant tra'n cael llawdriniaeth ddeintyddol.

Jane Hutt: Diolch ichi Dai a David am y sylwadau cefnogol hynny. Mae anaesthesia cyffredinol yn weithdrefn sydd bob amser â risg iddi ac ni ddylid ei ystyried ond pan fo angen clinigol hollbwysig ac ar ôl egluro'r dulliau eraill o reoli poen.

Diolch, David, am dynnu sylw at y trychinebau a ddigwyddodd i blant. Yr wyf yn falch bod y Cynulliad yn ceisio mabwysiadu'r rheoliadau hyn. Diolch Dai, am gydnabod bod apeliadau yn bwysig hefyd i'r proffesiwn deintyddol. Gobeithiaf y bydd Cynulliad yn cefnogi'r rheoliadau.

The Presiding Officer: We will now vote on approving the principle of the Order.

*Cynnig: O blaid 36, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 36, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn

Davies, Jocelyn
Essex, Sue
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Melding, David
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sinclair, Karren
Richards, Rod
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar y cynnig i gymeradwyo'r Gorchymyn. **The Presiding Officer:** We will now vote on the motion to approve the Order.

*Cynnig: O blaid 35, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 35, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Jocelyn
Essex, Sue
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Melding, David
Morgan, Rhodri

Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sinclair, Karren
 Richards, Rod
 Rogers, Peter
 Ryder, Janet
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion carried.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 3.30 p.m.
 The Deputy Presiding Officer took the Chair at 3.30 p.m.*

Strategaethau Cymunedol Communities Strategies

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1, 4 and 5 in the name of William Graham and amendments 2, 3 and 6 in the name of Jocelyn Davies.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 4 a 5 yn enw William Graham a gwelliannau 2, 3 a 6 yn enw Jocelyn Davies.

The Minister for Finance, Local Government and Communities (Edwina Hart): I propose that

Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart): Cynigiau fod

the National Assembly

y Cynulliad Cenedlaethol

1. welcomes the broad community leadership role for local government implied by section 4(1) of the Local Government Act 2000 which can be found on the internet at <http://www.hms.gov.uk/acts/acts2000/20000022.htm> and which places on county and county borough councils in Wales a duty to prepare 'community strategies' for promoting or improving the economic, social and environmental wellbeing of their areas and contributing to the achievement of sustainable development in the UK;

1. croesawu'r rôl arweinwyr cymunedol cyffredinol a roddir ar lywodraeth leol gan adran 4(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000 y ceir copi ohoni ar y Rhyngwrwyd ar www.hms.gov.uk/acts/acts2000/20000022.htm a'r ddyletswydd a roddir ar gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru i baratoi 'strategaethau cymunedol' i hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardaloedd a chyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy yn y DU;

2. adopts the document 'Preparing Community Strategies', prepared in accordance with section 4 of the Act, laid before the National Assembly on 24 May 2001 which:

2. mabwysiadu'r ddogfen 'Paratoi Strategaethau Cymunedol' a baratowyd yn unol ag adran 4 y Ddeddf a osodwyd ger bron y Cynulliad Cenedlaethol ar 24 Mai 2001 a fydd:

(a) provides guidance to local authorities;

(a) yn ganllaw i awdurdodau lleol;

(b) commits the administration to co-ordinating and streamlining the variety of planning frameworks in local government;

(b) yn ymrwymo'r Weinyddiaeth i gydlynu a symleiddio'r amrywiaeth o fframweithiau cynllunio mewn llywodraeth leol;

(c) confirms the role of the administration's agencies in working in partnership with local

(c) yn cadarnhau rôl asiantaethau'r Weinyddiaeth trwy weithio mewn

authorities to develop community strategies. (NDM677)

I am pleased to open this afternoon's debate on the National Assembly's guidance to local authorities on preparing community strategies. The Local Government Act 2000 places on local authorities the duty to prepare community strategies to promote or improve the economic, social and environmental wellbeing of their areas and to contribute to the achievement of sustainable development. These are strategies that are to be developed and implemented by local people in community groups, voluntary and business sectors, and the role of local authorities is to lead all those involved. This is to put in effect a radical new definition of the core role of the local authority as a community leader. In this role, there is no arbitrary limit to the actions that a local authority can take in serving its community. We are taking the shackles off local government but we also have a vision, shared by local government, that actions undertaken with others in the community are at least as important as actions undertaken by the local authority itself. Welsh local government has been at the forefront in Britain in developing the ideas of community leadership.

It is often said that this Assembly does not influence primary legislation sufficiently. The duty to develop a community strategy was included in the Local Government Act 2000 because of concerted pressure from the Welsh Local Government Association and the National Assembly, working together. We recognised in Wales that there were issues that we had to explain to colleagues in England and that this duty was an important part of the whole jigsaw of government. In Wales, we recognise that we need effective local and national leadership based on working partnerships and widespread public participation. We have innovated by creating policy agreements with each local authority on a number of key objectives and targets, combining both local and national needs. The Assembly has agreed a local government scheme that commits the Assembly's agencies to working with local authorities to develop and implement community strategies.

partneriaeth ag awdurdodau lleol i ddatblygu strategaethau cymunedol. (NDM677)

Mae'n bleser gennyf agor dadl y prynhawn yma ar ganllawiau'r Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodau lleol ar baratoi strategaethau cymunedol. Rhydd Deddf Llywodraeth Leol 2000 ddyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi strategaethau cymunedol er mwyn hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardaloedd a chyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy. Mae'r rhain yn strategaethau i'w datblygu ac i'w gweithredu gan bobl leol mewn grwpiau cymunedol ac o fewn y sectorau gwirfoddol a busnes, a rôl yr awdurdodau lleol yw arwain pawb sydd yn rhan o'r gwaith. Bydd hyn yn gweithredu'r diffiniad newydd radicalaidd o rôl graidd yr awdurdod lleol fel arweinydd cymunedol. Yn y rôl hon, ni fydd terfyn mympwyol i'r camau y gall awdurdod lleol eu cymryd wrth wasanaethu ei gymuned. Cawn wared ar lyffethair o fewn llywodraeth leol ond mae gweledigaeth gennym hefyd, a rennir gan lywodraeth leol, bod gweithredoedd ar y cyd gydag eraill yn y gymuned o leiaf mor bwysig â gweithredoedd yr awdurdod lleol ei hunan. Bu llywodraeth leol Cymru ar flaen y gad ym Mhrydain o ran datblygu'r syniadau o arweinyddiaeth gymunedol.

Dywedir yn aml na chaiff y Cynulliad hwn ddylanwad digonol ar ddeddfwriaeth sylfaenol. Cynhwyswyd y ddyletswydd i ddatblygu strategaeth gymunedol yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 yn sgîl pwysau ar y cyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol, gan weithio gyda'i gilydd. Cydnabuwyd yng Nghymru fod materion yr oedd yn rhaid inni eu hegluro i'n cyd-Aelodau yn Lloegr a bod y ddyletswydd hon yn rhan bwysig o gyfanwaith llywodraeth. Yng Nghymru, cydnabyddwn fod angen arweinwyr lleol a chenedlaethol effeithiol arnom yn seiliedig ar bartneriaethau gwaith a chyfranogiad eang gan y cyhoedd. Buom yn arloesi drwy lunio cytundebau polisi gyda phob awdurdod lleol ar nifer o amcanion a thargedau allweddol, gan gyfuno anghenion lleol a chenedlaethol. Mae'r Cynulliad wedi cytuno ar gynllun llywodraeth leol sydd yn ymrwymo asiantaethau'r Cynulliad i gydweithio ag awdurdodau lleol i ddatblygu a gweithredu

strategaethau cymunedol.

This duty to prepare community strategies allows local people, through their community and voluntary groups and through local businesses, to work with the local authority and the Assembly's agencies to integrate local needs with the shared needs in the partnership agreement, so that all can work together over a sustained period of time. This is a new form of government that is radical and, I believe, innovative. It is based on the principles of partnership and participation. It was made in Wales, and delivered in primary legislation through pressure from Wales.

Community strategies will have three components: a long-term vision for the area, an action plan identifying the shorter term priorities and arrangements for monitoring and reviewing the implementation of the action plan in the light of social and economic changes. Although the Local Government Act 2000 places on local authorities the duty to prepare community strategies, they are not the local authorities' total strategy. Local authorities are the facilitators of the process of preparing strategies. Community strategies are shared documents that should be prepared and implemented jointly by local authorities and their partners, the voluntary and private sectors and other public bodies, and local communities. Community strategies will provide the means for a concerted approach to tackling what is important to local people and the success of Wales: poor environment, housing shortages, poor transport, unemployment, deprivation and social exclusion. The strategies will recognise that making progress requires action not only by government but all that have an interest in communities. The strategies will give a strong voice to communities in local policy-making and in determining the future of their areas, in particular what needs to be done to improve quality of life. Their task will be to ensure that community participation is extended to those with the least political and economic power and that the local voices of women and men of all ethnic groups and age groups, both young and old, are heard. That is an important aspect of the commitment

Mae'r ddyletswydd hon i baratoi strategaethau cymunedol yn caniatáu i bobl leol, drwy eu grwpiau cymunedol a gwirfoddol a thrwy fusnesau lleol, gydweithio â'r awdurdod lleol ac asiantaethau'r Cynulliad i integreiddio anghenion lleol â'r anghenion a rennir yn y cytundeb partneriaeth, fel y gallant oll gydweithio dros gyfnod estynedig. Dyma ffurf newydd ar lywodraeth sydd yn radical ac, yn fy marn i, yn arloesol. Mae'n seiliedig ar egwyddorion partneriaeth a chyfranogiad. Fe'i gwnaethpwyd yng Nghymru, ac fe'i cyflwynwyd mewn deddfwriaeth sylfaenol yn sgîl pwysau o Gymru.

Bydd i'r strategaethau cymunedol dair rhan: gweledigaeth hirdymor ar gyfer yr ardal, cynllun gweithredu sydd yn nodi'r blaenoriaethau yn y tymor byr a'r trefniadau o ran monitro ac adolygu'r gwaith o weithredu'r cynllun gweithredu yn sgîl newidiadau cymdeithasol ac economaidd. Er bod Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi strategaethau cymunedol, nid strategaeth gyfan yr awdurdodau lleol ydynt. Yr awdurdodau lleol a fydd yn hwyluso'r broses o baratoi strategaethau. Dogfennau a rennir yw'r strategaethau cymunedol y dylai awdurdodau lleol a'u partneriaid, y sectorau gwirfoddol a phreifat a chyrrff cyhoeddus eraill, a chymunedau lleol, eu paratoi a'u gweithredu ar y cyd. Bydd y strategaethau cymunedol yn fodd o sicrhau ymagwedd ar y cyd i fynd i'r afael â'r hyn sydd yn bwysig i bobl leol ac i lwyddiant Cymru: amgylchedd gwael, prinder tai, trafndiaeth wael, diweithdra, amddifadedd ac allgáu cymdeithasol. Bydd y strategaethau yn cydnabod bod gwneud cynnydd yn gofyn nid yn unig am weithredu gan y llywodraeth ond hefyd gan bawb sydd â diddordeb mewn cymunedau. Bydd y strategaethau yn rhoi llais cryf i gymunedau wrth lunio polisiau lleol ac wrth benderfynu ar ddyfodol eu hardaloedd, yn enwedig yr hyn y mae angen ei wneud i wella ansawdd bywyd. Eu tasg fydd sicrhau y bydd y rheini sydd â'r pŵer gwleidyddol ac economaidd lleiaf hefyd yn cyfrannu ac y caiff lleisiau lleol merched a dynion o bob grŵp ethnig a phob grŵp oedran, yr ifanc a'r hen, eu clywed. Dyna

through this legislation.

The introduction of community strategies provides an opportunity to rationalise and simplify the forward planning process in local government. Local authorities are currently required to produce over 30 statutory or informal plans or strategies. The community strategy process provides an opportunity to reduce that number and at the same time make them more responsive to objectives. I will consult, in the near future, on the proposals for reducing the number of plans.

In our enthusiasm for local partnership, we must ensure that we do not duplicate. There is a danger of duplication in our procedure, because we have community strategies, Objective 1, Communities First and health alliances and we must work hard to ensure that duplication does not occur. The guidance that we have prepared is not unduly prescriptive and leaves a great deal of discretion to local authorities and their partners as to how the strategies should be prepared.

A minority of those who responded to the consultation exercise wished the Assembly to specify in detail how community strategies should be prepared, what the format and content should be and to introduce formal adoption procedures for the strategy. We adopted the non-prescriptive approach because community strategies should reflect local needs and aspirations. The guidance, however, is clear about what community strategies should be. They should be jointly-produced documents that look ahead 10 to 15 years. They should be reviewed, with the partners' agreement, following the local elections every four years. There should be a significant element of public and community participation. Although the guidance does not specify it, I believe that community strategies should not be Soviet-style 10-year plans, but short documents, clearly setting out long-, medium- and short-term objectives and targets.

A number of amendments have been

agwedd bwysig ar yr ymrwymiad drwy'r ddeddfwriaeth hon.

Mae cyflwyno'r strategaethau cymunedol yn rhoi cyfle i ad-drefnu a symleiddio'r broses flaengynllunio mewn llywodraeth leol. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol lunio mwy na 30 o gynlluniau neu strategaethau statudol neu anffurfiol. Rhydd y broses strategaethau cymunedol gyfle i leihau'r nifer honno ac, ar yr un pryd, i sicrhau eu bod yn ymateb yn well i amcanion. Byddaf yn ymgynghori, yn y dyfodol agos, ar y cynigion i leihau nifer y cynlluniau.

Yn ein brwdfrydedd dros bartneriaeth leol, rhaid inni sicrhau nad ydym yn dyblygu gwaith. Mae perygl y caiff gwaith ei ddyblygu yn ein gweithdrefn, gan fod gennym y strategaethau cymunedol, Amcan 1, Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a'r cynghreiriau iechyd a rhaid inni weithio'n galed i sicrhau na chaiff gwaith ei ddyblygu. Nid yw'r canllawiau yr ydym wedi eu paratoi yn rhy orchmynnol ac maent yn rhoi cryn ryddid i awdurdodau lleol a'u partneriaid o ran y ffordd y dylai'r strategaethau gael eu paratoi.

Yr oedd cyfran o'r rheini a ymatebodd i'r ymarfer ymgynghori yn awyddus bod y Cynulliad yn nodi'n fanwl sut y dylai strategaethau cymunedol gael eu paratoi, a beth y dylai eu fformat a'u cynnwys fod a chyflwyno dulliau derbyn ffurfiol ar gyfer y strategaeth. Mabwysiadwyd ymagwedd nad yw'n orchmynnol gennym oherwydd y dylai strategaethau cymunedol adlewyrchu anghenion a dyheadau lleol. Mae'r canllawiau, fodd bynnag, yn egluro beth y dylai strategaethau cymunedol fod. Dylent fod yn ddogfennau a lunnir ar y cyd sydd yn edrych ymlaen 10 i 15 mlynedd. Dylid eu hadolygu, gyda chytundeb y partneriaid, ar ôl yr etholiadau lleol bob pedair blynedd. Dylent gynnwys elfen sylweddol o gyfranogiad cyhoeddus a chymunedol. Er nad yw'r canllawiau yn ei nodi, credaf na ddylai'r strategaethau cymunedol fod yn gynlluniau 10 mlynedd Sofietaidd, ond dogfennau byr, sydd yn nodi'n glir amcanion a thargedau hirdymor, tymor canolig a byrdymor.

Cynigiwyd nifer o welliannau. Ni chefnogaf

proposed. I will not support any of them. Jocelyn Davies's amendments are unnecessary. Amendment 2 repeats an aspect of the guidance that refers to the need for local authorities and their partners to consult local people and communities and engage meaningfully with them. The motion goes further than what the amendment proposes. Amendment 3 is also unnecessary. I mentioned that I intend to consult in the near future on proposals to reduce the number of plans. To support that amendment would be to prejudge the outcome of that consultation process. Amendment 6 refers to actions already taken by the administration. Paragraph 13.16 of the guidance and paragraph 4.2 of the local government partnership scheme, which the National Assembly adopted last year, commits the Assembly's executive agencies and sponsored public bodies to joint working and implementing community strategies. National Assembly officials have also sent letters to the chief executives of the Assembly's sponsored public bodies and, in the near future, a letter will be sent on behalf of Assembly Ministers to the chairs of these bodies reminding them of this commitment.

William Graham's amendments are also unnecessary. Amendment 1 refers to the need to keep the guidance under review. It is not the guidance that needs continual review, but the practices used in preparing the strategies. In particular, the strategies should be reviewed to ensure that they are being developed in the spirit of the guidance. We propose to achieve this through a community planning working group. The guidance deals with the issues referred to in amendments 4 and 5. It is inaccurate to suggest, as William does in amendment 4, that the guidance does not require local partnerships to address social exclusion. This is stated in paragraphs 3.4 to 3.12 of the guidance, where there is an emphasis on the importance of addressing the needs of different communities and groups including those who are hard to reach. In addition, the policy agreement between the Assembly and individual local authorities reinforces this, by requiring authorities to state specifically how they intend to address social exclusion in their community strategies. Amendment 5 is also inaccurate.

yr un ohonynt. Mae gwelliannau Jocelyn Davies yn ddiangen. Mae gwelliant 2 yn ailadrodd agwedd ar y canllawiau sydd yn cyfeirio at yr angen i awdurdodau lleol a'u partneriaid ymgynghori â phobl a chymunedau lleol a chael cysylltiadau ystylon â hwy. Â'r cynnig ymhellach na'r hyn a gynigir yn y gwelliant. Mae gwelliant 3 yn ddiangen hefyd. Crybwyllais fy mod yn bwriadu ymgynghori yn y dyfodol agos ar gynigion i leihau nifer y cynlluniau. Byddai cefnogi'r gwelliant hwnnw yn rhagfarnu canlyniad y broses ymgynghori honno. Mae gwelliant 6 yn cyfeirio at gamau a gymerwyd eisoes gan yr weinyddiaeth. Mae paragraff 13.16 y canllawiau a pharagraff 4.2 cynllun partneriaeth llywodraeth leol, a fabwysiadwyd gan y Cynulliad y llynedd, yn ymrwmo asiantaethau gweithredol y Cynulliad a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo i gydweithio ac i weithredu strategaethau cymunedol. Mae swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol wedi anfon llythyrau hefyd at brif weithredwyr y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ac, yn y dyfodol agos, caiff llythyr ei anfon ar ran Gweinidogion y Cynulliad i gadeiryddion y cyrff hyn gan eu hatgoffa o'r ymrwymiad hwn.

Mae gwelliannau William Graham hefyd yn ddiangen. Mae gwelliant 1 yn cyfeirio at yr angen i barhau i adolygu'r canllawiau. Nid y canllawiau sydd angen eu hadolygu'n barhaus, ond yr arferion a ddefnyddir wrth baratoi'r strategaethau. Yn benodol, dylid adolygu'r strategaethau i sicrhau y cânt eu datblygu yn unol â meddylfryd y canllawiau. Bwriadwn gyflawni hyn drwy weithgor cynllunio cymunedol. Mae'r canllawiau yn ymdrin â'r materion y cyfeirir atynt yng ngwelliannau 4 a 5. Nid yw'n gywir awgrymu, fel y gwna William yng ngwelliant 4, nad yw'r canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaethau lleol ymdrin ag allgáu cymdeithasol. Nodir hyn ym mharagraffau 3.4 i 3.12 y canllawiau, lle y pwysleisir pa mor bwysig yw ymdrin ag anghenion cymunedau a grwpiau gwahanol gan gynnwys y rheini y mae'n anodd eu cyrraedd. Yn ogystal, mae'r cytundeb polisi rhwng y Cynulliad ac awdurdodau lleol unigol yn atgyfnerthu hyn, drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau nodi'n benodol sut y maent yn bwriadu ymdrin ag allgáu

Paragraph 3.2 of the guidance requires authorities to involve business in a wider sense, not only in the community strategy process. As there are difficulties in engaging with the business sector, partnerships should look creatively at how this could be done. This can be achieved through exchange of good practice.

I therefore commend the approach that we have adopted in preparing the community strategies, which is reflected in the guidance that the Assembly has been asked to approve today.

William Graham: I propose the following amendments. Amendment 1: in point 2 delete 'adopts', and replace with 'continues to review'.

I propose amendment 4. At the end of point 2, add a new sub point:

(d) fails to address the social exclusion and distinct requirements of certain groups of people who are members of all our communities.

I propose amendment 5. At the end of point 2 add a new sub point:

(e) fails to fully engage independent sector businesses to participate and invest in their community strategies.

In this community strategy, we must consider the 10,790 words used for preparing community strategies. Do we consider these in isolation, or do we evaluate the contribution of this guidance to local authorities alongside, or as part of, the ever increasing amount of policy initiatives introduced by this Liberal Democrat/Labour administration to seek to further regulate communities throughout Wales?

Communities First was presented to the Assembly as the ultimate community strategy, directly targeted at the most deprived communities in Wales. This

cymdeithasol yn eu strategaethau cymunedol. Nid yw gwelliant 5 yn gywir ychwaith. Mae paragraff 3.2 y canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gynnwys busnesau mewn cyd-destun ehangach, nid yn unig ym mhroses y strategaeth gymunedol. Gan fod anawsterau o ran cysylltu â'r sector busnes, dylai partneriaethau edrych am ffordd greadigol o wneud hyn. Gellir cyflawni hyn drwy gyflwynu arfer da.

Cymeradwyaf, felly, yr ymagwedd yr ydym wedi'i mabwysiadu wrth baratoi'r strategaethau cymunedol, a gaiff ei hadlewyrchu yn y canllawiau y gofynnwyd i'r Cynulliad eu cymeradwyo heddiw.

William Graham: Cynigaf y gwelliannau canlynol. Gwelliant 1: ym mhwynt 2 dileer 'mabwysiadu'r', a rhodder 'parhau i adolygu'r'.

Cynigaf welliant 4. Ar ddiwedd pwynt 2, ychwaneger is-bwynt newydd sydd yn darllen:

(d) methu â mynd i'r afael â dieithrwch cymdeithasol a gofynion unigryw rhai grwpiau o bobl sydd yn aelodau o'n holl gymunedau.

Cynigaf welliant 5. Ar ddiwedd pwynt 2, ychwaneger is-bwynt newydd sydd yn darllen:

(e) methu â chael busnesau yn y sector annibynnol i gyfrannu a buddsoddi'n llawn yn eu strategaethau cymunedol.

Yn y strategaeth gymunedol hon, rhaid inni ystyried y 10,790 o eiriau a ddefnyddir wrth baratoi strategaethau cymunedol. A ystyriwn y rhain ar eu pennau eu hunain, neu a werthuswn gyfraniad y canllawiau hyn i awdurdodau lleol ochr yn ochr â nifer y mentrau polisi byth gynyddol a gyflwynir gan y weinyddiaeth Democratiaid Rhyddfrydol/Llafur hon i geisio rheoleiddio ymhellach gymunedau ledled Cymru, neu fel rhan ohonynt?

Cyflwynwyd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf i'r Cynulliad fel y strategaeth gymunedol orau posibl, wedi'i thargedu'n uniongyrchol at y cymunedau mwyaf difreintiedig yng

guidance dedicates 299 words to it, most of which describe the representative make-up of the local partnership and to state that this should not be prescriptively applied. 'Engaging Wales—Consultation and Participation' was another of these 'let's all talk about solving our community problems' documents. Policy initiatives did not merit a mention. The Community Fund, previously called the National Lottery Charities Board—a notable Conservative success and a major element in the funding of all community initiatives so far discussed by the Assembly—again does not merit a word. The other major funding source, Objectives 1, 2 and 3, is covered in only 84 words—a passing thought to be aware of its existence—despite the £1.2 billion on offer.

Annex 1 clearly states that these community strategies add to a list of formal and informal plans and strategies that local authorities are preparing. The Assembly notes the report's comments that a large number of the plans that local authorities produce are expensive in terms of staff time and other resources to produce and update. They are confusing to elected members and the public, who find it difficult to differentiate between plans, many of which cover aspects of a single service, and are difficult to relate to authorities' wider priorities and funding strategies as the plans differ in their time horizons and when they were last updated.

3:40 p.m.

The Assembly has devoted time to discuss the need for joined-up government and, like the author of the consultation paper from which this guidance was forged, the theoretical aspects of the coalition Government. Our amendments seek to separate the theory from the practical achievements. We also seek to give communities in Wales the opportunity to exercise their choice in every aspect of community development, to make the decisions that affect their economic, social and environmental wellbeing.

Nghymru. Mae'r canllawiau hyn yn neilltuo 299 o eiriau iddi, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn disgrifio aelodaeth y bartneriaeth leol a nodi na ddylid bod yn orchymynnol yn hynny o beth. Yr oedd 'Ysgogi Cymru—Ymgynghori a Chymryd Rhan' yn un arall o'r dogfennau 'gadewch inni siarad am ddatrys ein problemau cymunedol' hyn. Nid oedd sôn am y mentrau polisi. Nid yw'r Gronfa Gymunedol, o'r enw Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol gynt—un o lwyddiannau mawr y Ceidwadwyr a phrif elfen o ran ariannu'r holl fentrau cymunedol a drafodwyd hyd yma gan y Cynulliad—yn cael ei chrybwyll ychwaith. Dim ond 84 o eiriau a neilltuir i'r prif ffynhonnell arian arall, sef Amcanion 1, 2 a 3—sylw wrth fynd heibio i fod yn ymwybodol o'i bodolaeth—er gwaethaf y £1.2 biliwn sydd ar gael.

Noda atodiad 1 yn glir fod y strategaethau cymunedol hyn yn ychwanegu at restr o gynlluniau a strategaethau ffurfiol ac anffurfiol a baratoir gan awdurdodau lleol. Noda'r Cynulliad sylwadau'r adroddiad bod nifer fawr o'r cynlluniau a lunnir gan awdurdodau lleol yn gostus o ran amser y staff ac adnoddau eraill a ddefnyddir i'w llunio a'u diweddarau. Maent yn peri dryswch i'r aelodau etholedig a'r cyhoedd, sydd yn ei chael yn anodd gwahaniaethu rhwng y cynlluniau, y mae llawer ohonynt yn cwmpasu agweddau ar un gwasanaeth, ac mae'n anodd eu cysylltu â blaenoriaethau ehangach a strategaethau ariannu'r awdurdodau gan fod y cynlluniau yn wahanol o ran eu terfynau amser a phryd y cawsant eu diweddarau ddiwethaf.

Mae'r Cynulliad wedi neilltuo amser i drafod yr angen am lywodraeth gydgyssylltiedig a, fel awdur y papur ymgynghorol y deilliodd y canllawiau hyn ohono, yr agweddau damcaniaethol ar y Llywodraeth glymblaid. Mae ein gwelliannau yn ceisio gwahanu'r theori oddi wrth y cyflawniadau ymarferol. Ceisiwn hefyd roi cyfle i gymunedau Cymru wneud dewis ym mhob agwedd ar ddatblygu cymunedol, i wneud penderfyniadau sydd yn effeithio ar eu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

We cannot fully adopt guidance for community strategies that come down from local authorities upon our communities, which would have overall local authority control. Local communities need to adopt their own strategies and not have ideas forced upon them. There must be no more plans or strategies that have all the failings outlined in Annex 1 of the consultation paper. The guidance must include safeguards, which are introduced to ensure that all companies that may receive financial assistance to locate in our communities do not move on as soon as this assistance ceases.

Amendment 4 addresses the fact that certain groups of people have distinct requirements, without which they are further imprisoned by our neglect. They may not be the most vocal or numerous members of our society, yet, throughout the whole of Wales, they are significant in number and require action, support and inclusion in our communities. There are such people in communities throughout Wales and they must be considered strategies for the whole of Wales. Unfortunately, this guidance fails to provide the structure to meet their requirements.

Amendment 5 recognises the fact that capital investment from independent companies is at the heart of communities; investment in factories, machinery and wages, without which, as we know only too well from Valley towns, our communities fade and fail. Arising from this is the acceptance by the Welsh Conservative group of independent investment in public projects. We do not wish to imitate the Liberal Democrat/Labour coalition or Plaid Cymru in making a song and dance about how our principles make PFI unacceptable, and then casting our principles away on a desperate grasping onto the only source of investment able to deliver houses, schools, hospitals and the transport system we require. It is a requirement of the Assembly to work in partnership with business. These projects, and the independent financial investment they attract, illustrate this partnership in action. It is up to us to ensure that the public money these projects release is directed to people who rely on our vital services. That is why independent

Ni allwn fabwysiadu'n llawn ganllawiau ar strategaethau cymunedol a luniwyd gan awdurdodau lleol ond a orfodir ar ein cymunedau, a fyddai o dan reolaeth gyffredinol yr awdurdod lleol. Mae angen i awdurdodau lleol fabwysiadu eu strategaethau eu hunain ac ni ddylai syniadau gael eu gorfodi arnynt. Rhaid peidio â chael mwy o gynlluniau a strategaethau sydd â'r holl ddiffygion a amlinellir yn Atodiad 1 o'r papur ymgynghorol. Rhaid i'r canllawiau gynnwys camau diogelu, a gyflwynir i sicrhau nad yw'r holl gwmnïau a all gael cymorth ariannol i symud i'n cymunedau yn symud ymlaen cyn gynted ag y daw'r cymorth i ben.

Mae gwelliant 4 yn ymdrin â'r ffaith bod gan rai grwpiau o bobl ofynion penodol, ac oni wneir hynny, cânt eu carcharu ymhellach drwy ein hesgeulustod. Efallai nad yr aelodau mwyaf llafar a niferus o'n cymdeithas ydynt, ond eto, ledled Cymru, mae nifer sylweddol ohonynt ac mae angen cymryd camau i'w cynorthwyo a'u cynnwys yn ein cymunedau. Mae pobl o'r fath mewn cymunedau ledled Cymru a rhaid eu hystyried fel strategaethau dros Gymru gyfan. Yn anffodus, ni rydd y canllawiau hyn strwythur priodol i fodloni eu gofynion.

Mae gwelliant 5 yn cydnabod y ffaith mai buddsoddi cyfalaf gan gwmnïau annibynnol sydd wrth wraidd cymunedau; buddsoddi mewn ffatrioedd, peiriannau a chyflogau, a heb y buddsoddiad hwnnw, fel y gwyddom yn dda o brofiad ein trefi yn y Cymoedd, mae ein cymunedau yn dirywio ac yn chwalu. Yn codi o hyn mae'r ffaith bod grŵp Ceidwadwyr Cymru yn derbyn bod angen buddsoddi annibynnol mewn prosiectau cyhoeddus. Ni ddymunwn efelychu clymblaid y Democratiaid Rhyddfrydol/Llafur neu Blaid Cymru wrth wneud môr a mynydd o'r ffaith bod y fenter cyllid preifat yn annerbyniol oherwydd ein hegwyddorion, ac wedyn anghofio ein hegwyddorion er mwyn gafael yn wyllt yn yr unig ffynhonnell o fuddsoddi a all gyflwyno tai, ysgolion, ysbytai a system drafndiaeth sydd eu hangen arnom. Mae'n ofynnol i'r Cynulliad weithio mewn partneriaeth â busnes. Dengys y prosiectau hyn, a'r buddsoddi ariannol annibynnol a ddenir ganddynt, y bartneriaeth hon ar waith. Ein

business merits more than the 272 words allocated to it in this guidance. There are some vital words amid those 272 words, namely that

cyfrifoldeb ni yw sicrhau yr anelir yr arian cyhoeddus a ryddheir gan y prosiectau hyn at y bobl sydd yn dibynnu ar ein gwasanaethau hanfodol. Dyna pam fod busnes annibynnol yn haeddu mwy na'r 272 o eiriau a neilltuwyd iddo yn y canllawiau hyn. Mae rhai geiriau hanfodol ymysg y 272 o eiriau hynny, sef

'Business will have views on a wide range of issues related to the well-being of local communities, and the skills and ideas to enhance the work of partnership through innovation or new ways of working.'

At the heart of this guidance is a genuine theoretical desire to encourage the emergence of community-based strategies. The reality is that, once again, the Liberal Democrat/Labour administration has shown its lack of determination and leadership. To support our amendments would place us in the best position to realistically address and review the needs of all our communities in Wales.

Wrth wraidd y canllawiau hyn, mae awydd damcaniaethol gwirioneddol i annog strategaethau yn y gymuned. Y realiti yw bod y weinyddiaeth Democratiaid Rhyddfrydol/Llafur wedi dangos unwaith eto ei diffyg penderfyniad ac arweinyddiaeth. Byddai cefnogi ein gwelliannau yn ein rhoi yn y sefyllfa orau i ymdrin yn realistig ag anghenion pob un o'n cymunedau yng Nghymru ac i'w hadolygu.

Janet Ryder: I propose the following amendments in the name of Jocelyn Davies. Amendment 2: delete point 2(b), and add new point at end of motion:

Janet Ryder: Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Jocelyn Davies. Gwelliant 2: Dileer pwynt 2(b), ac ychwaneger pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

3. calls on the Labour/Liberal Democrat administration to bring forward a timetable outlining which planning frameworks they intend streamlining and the date by which this will be accomplished.

3. yn galw ar y weinyddiaeth Llafur/Democratiaid Rhyddfrydol i gyflwyno amserlen yn amlinellu pa fframweithiau cynllunio y maent yn bwriadu eu symleiddio a'r dyddiad ar gyfer cyflawni hyn.

I propose amendment 3. Delete point 2(c), and add new point at end of motion:

Cynigiau welliant 3. Dileer pwynt bwled 2(c), ac ychwaneger pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

4. calls on the Labour/Liberal Democrat administration to instruct its agencies to work in partnership with local authorities to develop community strategies.

4. yn galw ar y weinyddiaeth Llafur/Democratiaid Rhyddfrydol i gyfarwyddo'i hasiantaethau i weithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i ddatblygu strategaethau cymunedol.

I propose amendment 6. Add a new point at the end of motion:

Cynigiau welliant 6. Ychwaneger fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

5. calls on all local authorities in Wales to work with other groups within their communities when preparing 'community strategies'.

5. yn galw ar awdurdodau lleol Cymru i weithio gyda grwpiau eraill yn eu cymunedau wrth baratoi 'strategaethau cymunedol'.

I declare an interest as a member of Ruthin Town Council.

Datganaf fuddiant fel aelod o Gyngor Tref Rhuthun.

Plaid Cymru—The Party of Wales firmly believes that local government policy should reflect the needs and opinions of the community it serves. The only way to ensure that is to create a mechanism to debate the needs, opportunities and aspirations of local communities and establish local priorities locally. We hope that community strategies will fulfil this purpose.

The success of a community strategy is dependent on the sense of ownership it generates inside and outside the council. It will give councillors a chance to develop their community leadership skills, as has been said, by providing the link between the local authority and other local groups and organisations. While realising that it is not their job to dictate to these partnerships, they should be leading them. They should also promote the role of the council as a strategic planning body for their area. I hope that the added responsibility these community strategies place on local councillors will motivate and encourage a more diverse range of people to come forward and serve in local government.

Community strategies have the potential to revolutionise the way in which local councils operate. Much has been made recently of the new cabinet system in local government and how it excludes not only councillors but communities from the decisions being taken. The local government cabinet system has been criticised for being secretive and for taking decisions behind closed doors. Community strategies could provide the counter balance to this and inject accountability, inclusiveness and more community involvement into the cabinet system. Community strategies should be developed in such a way as to enable the whole community to feel involved. Amendment 6 calls on the authorities to work with groups in their communities to form these plans.

The strategies should draw all the plans together, not only the council's but also those other bodies, such as the Welsh Development Agency, are expected to make for the local

Cred Plaid Cymru—The Party of Wales yn gryf y dylai polisi llywodraeth leol adlewyrchu anghenion a safbwyntiau'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu. Yr unig ffordd o sicrhau hynny yw creu dull o gynnal dadl ar anghenion, cyfleoedd a dyheadau cymunedau lleol a phenderfynu ar flaenoriaethau lleol yn lleol. Gobeithiwn y bydd y strategaethau cymunedol yn cyflawni'r diben hwn.

Mae llwyddiant strategaeth gymunedol yn dibynnu ar ymdeimlad o berchnogaeth a grëir ganddi o fewn y cyngor ac y tu allan iddo. Bydd yn rhoi cyfle i gynghorwyr ddatblygu eu sgiliau fel arweinwyr cymunedol, fel y dywedwyd, drwy ddarparu'r cysylltiad rhwng yr awdurdod lleol a grwpiau a sefydliadau lleol eraill. Er eu bod yn sylweddoli nad eu gwaith hwy yw rhoi gorchmynion i'r partneriaethau hyn, dylent fod yn eu harwain. Dylent hefyd hyrwyddo rôl y cyngor fel corff cynllunio strategol eu hardal. Gobeithiaf y bydd y cyfrifoldeb ychwanegol y mae'r strategaethau cymunedol hyn yn eu rhoi i gynghorwyr lleol yn ysgogi ac annog amrywiaeth ehangach o bobl i wasanaethu mewn llywodraeth leol.

Mae gan y strategaethau cymunedol y potensial i chwyldroi'r ffordd y mae cynghorau lleol yn gweithredu. Cafwyd llawer o sôn yn ddiweddar am y system cabinet newydd mewn llywodraeth leol a'r ffordd y mae'n diystyru nid yn unig cynghorwyr ond cymunedau yn y penderfyniadau a wneir. Beirniadwyd system cabinet llywodraeth leol am fod yn gyfrinachgar ac am wneud penderfyniadau yn y dirgel. Gallai strategaethau cymunedol wrthbwyso hyn a sicrhau bod y system cabinet yn fwy atebol a chynhwysol a bod y gymuned yn cymryd mwy o ran ynddi. Dylid datblygu strategaethau cymunedol yn y fath fodd er mwyn galluogi'r gymuned gyfan i deimlo'n rhan ohonynt. Mae gwelliant 6 yn galw ar yr awdurdodau i gydweithio â grwpiau yn eu cymunedau i lunio'r cynlluniau hyn.

Dylai'r strategaethau dynnu'r holl gynlluniau ynghyd, nid yn unig gynlluniau'r cyngor ond hefyd y cynlluniau y disgwylir i gyrff eraill, megis Awdurdod Datblygu Cymru, eu llunio

authority area. Those plans should dovetail to form an overarching strategy for the area. That is the basis of our amendment 3. Once devised, these strategies should form a master plan and shape all the decisions taken by the cabinet regarding the authority area, and, on a smaller scale, each community. Although the cabinet and the full council will make the final decision, the community as a whole should feel a sense of ownership of the strategy. The situation of a community feeling that the council is taking a decision against its own wishes should no longer occur, because the community should have been part of the decision-making process.

When the Local Government Act 2000 was enacted it split the ability to amend the various local authority plans between the Secretary of State for Wales and this Assembly. That Act was a prime example of Labour's attempt to turn back the tide of devolution because it placed control over local authority plans relating to education, transport and unitary development plans back in the hands of the Secretary of State for Wales, while the Assembly has control over waste recycling, air quality and energy conservation. Despite what the Minister said about community strategies emerging in Wales as part of this Act, when Peter Law spoke about the Local Government Act 2000 he said,

'I regretfully draw the Assembly's attention to the fact that the UK Government has paid only partial heed to the Assembly's legitimate wishes on powers relating to community strategies in the current Local Government Bill.'

To make community strategies work effectively and to ensure that they incorporate all local plans under one umbrella, the Assembly needs to have comprehensive powers over all local government plans. This motion makes clear that the Minister intends—as she stated again today—to alter these plans. As she lacks the necessary powers to achieve that, I ask the Minister to comment on any protocol that she has developed with the Secretary of State for

ar gyfer ardal yr awdurdod lleol. Dylai'r cynlluniau hynny asio i lunio strategaeth gyffredin ar gyfer yr ardal. Dyna sail ein gwelliant 3. Unwaith byddant wedi eu llunio, dylai'r strategaethau hyn lunio prif gynllun a dylent lywio'r holl benderfyniadau a wneir gan y cabinet mewn perthynas ag ardal yr awdurdod, ac, ar raddfa lai, mewn perthynas â phob cymuned. Er mai'r cabinet a'r cyngor llawn a wna'r penderfyniad terfynol, dylai'r gymuned gyfan deimlo ei bod yn berchen ar y strategaeth. Ni ddylai sefyllfa godi erbyn hyn lle y bo'r gymuned o'r farn bod y cyngor yn gwneud penderfyniad sydd yn groes i'w dyheadau ei hunan, oherwydd y dylai'r gymuned fod wedi bod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.

Pan wnaethpwyd Deddf Llywodraeth Leol 2000, rhannodd y gallu i ddiwygio cynlluniau gwahanol awdurdodau lleol rhwng Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Cynulliad hwn. Yr oedd y Ddeddf honno yn enghraifft amlwg o ymdrech y Blaid Lafur i wrthdroi datganoli gan iddo ddychwelyd rheolaeth dros gynlluniau awdurdodau lleol yn ymwneud ag addysg a thrafnidiaeth a chynlluniau datblygu unedol i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, tra mai'r Cynulliad sydd yn rheoli ailgylchu gwastraff, ansawdd yr awyr a chadw ynni. Er gwaethaf yr hyn a ddywedodd y Gweinidog am strategaethau cymunedol yn dod i'r amlwg yng Nghymru fel rhan o'r Ddeddf hon, pan siaradodd Peter Law am Deddf Llywodraeth Leol 2000, dywedodd,

'Mae'n ofid imi dynnu sylw'r Cynulliad at y ffaith mai dim ond ystyriaeth rannol a roddodd Llywodraeth y DU i ddymuniadau cyfiawn y Cynulliad ar bwerau sydd yn ymwneud â strategaethau cymunedol yn y Mesur Llywodraeth Leol presennol.'

I sicrhau bod y strategaethau cymunedol yn gweithredu'n effeithiol a'u bod yn ymgorffori pob un o'r cynlluniau lleol o dan un ymbarél, mae angen i'r Cynulliad gael pwerau cynhwysfawr dros bob cynllun llywodraeth leol. Eglura'r cynnig hwn fod y Gweinidog yn bwriadu—fel y dywedodd eto heddiw—newid y cynlluniau hyn. Gan nad oes ganddi y pwerau sydd eu hangen arni i gyflawni hynny, gofynnaf i'r Gweinidog roi sylwadau ar unrhyw brotocol a ddatblygodd

Wales for dealing with that process. Our amendment 2 calls on the Labour/Liberal Democrat administration to bring forward a timetable for amending and streamlining those plans.

Community strategies could mean a whole new way of working both for councillors and officers. They have the potential to reinvigorate local democracy and bring local authorities closer to the people whom they serve. This is an ethos long called for by Plaid Cymru. We welcome the idea of community strategies, but would serve some warnings. The consultation between local authorities and other groups must be administered effectively. Effective consultation is expensive in time, money and resources and we call on the Minister to ensure that adequate resources are provided to enable this consultation and partnership building to take place. We would also like to see community strategies monitored more closely and reviewed more frequently than the consultation document suggests. We would favour an annual review as opposed to a four-yearly review and that would ensure that all the partners remain motivated throughout the lifetime of the elected council. The annual review should not be seen as a threat to the strategies. Its purpose would be to adjust the strategy according to what has been achieved over the previous year. In a strategy of this kind it is important to adjust the short-term goals on a regular basis to ensure that all partners remain motivated. Annual reviews would also ensure that the strategy is still relevant to the community and that it is evolving continually.

Properly planned and developed and well-resourced community strategies could herald a new era for local government in its community leadership role. We welcome today's motion. We serve the warnings that I have already put forward. We will not support the Tory amendments.

Karen Sinclair: I emphasise that this is an excellent initiative. Community strategies will enable local authority areas to develop a positive and ambitious long-term vision, one that truly reflects the needs and priorities of

gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ddelio â'r broses honno. Mae ein gwelliant 2 yn galw ar yr weinyddiaeth Llafur/Democratiaid Rhyddfrydol i gyflwyno amserlen i ddiwygio a symleiddio'r cynlluniau hynny.

Gallai strategaethau cymunedol olygu ffordd newydd sbon o weithio i gynghorwyr a swyddogion. Mae ganddynt y potensial i adfywio democratiaeth leol a dod ag awdurdodau lleol yn nes at y bobl a wasanaethir ganddynt. Dyma ethos y mae Plaid Cymru wedi galw amdano ers amser maith. Croesawn y syniad o strategaethau cymunedol, ond hoffem roi rhai rhybuddion. Rhaid i'r broses ymgynghori rhwng awdurdodau lleol a grwpiau eraill gael ei gweinyddu'n effeithiol. Mae ymgynghori effeithiol yn gostus o ran amser, arian ac adnoddau a galwn ar y Gweinidog i sicrhau y darperir adnoddau digonol i alluogi'r gwaith ymgynghori a datblygu partneriaethau hwn. Hoffem hefyd i strategaethau cymunedol gael eu monitro'n agosach a'u hadolygu'n fwy rheolaidd na'r hyn a awgrymir gan y ddogfen ymgynghori. Byddem o blaid adolygiad blynyddol yn hytrach nag adolygiad bob pedair blynedd. Byddai hynny yn sicrhau bod pob un o'r partneriaethau yn parhau'n frwdfrydig drwy gydol oes y cyngor etholedig. Ni ddylid ystyried yr adolygiad fel bygythiad i'r strategaethau. Ei ddiben fyddai addasu'r strategaeth yn ôl yr hyn a gyflawnwyd dros y flwyddyn flaenorol. Mewn strategaeth o'r math hwn, mae'n bwysig addasu'r nodau byrdymor yn rheolaidd i sicrhau bod pob un o'r partneriaid yn parhau'n frwdfrydig. Byddai adolygiadau blynyddol hefyd yn sicrhau bod y strategaeth yn parhau i fod yn berthnasol i'r gymuned a'i bod yn parhau i ddatblygu.

Gallai strategaethau cymunedol a gynllunnir ac a ddatblygir yn briodol ac a gaiff adnoddau da ddechrau cyfnod newydd ar gyfer llywodraeth leol yn ei rôl fel arweinydd cymunedol. Croesawn y cynnig hwn heddiw. Rhown y rhybuddion yr wyf eisoes wedi eu nodi. Ni chefnogwn welliannau'r Toriaid.

Karen Sinclair: Pwysleisiaf fod hon yn fenter ardderchog. Bydd strategaethau cymunedol yn galluogi ardaloedd awdurdodau lleol i ddatblygu gweledigaeth hirdymor gadarnhaol ac uchelgeisiol, sydd yn

local people. What excites me most is the commitment to fully involve ordinary people on the ground at every stage. As the document states, there needs to be genuine community engagement at an early stage of the process.

3:50 p.m.

I was heartened to read in paragraph 3(4) that it is not sufficient simply to consult committees on the options preferred by the authority and its partner organisations. It is more than that. This document acknowledges that in order to truly engage at grass-roots level, local authorities also need to invest in people. They will need to actively reach out to the community as a whole and invest in capacity building and awareness raising. Furthermore, the document recognises that specific efforts should be made to involve different ethnic communities, women, faith communities, older people and disabled people. It goes so far as to say that councils must ensure that the techniques that they employ do not discriminate against particular groups. That will ensure that these strategies are a true reflection of the desires of the whole community and not just those that shout loudest, which has often been the case.

I make one small request, namely that materials are also available in British Sign Language on video, in addition to large print, and Braille and minority languages so that everybody has the opportunity to participate fully.

All these measures will ensure that community strategies are made by the communities for the communities and will be wholly community owned, which is imperative if they are to be sustainable. In closing, I remind you that this excellent initiative is possible because the UK Labour Government enacted the necessary primary legislation.

Rhodri Glyn Thomas: Yn gyntaf, ategaf yn gyfan gwbl yr hyn a ddywedwyd yn gynharach ynglŷn â'r angen i sicrhau bod y defnyddiau hyn i'w cael ar gyfer pawb yn ein cymunedau ac ar bob ffurf angenrheidiol er

wir adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau pobl leol. Yr hyn sydd yn fwyaf cyffrous yw'r ymrwymiad i gynnwys pobl gyffredin yn llawn ym mhob cam. Fel y noda'r ddogfen, mae angen gwir ysgogi'r gymuned yn gynnar yn y broses.

Fe'm calonogwyd wrth ddarllen ym mharagraff 3(4) na fydd yn ddigonol ymgynghori â phwyllgorau am yr opsiynau sydd orau gan yr awdurdod a'i sefydliadau partner yn unig. Golyga fwy na hynny. Mae'r ddogfen hon yn cydnabod bod angen i awdurdodau lleol fuddsoddi mewn pobl hefyd, er mwyn gwir ysgogi pobl gyffredin. Bydd angen iddynt fynd ati ac apelio at y gymuned gyfan a buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu gallu a chodi ymwybyddiaeth. At hynny, mae'r ddogfen yn cydnabod y dylid gwneud ymdrech benodol i gynnwys cymunedau ethnig gwahanol, merched, cymunedau crefyddol, pobl hŷn a phobl anabl. Â mor bell â dweud bod yn rhaid i gynghorau sicrhau nad yw'r technegau a ddefnyddiant yn gwahaniaethu yn erbyn grwpiau penodol. Bydd hynny'n sicrhau bod y strategaethau hyn yn adlewyrchu'n wirioneddol ddyheadau'r gymuned gyfan ac nid dim ond y rheini mwyaf croch, fel y digwyddodd yn aml yn y gorffennol.

Gwnaf un cais bach, sef bod y deunyddiau hefyd ar gael ar fideo sydd yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, yn ogystal â phrint bras, a Braille a ieithoedd lleiafrifol fel y caiff pawb gyfle i gymryd rhan lawn.

Bydd yr holl fesurau hyn yn sicrhau y caiff strategaethau cymunedol eu llunio gan y cymunedau dros y cymunedau ac y byddant yn eiddo i'r cymunedau cyfan, sydd yn hanfodol er mwyn iddynt fod yn gynaliadwy. I gloi, fe'ch atgoffaf fod y fenter ardderchog hon yn bosibl oherwydd y gwnaethpwyd y ddeddfwriaeth sylfaenol angenrheidiol gan Lywodraeth Lafur y DU.

Rhodri Glyn Thomas: Firstly, I endorse what has just been said about the need to ensure that these materials are available to everybody in our communities and in every format necessary to ensure that. I would hope

mwyn sicrhau hynny. Gobeithiwn y byddai hynny yn wir am bopeth y mae'r Cynulliad yn ei wneud a phopeth y mae'r Cynulliad yn ceisio ei gyfathrebu i'n cymunedau.

Plaid Cymru—The Party of Wales recognises the importance of placing a duty on all principal local authorities in Wales to prepare a community strategy for promoting the economic, environmental and social wellbeing of their areas in contributing to the achievement of sustainable development. We hope that this will ensure that all the work of Welsh local authorities is established in the framework of sustainable development, as is, in theory, the work of the National Assembly.

Steps to achieve that have been taken through the Local Agenda 21 initiative in most authorities. Indeed, some innovative and radical thinking has been taking place and is being implemented through Local Agenda 21. We can learn from examples of best practice and these are important to the whole of Wales. However, we must also recognise that because it is not a statutory duty; the call for all local authorities to establish local agenda 21 strategies by 2000 has not been heard by all. Some 10 years after the Rio conference, a number of local authorities in Wales do not have their plans in place. This situation is unacceptable. It is key. It is welcome that through the community strategies, the Local Government Act 2000 will ensure that local authorities are legally bound to mainstream sustainable development into their work.

However, we do have some concerns. Firstly, this document fails to link the local with the global; something that lies at the heart of the need for and the attainment of sustainable development. It succeeds only in linking local level with the UK level. This is hardly sufficient in a wider concept of sustainable development. It is an example of where the guidelines for community strategies fail to link with Local Agenda 21 in a way that they should. There are also many fine intentions in this document that are acceptable in principle and that have to be realised if the strategy is to succeed. Firstly, the strategies must consider the longer term. The document itself states that it aims to achieve development that meets the needs of today without

that that is true of everything that the Assembly does and everything that the Assembly tries to communicate to our communities.

Mae Plaid Cymru—The Party of Wales yn cydnabod pwysigrwydd rhoi dyletswydd ar bob un o'r prif awdurdodau lleol yng Nghymru i baratoi strategaeth gymunedol i hyrwyddo lles economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol eu hardaloedd wrth gyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy. Gobeithiwn y bydd hyn yn sicrhau y caiff holl waith awdurdodau lleol Cymru ei sefydlu o fewn fframwaith datblygu cynaliadwy, fel gwaith y Cynulliad Cenedlaethol, mewn egwyddor.

Cymerwyd camau i gyflawni hynny drwy'r fenter Agenda Leol 21 yn y rhan fwyaf o awdurdodau. Yn wir, cafwyd rhai syniadau arloesol a radicalaidd a gaiff eu gweithredu drwy Agenda Leol 21. Gallwn ddysgu gan enghreifftiau o arfer gorau ac mae'r rhain yn bwysig i Gymru gyfan. Fodd bynnag, rhaid inni gydnabod hefyd nad yw pawb wedi ymateb i'r galw i bob awdurdod lleol sefydlu strategaethau agenda leol 21 erbyn 2000, gan nad yw'n ddyletswydd statudol. Tua 10 mlynedd ar ôl cynhadledd Rio, nid yw nifer o awdurdodau lleol Cymru wedi rhoi eu cynlluniau ar waith. Nid yw'r sefyllfa hon yn dderbyniol. Mae'n allweddol. Croesewir y ffaith y bydd Deddf Llywodraeth Leol 2000, drwy'r strategaethau cymunedol yn sicrhau bod awdurdodau lleol o dan rwymedigaeth gyfreithiol i brif ffrydio datblygu cynaliadwy yn eu gwaith.

Fodd bynnag, mae gennym rai pryderon. Yn gyntaf, nid yw'r ddogfen hon yn cysylltu'r cyd-destun lleol â'r cyd-destun byd-eang, sef rhywbeth sydd wrth wraidd yr angen am ddatblygu cynaliadwy a'i sicrhau. Dim ond cysylltu'r lefel leol â lefel y DU a wna. Prin bod hyn yn ddigonol mewn cysyniad ehangach o ddatblygu cynaliadwy. Mae'n enghraifft o sefyllfa lle nad yw'r canllawiau ar gyfer strategaethau cymunedol yn cysylltu ag Agenda Leol 21 mewn ffordd briodol. Ceir llawer o fwriadau da yn y ddogfen hon sydd yn dderbyniol mewn egwyddor ond y mae'n rhaid eu cyflawni er mwyn i'r strategaeth lwyddo. Yn gyntaf, rhaid i'r strategaethau ystyried y tymor hwy. Noda'r ddogfen ei hun mai ei nod yw sicrhau

compromising the needs of future generations. It is essential that it does not slip into some kind of four-year-vision only, but that it also outlines policies to ensure that longer-term needs are met. That is, concerns that are intergenerational.

Secondly, there is a need for full community participation in developing and delivering a strategy. Some community development and participation is not only central to delivering sustainable development, it is also one of the cornerstones of Plaid Cymru—The Party of Wales's policies. It is clear that, in the past, communities have not felt involved in the work of all local authorities or even that those authorities are delivering on their priorities. It is essential that we take this opportunity to devolve the decisions to communities.

Finally, there is a danger that the emphasis on sustainable development will be missed by some of those developing the strategies, particularly in authorities that have not drawn up Local Agenda 21 plans. We must ensure that this does not happen. It is important that the Assembly takes the initiative in pushing this point to all those involved in developing the strategies. We are proud, as an institution, to have a statutory duty to promote sustainable development and that, in the form of community strategies, all local authorities in Wales will have a similar duty.

Peter Law: I am grateful to Karen Sinclair for referring to the fact that these community strategies come about as a result of UK Labour Government legislation. That is why we are considering introducing community strategies, which I welcome.

I listened carefully to what William Graham said from the Conservatives' side of the Chamber. The only thing that he did not bring to this debate was a sick bucket, which we all need when we have to listen constantly to what they say about their views, and when we look back over the 18 years of

datblygu sydd yn bodloni anghenion heddiw heb berygu anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n hanfodol nad yw'n dod yn rhyw fath o weledigaeth bedair blynedd yn unig, ond ei bod hefyd yn amlinellu polisiau a fydd yn sicrhau y bodlonir anghenion y tymor hwy, sef pryderon a rennir gan bob cenedlaeth.

Yn ail, mae angen i'r gymuned gymryd rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu a chyflwyno strategaeth. Mae rhywfaint o ddatblygu cymunedol a chyfranogiad gan y gymuned nid yn unig yn hanfodol i gyflwyno datblygu cynaliadwy, mae hefyd yn gonglfaen polisiau Plaid Cymru—The Party of Wales. Mae'n amlwg nad yw cymunedau wedi teimlo eu bod yn rhan o waith pob awdurdod lleol yn y gorffennol neu hyd yn oed bod yr awdurdodau hynny yn cyflwyno eu blaenoriaethau. Mae'n hanfodol y cymerwn y cyfle hwn i ddatganoli'r penderfyniadau i'r cymunedau.

Yn olaf, mae perygl y caiff y pwyslais ar ddatblygu cynaliadwy ei gollu gan rai o'r bobl sydd yn datblygu'r strategaethau, yn enwedig mewn awdurdodau nad ydynt wedi llunio cynlluniau Agenda Leol 21. Rhaid inni sicrhau na ddigwydd hyn. Mae'n bwysig bod y Cynulliad yn achub y blaen wrth bwysleisio'r pwynt hwn i bawb sydd yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu'r strategaethau. Yr ydym yn ymfalchïo, fel sefydliad, yn y ffaith fod gennym ddyletswydd statudol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac y bydd gan bob awdurdod lleol yng Nghymru ddyletswydd debyg, ar ffurf strategaethau cymunedol.

Peter Law: Yr wyf yn ddiolchgar i Karen Sinclair am gyfeirio at y ffaith y llunnir y strategaethau cymunedol hyn yn sgîl deddfwriaeth Llywodraeth Lafur y DU. Dyna'r rheswm pam ein bod yn ystyried cyflwyno strategaethau cymunedol, ac yr wyf yn eu croesawu.

Gwrandewais yn astud ar yr hyn a ddywedodd William Graham o du Ceidwadol y Siambr. Yr unig beth na chyflwynodd i'r ddadl hon oedd bwced chwydu, sydd ei hangen ar bob un ohonom pan fydd yn rhaid inni wrando drwy'r amser ar yr hyn a ddywedant am eu safbwyntiau, a phan

Conservative government, and remember how they hammered the deprived communities that will benefit from this revolutionary concept of Communities First. He referred to that and said that there are not many words in it. That is because the Minister has been consulting on it. 'Consultation' is not a word that the Tories ever appreciated. They did not understand nor believe in consultation. Communities First will be a great success because it will help to give deprived communities a chance for the future. I say that because I represent a deprived community, Blaenau Gwent, which, you will be pleased to hear, is number 659 on the Conservatives' target seat list for the UK General Election this week.

This excellent strategy for our cities, towns, villages and communities is not just for today's generation, but for future generations. It is a real partnership in communities, not like some of the part-time partnerships that I have seen in this Chamber, but I will not dwell on that. I just threw that in for Peter Black, who is usually the most part time of the part-time partnership.

I pay tribute to the Welsh Local Government Association for its work on this. It is about being able to provide a sound basis for the economic, social and environmental wellbeing of our communities in the future. The county and county borough councils are the democratically-elected representatives of those communities. They know their areas and can identify the needs of their communities. They will no doubt be ably assisted by the town and community councils, to which we also owe much, and we recognise that they do a good job in their communities. That contribution will be valuable; they will have the opportunity to provide a mechanism for debate, a focus for continuing improvement in those communities, and to see how the Assembly's priorities can be put into action, be related to those local communities, and can best be implemented. That, and the long-term visions of the local communities, the shared commitments of the organisations that will be

edrychwn yn ôl dros y 18 mlynedd o lywodraeth Geidwadol, gan gofio'r ffordd y dinistriwyd y cymunedau difreintiedig a fydd yn elwa ar Roi Cymunedau'n Gyntaf sydd yn gysyniad chwyldroadol. Cyfeiriodd at hynny a dywedodd nad oes llawer o eiriau yn y ddogfen. Y rheswm dros hynny yw y bu'r Gweinidog yn ymgynghori arni. Ni werthfawrogwyd y gair 'ymgynghori' erioed gan y Torïaid. Nid oeddent yn deall y broses o ymgynghori nac yn credu ynddo. Bydd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn llwyddiant mawr oherwydd y bydd yn helpu i roi cyfle i gymunedau difreintiedig ar gyfer y dyfodol. Dywedaf hynny gan fy mod yn cynrychioli cymuned ddifreintiedig, Blaenau Gwent, sef rhif 659 ar restr y Ceidwadwyr o'u seddi targed ar gyfer Etholiad Cyffredinol y DU yr wythnos hon, y byddwch yn falch o'i glywed.

Nid yn unig ar gyfer cenhedlaeth heddiw y mae'r strategaeth ardderchog hon ar ein dinasoedd, ein trefi, ein pentrefi a'n cymunedau, ond ar gyfer cenedlaethau y dyfodol. Partneriaeth wirioneddol mewn cymunedau ydyw, nid fel rhai o'r partneriaethau rhan amser yr wyf wedi eu gweld yn y Siambr hon, ond nid af ar drywydd hynny. Dywedais hynny at sylw Peter Black, sef yr aelod mwyaf rhan amser o'r bartneriaeth ran amser.

Talaf deyrnged i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am ei gwaith ar hyn. Mae'n ymwneud â'r gallu i ddarparu sail gadarn i les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ein cymunedau yn y dyfodol. Cynrychiolwyr a etholwyd yn ddemocrataidd o fewn y cymunedau hynny yw'r cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol. Maent yn adnabod eu hardaloedd a gallant nodi anghenion eu cymunedau. Cânt eu cynorthwyo'n fedrus yn ddiamau gan y cynghorau tref a chymuned, yr ydym yn ddyledus iawn iddynt hefyd, ac yr ydym yn cydnabod eu bod yn gwneud gwaith da yn eu cymunedau. Bydd y cyfraniad hwnnw yn werthfawr; bydd ganddynt y cyfle i ddarparu dull o gynnal dadleuon, ffocws ar gyfer gwelliant parhaus yn y cymunedau hynny, ac i ganfod sut y gall blaenoriaethau'r Cynulliad gael eu gweithredu, eu cysylltu â'r cymunedau lleol hynny, a'u gweithredu orau. Mae hynny, ynghyd â gweledigaethau hirdymor y cymunedau lleol,

involved, the opportunity to monitor, the implementation, and the periodic review, are all vital to build the communities that we want for our people.

That is fine, but this must change things for the better for all the people of Wales, throughout those communities. It is about real strategies for real people. This gives us the opportunity to build that. If we are to combat social deprivation, and include those communities, this will be a major tool in us doing so. Health trusts and Assembly sponsored public bodies all have a part to play—let us not forget that—as do the police, the fire authorities and the national park authorities. Everyone has a part to play, working with local government, to get it right. There are no soft options. Business must be consulted, along with the trade unions. The voluntary sector also has a large part to play. That must all be recognised because, working together, every community will be able to develop a strategy that is special to it. That is important because everywhere is different and everybody must count.

4:00 p.m.

David Lloyd: Datganaf fuddiant fel meddyg teulu ac aelod o gyngor Dinas a Sir Abertawe.

Y mae'r strategaethau cymunedol yn cynnig her fawr, nid yn unig i lywodraeth leol ond i holl asiantaethau'r Cynulliad a'r sector gwirfoddol. Ers sefydlu'r Cynulliad, y mae Plaid Cymru wedi gofyn am fwy o gydweithio rhwng gwahanol sectorau i lunio polisïau er budd y gymuned. Nid yw geiriad cynnig y Llywodraeth yn mynd yn ddigon pell a dyna paham yr ydym wedi cyflwyno gwelliannau. Y mae angen annog asiantaethau'r Llywodraeth i gydweithio gydag awdurdodau lleol i lunio strategaethau cymunedol.

Gan fod ystadegau iechyd ein cymunedau mwyaf difreintiedig mor echrydus o wael, dylai ystyriaethau iechyd fod yn rhan annatod o'r strategaethau cymunedol hyn. Y mae

cydymrwymiadau y sefydliadau a fydd yn cymryd rhan, y cyfle i fonitro, y ffordd o'u gweithredu, a'r adolygiad rheolaidd yn hanfodol i ddatblygu'r cymunedau yr ydym am eu sicrhau ar gyfer ein pobl.

Popeth yn iawn, ond rhaid i hyn newid pethau er gwell ar gyfer holl bobl Cymru, ledled y cymunedau hynny. Mae'n ymwneud â strategaethau gwirioneddol i bobl wirioneddol. Rhydd hyn y cyfle inni ddatblygu hynny. Bydd hyn yn un o'r prif ffyrdd o'n helpu i wrthsefyll amddifadedd cymdeithasol, a chynnwys y cymunedau hynny. Mae gan ymddiriedolaethau iechyd a chyrrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ran i'w chwarae—nac anghofiom hynny—fel sydd gan yr heddlu, yr awdurdodau tân ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol. Mae gan bawb ran i'w chwarae, gan gydweithio â llywodraeth leol, i gael pethau'n iawn. Nid oes opsiynau hawdd. Rhaid ymgynghori â busnes, ynghyd â'r undebau llafur. Mae gan y sector gwirfoddol ran fawr i'w chwarae hefyd. Rhaid cydnabod hynny oll, oherwydd y bydd pob cymuned, gan gydweithio, yn gallu datblygu strategaeth sydd yn unigryw i'r gymuned honno. Mae hynny'n bwysig gan fod pawb yn wahanol a bod yn rhaid i bawb gyfrif.

David Lloyd: I declare an interest as a general practitioner and a member of the City and County of Swansea council.

The community strategies offer a great challenge, not only to local government but to all the Assembly's agencies and the voluntary sector. Since the Assembly's establishment, Plaid Cymru has asked for more co-operation between different sectors to formulate policies for the benefit of the community. The wording of the Government motion does not go far enough, which is why we have tabled amendments. We need to encourage Government agencies to co-operate with local authorities to form community strategies.

Given that the health statistics of our most disadvantaged communities are so dreadfully poor, health considerations should be an essential part of these community strategies.

Plaid Cymru wedi bod yn hyrwyddo'r syniad o greu parthau gweithredu iechyd cymunedol i fynnu cydweithio rhwng iechyd, tai, addysg a diogelwch cymunedol i wella iechyd ein pobl yn yr ardaloedd mwyaf tlawd.

Plaid Cymru has been promoting the idea of creating community health action zones to insist on co-operation between health, housing, education and community safety to improve the health of our people in the poorest areas.

Yn y cyfamser, dylai unrhyw gynlluniau a strategaethau sydd yn hanu o'r gwasanaeth iechyd fod yn cydreddeg ac yn cydlynu gyda'r strategaethau cymunedol, fel bod y cydweithio trawsbortffolio yn dod yn realiti. Y mae angen dybryd i fod yn fwy ymosodol wrth hybu iechyd yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig. Felly, nid geiriau'n unig sydd eu hangen, ond gweithrediadau gydag adnoddau yn gwneud gwahaniaeth ar y llawr.

In the meantime, any schemes and strategies that come from the health service should run parallel and co-ordinate with community strategies, so that cross-portfolio co-operation becomes a reality. There is a dire need to be more proactive in promoting health in our most disadvantaged areas. Therefore, it is not only words that are needed, but actions backed by resources making a difference in the grassroots.

Felly, cri sydd gennyf i ystyriaethau iechyd fod yn ganolog wrth inni ystyried strategaethau cymunedol. Wedi'r cyfan, y mae rhai o ystadegau iechyd gwaethaf Ewrop i'w cael yng Nghymru. Wrth ymgynghori i greu strategaethau cymunedol, y mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn ystyried barn cymunedau diddordeb megis y byddar, y trwm eu clyw neu'r dall yn ogystal â chymunedau daearyddol. Nid yw'r cymunedau diddordeb yn gaeth i ffiniau daearyddol. Felly, dylid ystyried cymunedau diddordeb ar raddfa yr awdurdod cyfan.

Therefore, this is a cry for health considerations to be central to our consideration of community strategies. After all, Wales has some of the worst health statistics in Europe. When consulting to create community strategies, it is important that local authorities consider the opinions of communities of interest such as the deaf, hard of hearing or blind as well as geographical communities. The communities of interest are not bound by geographical boundaries. Therefore, communities of interest should be considered on an authority-wide level.

Yn olaf, yr ydym yn poeni am y posibilrwydd o 'flinder partneriaethol'—'*partnership fatigue*'. Y mae nifer o bartneriaethau lleol wedi eu sefydlu yn barod—partneriaethau Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, fel y clywsom gan Edwina, partneriaethau iechyd lleol, partneriaethau rhaglenni Ewropeaidd, partneriaethau y Fargen Newydd ac yn y blaen. Pryderwn fod hyn yn gofyn gormod o'n sefydliadau gwirfoddol ac yn dyblygu ymdrech yn gyffredinol gyda'r un materion yn cael eu trafod mewn gwahanol gyfarfodydd partneriaeth. Dylai'r strategaethau cymunedol geisio tynnu holl gynlluniau ardal benodol at ei gilydd i greu un bartneriaeth i hybu buddiannau'r ardal honno.

Finally, we are concerned about the possibility of 'partnership fatigue'. Several local partnerships have been established already—Communities First partnerships as we heard from Edwina, local health partnerships, European programme partnerships, the New Deal partnerships and so on. We worry that this asks too much of our voluntary organisations and duplicates efforts in general with the same matters being discussed in different partnership meetings. The community strategies should try to pull all the schemes for one community together to create one partnership to promote the interests of that area.

Brian Gibbons: This document will affect all communities throughout Wales. However, its content will be of most importance to those communities that face the greatest social and economic problems. I am relieved

Brian Gibbons: Bydd y ddogfen hon yn effeithio ar bob cymuned ledled Cymru. Fodd bynnag, bydd ei chynnwys o'r pwys mwyaf i'r cymunedau hynny sydd yn wynebu'r problemau cymdeithasol ac economaidd

that this matter is back on the agenda after a long time because these issues affect hundreds of thousands of people who have lived in severe social exclusion for the last two decades and more. It was nauseating, to say the very least, to listen to Peter Rogers on inequalities under the previous Conservative Government or to William Graham expressing concern, when the Conservatives have done so much to damage our communities.

Peter Rogers: It is worth pointing out what happened before those 18 years of Conservative Government about which we keep hearing. I assure you there was a great deal of deprivation in this country that we had to put right. I am proud of what we achieved.

Brian Gibbons: In the valley where I have lived for the last 20 years, before the Conservatives came to power, unemployment was 7 per cent. For most of the time that I worked there, male unemployment was 50 per cent. You did not need statistics to tell you what was going on. When you walked up and down the street, the destruction and the damage that had been done to the community was as plain as the nose on your face.

We are beginning to tackle those problems. We have seen a reduction in unemployment and between 40,000 and 50,000 new jobs have been created. Take-home pay has increased at a faster rate in Wales than elsewhere. That is important to our deprived communities. Crime levels are beginning to decrease and we have seen an increase in pensions, educational performance and child benefit. Much has been done. However, much more needs to be done.

An important point is made in the document about unrealistic expectations. Those of us who tried to be involved in community regeneration during the 18 years of Conservative rule have experienced that. Time and again, we have had promises and plans and unrealised expectations. As a result, many people have become cynical and demoralised. They are concerned that another initiative will mean more of the same.

mwyaf. Yr wyf yn falch o glywed bod y mater hwn ar yr agenda unwaith eto ar ôl amser maith gan fod y materion hyn yn effeithio ar gannoedd o filoedd o bobl sydd wedi'u hallgáu yn gymdeithasol yn ddifrifol dros y ddau ddegawd olaf neu hwy. Yr oedd yn troi arnaf, a dweud y lleiaf, wrando ar Peter Rogers yn trafod yr anghydraddoldebau o dan y Llywodraeth Geidwadol flaenorol, neu ar William Graham yn mynegi pryder, pan wnaeth y Ceidwadwyr gymaint i niweidio ein cymunedau.

Peter Rogers: Mae'n werth nodi'r hyn a ddigwyddodd cyn y 18 mlynedd hynny o Lywodraeth Geidwadol yr ydym yn parhau i glywed amdanynt. Rhoddaf sicrwydd ichi fod llawer o amddifadedd yn y wlad hon yr oedd yn rhaid inni ei unioni. Ymfalchïaf yn yr hyn a gyflawnwyd gennym.

Brian Gibbons: Yn y cwm lle y bûm yn byw ers yr 20 mlynedd ddiwethaf, cyn i'r Ceidwadwyr ddod i rym, 7 y cant oedd y gyfradd diweithdra. Am y rhan fwyaf o'r amser y bûm yn gweithio yno, yr oedd cyfradd diweithdra ymysg dynion yn 50 y cant. Nid oedd angen ystadegau arnoch i ddweud wrthyfch yr hyn a oedd yn digwydd. Pan oeddech yn cerdded ar y stryd, yr oedd y difrod a'r niwed a wnaethpwyd i'r gymuned mor amlwg â golau dydd.

Dechreuwn fynd i'r afael â'r problemau hynny. Gwelsom ostyngiad mewn diweithdra ac mae rhwng 40,000 a 50,000 o swyddi newydd wedi'u creu. Mae cyflogau clir wedi codi'n gyflymach yng Nghymru nag mewn manau eraill. Mae hynny'n bwysig i'n cymunedau difreintiedig. Mae lefelau torcyfraith yn dechrau gostwng ac mae pensiynau, perfformiad addysgol a budd-dâl plant wedi codi. Mae llawer wedi'i wneud. Fodd bynnag, erys llawer mwy i'w wneud.

Gwneir pwynt pwysig yn y ddogfen am ddisgwyliadau afrealistig. Mae'r rheini ohonom a geisiodd fod yn rhan o'r gwaith o adfywio cymunedol yn ystod y 18 mlynedd o dan reolaeth y Ceidwadwyr wedi profi hynny. Dro ar ôl tro, cawsom addewidion a chynlluniau a disgwyliadau afrealistig. O ganlyniad, aeth llawer o bobl yn sinicaidd a digalon. Maent yn poeni y bydd menter arall yn golygu'r un peth. Fodd bynnag, rhydd

However, much of the document's content gives us some confidence that that experience will not be repeated. For example, we now have the Communities First programme, in which there is a clear commitment to giving tens of millions of pounds every year to revive our communities. That money will be ring-fenced—no other government has promised that.

The document states that we must have a partnership with voluntary organisations. The partnership will not work for the voluntary organisations or the communities, nor on their behalf, following token consultation; it will work with communities.

The document also recognises that many of our communities have low capacity. It is desirable that we should have partnerships with representation of a third each from the private, public and voluntary sectors. However, many communities do not have the luxury of being able to form such partnerships of a third each. The document is sufficiently flexible to acknowledge that these capacities do not exist in every community. That is a welcome change from previous documents.

One important issue is not covered in the document. Now that we are beginning to seriously target money on social and economic regeneration for the first time, it is important that local authorities and other agencies do not use this opportunity to divert present core funding away from these areas and use the targeted funding as an excuse to redirect money to areas of less need. A clear statement is required in the strategy that existing core funding in the areas of greatest need must be transparently protected and that the money that we are providing through programmes such as Communities First and Sure Start will be ring-fenced and additional to existing funding.

Peter Black: I declare an interest as a member of Swansea City and County Council. As I listened to Janet Ryder talking about the masterplan and the timetable, I was

llawer o gynnwys y ddogfen rywfaint o hyder inni na fydd hynny'n digwydd y tro hwn. Er enghraifft, mae gennym bellach y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, lle y ceir ymrwymiad clir i roi degau o filiynau o bunnoedd bob blwyddyn i adfywio ein cymunedau. Caiff yr arian hwnnw ei glustnodi'n benodol—nid oes unrhyw lywodraeth arall wedi addo hynny.

Noda'r ddogfen bod yn rhaid inni sefydlu partneriaeth gyda sefydliadau gwirfoddol. Nid gweithio dros y sefydliadau'r gwirfoddol neu'r cymunedau, neu ar eu rhan, ar ôl proses ymgynghori symbolaidd y bydd y bartneriaeth; bydd yn cydweithio â'r cymunedau.

Mae'r ddogfen hefyd yn cydnabod bod gan lawer o'n cymunedau gapasiti isel. Mae'n beth dymunol y dylem sefydlu partneriaethau gyda nifer gyfartal o gynrychiolwyr gan y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol. Fodd bynnag, nid yw llawer o gymunedau mor ffodus â gallu llunio partneriaethau o'r fath lle y ceir nifer gyfartal o gynrychiolwyr o'r tri sector. Mae'r ddogfen yn ddigon hyblyg i gydnabod nad oes modd gwneud hynny ym mhob cymuned. Croesewir y ffaith fod hyn yn wahanol i ddogfennau blaenorol.

Ni thrafodir un mater pwysig yn y ddogfen. Gan ein bod bellach yn dechrau targedu arian o ddifrif at adfywio cymdeithasol ac economaidd am y tro cyntaf, mae'n bwysig nad yw awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill yn defnyddio'r cyfle hwn i ddargyfeirio ariannu craidd presennol o'r ardaloedd hyn gan ddefnyddio'r arian a dargedwyd fel esgus i ailgyfeirio arian i ardaloedd sydd â llai o angen. Mae angen datganiad clir yn y strategaeth bod yn rhaid diogelu'r cyllid craidd presennol yn yr ardaloedd sydd â'r angen mwyaf a hynny mewn modd tryloyw ac y bydd yr arian a ddarparwn drwy raglenni megis Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a Chychwyn Cadarn yn cael ei glustnodi'n benodol ac yn ychwanegol at y cyllid presennol.

Peter Black: Datganaf fuddiant fel aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe. Wrth imi wrando ar Janet Ryder yn siarad am y prif gynllun a'r amserlen, fe'm tarwyd gan y

struck by the thought that Edwina put to us when she introduced this debate, about Soviet-style plans. That is not what this is intended to be. However, Plaid Cymru seems to be advocating the idea in its amendments and in the rhetoric that it has used in proposing them.

However, Janet was right to say that these community strategies have the potential to revolutionise how councils are run—more so, possibly, than the rest of the modernisation process. To do that, councils need to treat this duty as an opportunity for change, not just in their communities but in how they operate as councils. The ownership of these plans is crucial. It is no good councils producing yet another plan. This must be inclusive and owned equally by all parties.

4:10 p.m.

The Assembly has discussed partnership frequently. Sometimes it seems that, nationally and locally, we have partnerships coming out of our ears. Peter Law referred to a partnership earlier, of which he does not seem to be a member—

Peter Law: Are you a member of the partnership Government today?

Peter Black: Yes, I am a member of it today.

Some partnerships are helpful; others are not. Most of them are difficult at one time or another.

In drawing up these strategies it is not enough to fall back on existing partnerships. I hope that councils will seek to engage and empower local people in their communities to ensure a genuine dialogue of ideas. If that produces a steady stream of complaints about broken paving slabs, so be it. However, it will also produce ideas for developing the community and the council area as a whole. These can be prioritised and fed into the process of developing the strategies.

pwynt a nododd Edwina pan gyflwynodd y ddatl hon, am gynlluniau Sofietaidd. Nid dyna fwriad hyn. Fodd bynnag, ymddengys fod Plaid Cymru yn cefnogi'r syniad yn ei gwelliannau ac yn y rhethreg a ddefnyddiodd wrth eu cynnig.

Fodd bynnag, yr oedd Janet yn llygad ei lle i ddweud bod gan y strategaethau cymunedol hyn y potensial i chwyldroi'r ffordd o redeg cynghorau—yn fwy felly, o bosibl, na gweddill y broses moderneiddio. I wneud hynny, mae angen i gynghorau ystyried y dyletswydd hwn fel cyfle i newid, nid yn unig yn eu cymunedau, ond yn y ffordd y gweithredant fel cynghorau. Mae perchenogaeth y cynlluniau hyn yn hollbwysig. Nid oes diben i gynghorau lunio cynllun arall. Rhaid i'r broses hon fod yn gynhwysol a rhaid i bob parti fod yn berchen arni yn gyfartal.

Mae'r Cynulliad wedi trafod partneriaeth yn aml. Weithiau, ymddengys fod gennym nifer ddi-rif o bartneriaethau, boed yn genedlaethol neu'n lleol. Cyfeiriodd Peter Law at bartneriaeth yn gynharach, yr ymddengys nad yw'n aelod ohoni—

Peter Law: A ydych yn aelod o'r Llywodraeth bartneriaeth heddiw?

Peter Black: Ydwyf, yr wyf yn aelod ohoni heddiw.

Mae rhai partneriaethau yn ddefnyddiol; ond nid yw eraill. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn profi anawsterau rywbryd neu'i gilydd.

Wrth lunio'r strategaethau hyn, nid yw'n ddigonol dibynnu ar bartneriaethau sydd yn bodoli eisoes. Gobeithiaf y bydd cynghorau yn ceisio ysgogi pobl leol yn eu cymunedau a rhoi pŵer iddynt er mwyn sicrhau trafodaeth wirioneddol ar syniadau. Os bydd hynny yn creu llif dibaid o gwynion am gerrig palmant sydd wedi torri, felly y bo. Fodd bynnag, bydd hefyd yn creu syniadau am ddatblygu'r gymuned ac ardal y cyngor yn gyffredinol. Gellir blaenoriaethu'r rhain a'u bwydo i'r broses o ddatblygu strategaethau.

These strategies are also an opportunity to put the business and voluntary sectors at the heart of council decision-making. That has been mentioned previously. They must not only be partners in a monthly or six-monthly forum, but equal co-owners of the strategy who present ideas and respond to other inputs. The strategies are an opportunity to ensure that, at a local level, councils can review their support for the voluntary sector in the light of their priorities and the needs of the community, and provide adequate long-term funding.

One criticism of the modernisation process is that many backbench councillors are struggling to find a role in it. This process is a way of addressing that, by ensuring that, in dealing with communities, their elected representatives, whether principal councils or community councils, are fully engaged. There must be an effort to involve all sectors of society, not only young people, who often feel most disengaged from their community and the process of government, but ethnic communities and disabled people. The community of interest concept that has been mentioned and which is flagged up in Communities First is relevant in ensuring that the strategy is as comprehensive as possible and that it encompasses other plans and strategies that the council already has a duty to produce.

Finally, Best Value is an important cornerstone of these strategies. We must ensure that services are of a high quality and offer value for money. The consultation process and market testing associated with Best Value reviews fits in well with the inclusive approach of community strategies. It also underlines the fact that they are not corporate plans, drawn up by council cabinets according to their priorities. These strategies must be living and evolving documents that produce efficient and responsive public services, according to the needs and wishes of the many communities that local councils serve. These strategies must signal a change of culture, or they will have failed.

Mae'r strategaethau hyn hefyd yn rhoi cyfle inni sicrhau bod i'r sectorau busnes a gwirfoddol ran ganolog ym mhroses gwneud penderfyniadau cynghorau. Crybwyllwyd hynny yn gynharach. Nid dim ond partneriaid mewn fforwm bob mis neu bob chwe mis a ddylent fod, ond cydberchnogion cyfartal y strategaeth sydd yn cyflwyno syniadau ac yn ymateb i fewnbynnau eraill. Rhydd y strategaethau gyfle i sicrhau y gall cynghorau, ar lefel leol, adolygu eu cymorth i'r sector gwirfoddol yng ngoleuni eu blaenoriaethau ac anghenion y gymuned, gan ddarparu digon o arian hirdymor.

Un beirniadaeth o'r broses moderneiddio yw bod llawer o gynghorwyr y meinciau cefn yn ei chael yn anodd dod o hyd i rôl ynddi. Mae'r broses hon yn ffordd o roi sylw i hynny, drwy sicrhau, wrth ddelio â chymunedau, y cysylltir yn llawn â'u haelodau etholedig, boed yn brif gynghorau neu'n gynghorau cymuned. Rhaid ymdrechu i gynnwys pob sector o'r gymdeithas, nid yn unig pobl ifanc, sydd yn aml wedi'u hymddieithrio fwyaf o'u cymuned a'r broses lywodraethu, ond cymunedau ethnig a phobl anabl. Mae'r cysyniad o gymuned diddordeb a grybwyllwyd ac a drafodwyd yn Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn berthnasol o ran sicrhau bod y strategaeth mor gynhwysfawr â phosibl a'i bod yn cwmpasu cynlluniau a strategaethau eraill y mae gan y cyngor eisoes ddyletswydd i'w llunio.

Yn olaf, mae Gwerth Gorau yn gonglfaen pwysig i'r strategaethau hyn. Rhaid inni sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel ac yn rhoi gwerth am arian. Mae'r broses ymgynghori a phrofion y farchnad sydd yn gysylltiedig â Gwerth Gorau yn cyd-fynd yn dda ag ymagwedd gynhwysol y strategaethau cymunedol. Mae hefyd yn tanlinellu'r ffaith nad cynlluniau corfforaethol ydynt, wedi'u llunio gan gabinetau cynghorau yn ôl eu blaenoriaethau hwy. Rhaid i'r strategaethau hyn fod yn ddogfennau byw sydd yn datblygu, sydd yn creu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon ac ymatebol, yn ôl anghenion a dyheadau'r cymunedau lawer a wasanaethir gan gynghorau lleol. Rhaid i'r strategaethau hyn ddechrau newid diwylliant, neu byddant wedi methu.

The Minister for Finance, Local Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth

Government and Communities (Edwina Hart): The community planning process introduced by part 1 of the Local Government Act 2000 and the guidance on preparing community strategy, which amplifies the requirement set out in the Act, is a groundbreaking development. I concur with Peter Black that we must adopt an innovative, new and acceptable approach. That is a key element of the process. We have the potential to create something that identifies and reflects people's experiences and needs locally. The process has the potential to develop further, over time, as a mechanism for allocating resources from the Assembly to local government and its partners. It is a joining-up process in terms of bringing strategies, views and communities together and deciding how we spend our money.

The success of community strategies and the community planning process will depend on the extent to which the strategies deliver tangible results to improve the public's quality of life. People want to see the results of this process. We must accept that the judge of its success will be the public and local communities. It will not be an easy process; it will involve local authorities and their partners in identifying different communities. Dai asked how we identify a community. Local authorities must engage with them meaningfully and resolve conflict in their views and aspirations. They must work together locally to meet agreed objectives and find agreed methods to measure progress towards agreed targets. That will be a difficult balancing act. The process will involve fundamental changes in the way of working and the culture of organisations.

Local authorities, their partners and local communities must be careful about how they develop the skills and ensure that they are not selfish about some issues. There must be a genuine coming together to meet the targets. Community groups and representatives will also have to learn new skills and a new language in order to communicate this agenda. Brian's point about funding and the transparency of any processes was well made, namely how money should be additional and how it should be utilised. Janet

Leol a Chymunedau (Edwina Hart): Mae'r broses cynllunio cymunedol a gyflwynwyd gan ran 1 Deddf Llywodraeth Cymru 2000 a'r canllawiau ar baratoi strategaeth gymunedol, sydd yn ehangu'r gofyniad a nodwyd yn y Ddeddf, yn ddatblygiad arloesol. Cytunaf â Peter Black fod yn rhaid inni fabwysiadu ymagwedd arloesol, newydd a derbyniol. Dyna elfen allweddol o'r broses. Mae gennym y potensial i greu rhywbeth sydd yn nodi ac yn adlewyrchu profiadau ac anghenion pobl yn lleol. Mae gan y broses y potensial i ddatblygu ymhellach, dros gyfnod, fel dull o ddyrannu adnoddau o'r Cynulliad i lywodraeth leol a'i phartneriaid. Proses gydgysylltiedig ydyw o ran dod â strategaethau, safbwyntiau a chymunedau at ei gilydd a phenderfynu sut y gwariwn ein harian.

Bydd llwyddiant y strategaethau cymunedol a'r broses cynllunio cymunedol yn dibynnu ar i ba raddau y mae'r strategaethau yn cyflwyno canlyniadau gwirioneddol sydd yn gwella ansawdd bywyd y cyhoedd. Mae pobl yn awyddus i weld canlyniadau'r broses hon. Rhaid inni dderbyn mai'r cyhoedd a'r cymunedau lleol fydd yn penderfynu a yw'n llwyddiant ai peidio. Ni fydd yn broses hawdd; bydd yn gofyn i awdurdodau lleol a'u partneriaid nodi gwahanol cymunedau. Gofynnodd Dai sut y nodwn gymuned. Rhaid i awdurdodau lleol gysylltu â hwy mewn ffordd ystyrion a datrys gwrthdaro o ran eu safbwyntiau a'u dyheadau. Rhaid iddynt gydweithio'n lleol i fodloni amcanion cytûn a dod o hyd i ddulliau cytûn i fesur cynnydd tuag at dargedau cytûn. Bydd yn anodd cydbwysu'r pethau hynny. Bydd y broses yn golygu newidiadau sylfaenol yn y ffordd o weithio ac yn niwylliant sefydliadau.

Rhaid i awdurdodau lleol, eu partneriaid a chymunedau lleol fod yn ofalus o ran sut y maent yn datblygu'r sgiliau a sicrhau nad ydynt yn ymdrin â rhai materion mewn ffordd hunanol. Rhaid iddynt gydweithio yn wirioneddol i fodloni'r targedau. Bydd yn rhaid i grwpiau a chynrychiolwyr cymunedol ddysgu sgiliau newydd ac iaith newydd hefyd er mwyn cyfleu'r agenda hon. Gwnaeth Brian bwynt da am ariannu a natur agored unrhyw brosesau, sef y ffaith y dylai unrhyw arian fod yn ychwanegol a sut y dylid ei

Ryder also expressed concern about the four-yearly review and she wanted annual reviews. We will have an element of review in having the community planning working group to jointly monitor and review the preparation of community strategies in Wales to highlight and disseminate good practice and periodically report to us. However, the four-yearly review that coincides with the local elections on that cycle is appropriate in light of the different partnership arrangements that will emerge within local government. We can monitor this area closely and see what happens.

Janet also made the point about the availability of financial support and resources not being specifically earmarked for the preparation and implementation of community strategies. However, there is scope for agencies to pool resources and achieve economies by reducing overlap and duplication of the policies that they follow and the services that they provide. There is a large amount of work to be done in that area. Recent health and local government legislation has been directed towards facilitating more co-operation between agencies, including service delivery. The National Assembly, when allocating grants for specific purposes, will have regard for the priorities identified in community strategies. That will also be a useful vehicle.

Dai was concerned about the health dimensions of these strategies. Community strategies will provide the overarching framework for other services or team specific plans. That includes health improvement programmes linked to the health action plans or their successors as the new structures and planning frameworks that have been developed on health and wellbeing. In the same way that the community strategies develop the overarching objectives for the local authority, a community strategy partnership will focus on other partnerships, including local health alliances and the local health groups. That is an important dimension.

ddefnyddio. Mynegodd Janet Ryder hefyd ei phryder am yr adolygiad pob pedair blynedd ac yr oedd am weld adolygiadau blynyddol. Bydd gennym elfen o adolygiad drwy'r gweithgor cynllunio cymunedol a fydd yn monitro ac adolygu ar y cyd y gwaith o baratoi strategaethau cymunedol yng Nghymru, yn amlgu a lledaenu arfer da ac yn cyflwyno adroddiad inni o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, mae'r adolygiad a gynhelir bob pedair blynedd sydd yn cyddaro â'r etholiadau lleol ar y cylch hwnnw yn briodol o ystyried y trefniadau partneriaeth gwahanol a fydd yn dod i'r amlwg o fewn llywodraeth leol. Gallwn fonitro'r maes hwn agos i weld yr hyn a fydd yn digwydd.

Gwnaeth Janet bwynt hefyd am argaeledd cymorth ac adnoddau ariannol nas clustnodwyd yn benodol ar gyfer y gwaith o baratoi a gweithredu strategaethau cymunedol. Fodd bynnag, mae lle i asiantaethau rannu eu hadnoddau a gwneud arbedion drwy leihau gorgyffwrdd neu ddyblygu yn y polisiau a ddilynant a'r gwasanaethau a ddarparant. Mae llawer o waith i'w wneud yn y maes hwnnw. Cyfeiriwyd deddfwriaeth iechyd a llywodraeth leol ddiweddar tuag at hwyluso mwy o gydweithio rhwng asiantaethau, gan gynnwys cyflwyno gwasanaethau. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol, wrth ddyrannu grantiau at ddibenion penodol, yn rhoi sylw i'r blaenoriaethau a nodwyd yn y strategaethau cymunedol. Bydd hynny'n arf defnyddiol hefyd.

Yr oedd Dai yn pryderu am yr agweddau ar y strategaethau hyn sydd yn ymwneud ag iechyd. Bydd y strategaethau cymunedol yn rhoi'r fframwaith cyffredinol ar gyfer gwasanaethau eraill neu gynlluniau ar gyfer timau penodol. Mae hynny'n cynnwys rhaglenni gwella iechyd yn gysylltiedig â'r cynlluniau gweithredu iechyd neu'r hyn a ddaw ar eu hól fel y strwythurau a'r fframweithiau cynllunio newydd a ddatblygwyd ym maes iechyd a lles. Yn yr un ffordd ag y mae'r strategaethau cymunedol yn datblygu'r amcanion cyffredinol ar gyfer yr awdurdod lleol, bydd partneriaeth strategaeth gymunedol yn canolbwyntio ar bartneriaethau eraill, gan gynnwys cynghreiriau iechyd lleol a'r grwpiau iechyd lleol. Mae hynny'n agwedd bwysig.

I spoke in my opening speech—and Janet asked me about it—about extending the Assembly’s power to rationalise the plans. That is a matter for the UK Government and I understand that preparations are well advanced and progress should be made after the general election. I will be consulting widely on my proposal to rationalise aspects of the planning framework in Wales and I will consult with local authorities. I am hopeful that we can make advances in that important area. William expressed concerns about the European funding dimensions of linking funding. It is essential at local authority level that there is an inter-relationship between the local action plans drawn up under the Objective 1, 2 and 3 programmes and the community strategies. It is important that once the community strategy is in place and agreed by partners that the structural funds priorities and policies will be expected to conform to the broad objectives set out in those community strategies.

The effort entailed in getting the community planning process to work will bring dividends for us in Wales. Partnership working is key to the future development of Wales. Wales is a small country. However, it is the optimum size to undertake joint working and reap the advantages that this can bring in enhanced effectiveness through sharing our skills and experience. We can then avoid duplication.

I note Dai’s point about partnership fatigue. It is a useful word, but I also believe that there is a dynamic in some of these partnerships. There is a real dynamic in the partnership that we envisage. It is only through co-operation that we can tackle the fundamental problems that have dogged our communities for generations. Partnership working through community planning process can be our competitive edge in this arena. However, the results will not be evident tomorrow—it will take a good few years. I commend the document to you. I ask you to reject the six amendments, which are unnecessary. I hope that you will support the resolution.

Soniais yn fy araith agoriadol—a gofynnodd Janet imi ynglŷn â’r mater—am ehangu pŵer y Cynulliad i symleiddio’r cynlluniau. Dyna fater i Lywodraeth y DU a deallaf fod llawer o waith paratoi wedi’i wneud ac y dylid gweld cynnydd ar ôl yr etholiad cyffredinol. Byddaf yn ymgynghori’n eang ar fy nghynllun i symleiddio agweddau ar y fframwaith cynllunio yng Nghymru a byddaf yn ymgynghori â’r awdurdodau lleol. Hyderaf y gallwn wneud datblygiadau yn y maes pwysig hwnnw. Mynegodd William bryderon am ddimensiynau ariannu Ewrop o ran cysylltu ariannu. Mae’n hanfodol bod rhyngberthynas o fewn awdurdodau lleol rhwng y cynlluniau gweithredu lleol a lunnir o dan raglenni Amcan 1, 2 a 3 a’r strategaethau cymunedol. Ar ôl sefydlu’r strategaeth gymunedol ac ar ôl i’r partneriaid gytuno arni, mae’n bwysig y disgwylir i flaenoriaethau a pholisiau’r cronfeydd strwythurol gydymffurfio â’r amcanion cyffredin a nodir yn y strategaethau cymunedol hynny.

Bydd yr ymdrech i sicrhau bod y broses cynllunio cymunedol yn gweithio yn talu ar ei ganfed inni yng Nghymru. Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i ddatblygu Cymru yn y dyfodol. Mae Cymru yn wlad fach. Fodd bynnag, oherwydd ei maint, mae yn y sefyllfa orau bosibl i ymgymryd â chydweithio ac i fanteisio ar yr hyn y gall hynny ei sicrhau o ran gwell effeithiolrwydd drwy rannu ein sgiliau a phrofiad. Gallwn wedyn osgoi dyblygu gwaith.

Nodaf bwynt Dai am flinder partneriaethol. Mae’n air defnyddiol, ond credaf hefyd fod deinameg yn perthyn i rai o’r partneriaethau hyn. Mae deinameg gwirioneddol yn y bartneriaeth yr ydym yn ei rhagweld. Dim ond drwy gydweithio y gallwn fynd i’r afael â’r problemau sylfaenol sydd wedi bod yn bresennol yn ein cymunedau ers cenedlaethau. Gall gweithio mewn partneriaeth drwy broses cynllunio cymunedol ddod â mantais gystadleuol inni yn y maes hwn. Fodd bynnag, ni fydd y canlyniadau yn amlwg yfory—bydd yn cymryd cryn nifer o flynyddoedd. Cymeradwyaf y ddogfen ichi. Gofynnaf ichi wrthod y chwe gwelliant, sydd yn ddiangen. Gobeithiaf y cefnogwch y cynnig.

Gwelliant 1: O blaid 7, Ymatal 0, Yn erbyn 36
Amendment 1: For 7, Abstain 0, Against 36

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Bourne, Nick
 Davies, Glyn
 Graham, William
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Richards, Rod
 Rogers, Peter

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Burnham, Eleanor
 Butler, Rosemary
 Chapman, Christine
 Dafis, Cynog
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Essex, Sue
 Evans, Delyth
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Hancock, Brian
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Jarman, Pauline
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Lloyd, David
 Law, Peter
 Lewis, Huw
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Phil

Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.

4:20 p.m.

Gwelliant 2: O blaid 16, Ymatal 0, Yn erbyn 24
Amendment 2: For 16, Abstain 0, Against 24

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Bourne, Nick
 Dafis, Cynog
 Davies, Glyn
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Graham, William
 Hancock, Brian
 Jarman, Pauline
 Lloyd, David
 Melding, David

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Burnham, Eleanor
 Butler, Rosemary
 Chapman, Christine
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Essex, Sue
 German, Michael

Morgan, Jonathan
 Richards, Rod
 Rogers, Peter
